ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Byw yng Nghymru, 2008

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Pwyntiau cysylltu

Cymru
Yn achos ymholiadau am ystadegau cysylltwch â'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol:
Ffôn: 029 2080 1440
E-bost: **stats.info.desk@wales.gsi.gov.uk**
Minicom: 029 2082 3280
Ffacs: 029 2082 5350
Cyfeiriad: Uned Cyhoeddiadau Ystadegol
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol,
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
Parc Cathays
CAERDYDD, CF10 3NQ
Gallwch ddod o hyd i Ystadegau ar gyfer Cymru ar y rhyngrwyd
www.cymru.gov.uk/ystadegau

Y Deyrnas Unedig
Yn achos ymholiadau ystadegol, cysylltwch â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol
Ffôn: 0845 601 3034
Ymholiadau yng Nghymraeg:
01633 813381
Minicom: 01633 812399
E-bost: **info@statistics.gov.uk**
Ffacs: 01633 652747
Cyfeiriad: Canolfan Cysylltiad Cwsmer,
Ystafell 1.015,
Swyddfa Ystadegau Gwladol,
Ffordd Caerdydd,
Casnewydd, NP10 8XG
Gallwch hefyd ddod o hyd i Ystadegau Gwladol ar y rhyngrwyd
www.statistics.gov.uk

Cyhoeddiad Ystadegau Gwladol
Cynhyrchir ystadegau swyddogol sy'n dwyn logo Ystadegau Gwladol i safonau proffesiynol uchel a nodir yng Nghod Ymarfer Ystadegau Gwladol. Maent yn cael eu hadolygu yn rheolaidd o safbwynt sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y cwsmer. Fe'u cynhyrchir yn rhydd rhag unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

© Hawlfraint y Goron 2009
Cyhoeddwyd gyntaf 2009

ISBN 978 0 7504 5439 1

Llywodraeth Cynulliad Cymru

E5440910

Gellir dyblygu darnau byr o'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio mapiau ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell yn llawn. Dylid cyfeirio ceisiadau am ddyblygu mapiau a darnau hirach at
Yr Uned Hawlfraint,
Gwasg Ei Mawrhydi,
St Clements House,
2-16 Colegate,
Norwich,
NR3 1BQ

Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r Hawlfraint y Goron a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif Trwydded GD272221.

Yn achos ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â'r
Ffôn: 029 2082 5050
E-bost: **chris.mcgowan@wales.gsi.gov.uk**

I archebu copïau ychwanegol o'r cyhoeddiad hwn, galwch yr Uned Cyhoeddiadau Ystadegol ar 029 2082 5054.

75% wedi'i ailgylchu recycled

Rhagair – Ynglŷn â'r arolwg Byw yng Nghymru

Croeso i'r crynodeb hwn sy'n cyflwyno amrediad o'r wybodaeth a gasglwyd yn Arolwg Aelwydydd Byw yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr arolwg Byw yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yn cynnwys arolygon aelwydydd ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2004 a 2008 yn ogystal ag arolygon eiddo ychwanegol yn 2004 a 2008.

Mae ar Lywodraeth y Cynulliad angen ystod o wybodaeth gan aelwydydd ac unigolion er mwyn gallu llunio polisïau yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn effeithio ar nifer o feysydd polisi fel tai, adfywio, trafnidiaeth a pherfformiad awdurdodau lleol. Nod arolwg Byw yng Nghymru oedd casglu gwybodaeth a oedd yn berthnasol i bolisïau mewn meysydd nad oeddent yn cael eu cwmpasu mewn arolygon eraill. Am y rheswm hwn, mae'r arolwg aelwydydd yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau, digyswllt yn aml; ac roedd y pynciau hyn yn amrywio o un flwyddyn i'r llall.

Amcan y cyhoeddiad hwn yw rhoi crynodeb o safon uchel o'r ystadegau a gasglwyd yn Arolwg Aelwydydd Byw yng Nghymru 2008, trwy ganolbwyntio ar ddadansoddi'r data o safbwynt 'cydraddoldebau'. Mae'r cyhoeddiad yn cwmpasu'r rhan fwyaf o bynciau yn arolwg 2008 ac mae'r agweddau ar gydraddoldeb yn berthnasol i'r bobl sy'n ymateb i'r arolwg; eu haelwyd; ac weithiau i bawb sy'n byw ar yr aelwyd.

O 2009-10, mae arolwg Byw yng Nghymru wedi'i ddisodli gan Arolwg Cenedlaethol Cymru. Rheolir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Gangen Arolygon Cenedlaethol o fewn Is-adran Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad. Dylai'r canlyniadau fod ar gael yn yr haf, 2010. Mae rhagor o wybodaeth am yr Arolwg Cenedlaethol ar gael yn: www.cymru.gov.uk/ymchwil

Cydnabyddiaethau'r Golygydd

Noddwyd yr arolwg Byw yng Nghymru gan y Gangen Arolygon Cenedlaethol ('Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol gynt) o fewn Is-adran Ymchwil Genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Maent wedi bod yn gyfrifol am reoli contract yr arolwg gydag Uned Ddata ~ Cymru ac am sicrhau bod cyllid ar gael i'r Uned Ddata allu cynnal y gwaith dadansoddi sy'n sail i'r crynodeb. Hoffwn gydnabod cyfraniad Chris McGowan o ran comisiynu'r cyhoeddiad hwn a'u cymorth wrth ei baratoi.

Byddai wedi bod yn amhosibl paratoi'r cyhoeddiad hwn heb waith caled staff yr adran arolygon yn *Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru*. Felly rydym yn ddiolchgar iawn i Sarah Jones, Lisa Walters, Huw Jones a Darren Hatton am ddrafftio'r rhan fwyaf o'r adrannau yn y cyhoeddiad hwn, gyda chymorth Sarah Williams; a rhaid cydnabod gwaith Julie Williams o Brifysgol Caerdydd hefyd, am yr adran ar dân a diogelwch tân. Hefyd hoffwn ddiolch i Ed Swires-Hennessy am redeg yr arolwg ers ei sefydlu.

Henry Small
Ystadegau Trafnidiaeth
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynnwys

Rhagair a chydnabyddiaethau i

Cynnwys iii
Rhestr Siariau a Thablau vii

Cyflwyniad 1

Pobl yng Nghymru

Pennod 1 – Yr Iaith Gymraeg

Pobl sy'n gallu siarad Cymraeg 5
Gallu ymatebwyr yn y Gymraeg 6
Pa mor aml y byddai ymatebwyr yn siarad Cymraeg 6

Pennod 2 – Anabledd a salwch hirdymor cyfyngus

Ffynonellau data eraill am anabledd 9
Salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor 9
A yw'r salwch neu'r anabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau? 10
Mathau o anabledd 13
Cofrestru fel person anabl 14
Addasiadau tai sydd wedi'u gwneud ac sydd eu hangen 15

Pennod 3 - Addysg

Ffynonellau data addysg eraill 19
Lefel y cymwysterau uchaf 19

Barn am werth cymwysterau:
Allwch chi wneud unrhyw beth heb gymwysterau y dyddiau hyn? 22
Ydych chi'n fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg? 22
Ydych chi'n fwy tebygol o gael swydd dda os oes gennych gymhwyster galwedigaethol perthnasol? 23
Ydy dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd? 24

Pennod 4 - Teithio

Ffynonellau data eraill ar deithio 27
Teithio i'r gwaith 27
Gweithio gartref 30
Teithio i swydd newydd 31
Codi tâl atal tagfeydd 33

Pennod 5 – Defnydd o'r Rhyngrwyd

Ffynonellau data eraill ar ddefnydd o'r Rhyngrwyd 35
Mynediad i gyfrifiadur 35
Mynediad i'r Rhyngrwyd 36
Defnydd o'r Rhyngrwyd 37
Defnydd plant o'r Rhyngrwyd 39

Pobl a chymdeithas

Pennod 6 – Ansawdd Bywyd

Cymdogaeth:
Agwedd ymatebwyr tuag at gymdogion 43
Rhesymau ymatebwyr dros hoffi'u cymdogaeth 44
Rhesymau ymatebwyr dros beidio â hoffi'u cymdogaeth 46
Pa mor ddiogel y mae'r ymatebwyr yn teimlo yn ôl amser y dydd a lleoliad 46

Gweithgareddau:
Pellter cartrefi o fannau gwyrdd naturiol 48
Pellter cartrefi o lwybr troed neu lwybr beiciau 49
Defnyddio'r amgylchedd naturiol i wneud gweithgareddau awyr agored 49

Pennod 7 – Cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol

Cymryd rhan yng ngweithgareddau sefydliadau 53
Mathau o sefydliadau y cymerir rhan ynddynt 56
Pobl sy'n aelodau o sefydliadau ar hyn o bryd 57
Y mathau o sefydliadau yr oedd ymatebwyr yn aelodau ohonynt 58

Pennod 8 – Amgylchedd

Gweithgareddau amgylcheddol 61
Rhesymau dros eu gweithgareddau amgylcheddol 65

Pennod 9 – Gwahaniaethu

Profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth 67
Rhesymau dros wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth 68
Adrodd am achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth 69
Adrodd am ddigwyddiadau yn ôl y rheswm am y gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth 70

Pennod 10 – Barn ar bobl anabl

Faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru? 71
A yw pobl anabl yng Nghymru yn gallu defnyddio cludiant yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl? 72

Heriau sy'n wynebu pobl anabl:
A yw pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau wrth chwilio am waith? 73
A yw pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau yn y gweithle? 74
A yw plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn cael yr un cyfle ym myd addysg? 75
Ar y cyfan, a yw pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas? 76
Faint sy'n gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl? 77

Pennod 11 – Economi Aelwydydd

Incwm unigolion 79
Incwm Aelwydydd 81
Budd-daliadau 82
Cynilion 85

Pobl a thai

Pennod 12 - Deiliadaeth

Deiliadaeth 91
Rhan-berchenogaeth 94

Pennod 13 – Tai Gorlawn

Diffiniad o'r mesur safon ystafelloedd gwely 97
Problemau sy'n gysylltiedig â 'thai gorlawn' 97
Ffynonellau eraill o fesur 'tai gorlawn' 97
Nifer yr aelwydydd 'gorlawn' yng Nghymru 98
Plant yn byw dan amodau 'gorlawn' 101

Pennod 14 - Amwynderau

Amwynderau Sylfaenol 103
Dull gwresogi 103
Arferion gwresogi 104
Taliadau am ynni 104
Inswleiddio ac arbed ynni 105

Pennod 15 – Tân a Diogelwch Tân

Ffynonellau data eraill ar danau 109
Achosion tân 109
Defnydd o'r Gwasanaeth Tân ac Achub 111
Atal tân 112
Larymau mwg: math o bŵer a phrofi 114
Llwybr dianc 116

Pennod 16 – Cyllid Tai

Deiliadaeth 119
Perchen-feddianwyr 119
Pobl sy'n Rhentu 123
Y Dreth Gyngor 125

Gwybodaeth cyffredinol

Pennod 17 – Gwybodaeth Gyffredinol

Poblogaeth - Dadansoddiad fesul oedran a rhyw 131
Grŵp ethnig 132
Crefydd 132
Statws gweithio 133
Dosbarth dadansoddol Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) 133
Math o aelwyd 134
Aelwydydd sy'n gweithio a'r rhai sy'n ddi-waith 134
Aelwydydd agored i niwed 135
Dosbarthiad trefol/gwledig 135
Hunaniaeth genedlaethol 136

Gwybodaeth Ansawdd Allweddol 137

Termau a diffiniadau 139

Pobl yng Nghymru

Pennod 1 – Yr Iaith Gymraeg

Siart 1.1:	Pobl (3 oed a throsodd) a oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran	5
Siart 1.2:	Cartrefi yn ôl cyfansoddiad ieithyddol y cartref	5
Siart 1.3:	Aelwydydd lle mae pob person tair oed neu drosodd yn siarad Cymraeg yn ôl dosbarthiad 'trefol/gwledig'	6
Siart 1.4:	O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, eu lefel gallu yn y Gymraeg	6
Siart 1.5:	O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, pa mor aml y byddent yn siarad Cymraeg	7
Siart 1.6:	O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, pa mor aml y byddent yn siarad Cymraeg yn ôl lefel gallu	7
Siart 1.7:	O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, iaith eu sgwrs ddiweddaraf yn ôl oedran	7
Siart 1.8:	O'r ymatebwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, iaith eu sgwrs ddiweddaraf yn ôl dosbarthiad trefol/gwledig	8

Pennod 2 – Anabledd a salwch hirdymor cyfyngus

Siart 2.1:	Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor yn ôl oedran	10
Siart 2.2:	Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor yn ôl a yw'n cyfyngu arnynt ai peidio ac yn ôl blwyddyn	10
Siart 2.3:	Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor yn ôl a yw'n cyfyngu arnynt ai peidio ac oedran	10
Siart 2.4:	Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus yn ôl deiliadaeth ac oedran	11
Siart 2.5:	Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus yn ôl oedran ac a yw eu haelwyd yn gweithio ai peidio	11
Siart 2.6:	Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus yn ôl oedran ac incwm aelwyd	12
Siart 2.7:	Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus yn ôl dosbarthiadau trefol neu wledig	12
Siart 2.8:	Natur anabledd y rheini â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor	13
Siart 2.9:	Natur anabledd y rheini â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor	13
Siart 2.10:	O'r bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, a ydynt wedi cofrestru gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ôl eu statws gwaith	14
Siart 2.11:	O'r rheini â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, a ydynt wedi cofrestru gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ôl natur eu hanabledd	15
Tabl 2.1:	O'r aelwydydd â phobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor: Y gyfran sydd angen cael ac wedi cael addasiadau amrywiol i'w cartrefi	15
Siart 2.12:	O'r aelwydydd hynny a oedd yn cynnwys rhywun â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, a ydynt wedi cael yr addasiadau y maent eu hangen yn ôl deiliadaeth	16
Siart 2.13:	Canran y bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor a oedd angen addasiad yn ôl natur eu hanabledd	16

Pennod 3 - Addysg

Siart 3.1:	Lefel y cymwysterau uchaf sydd gan ymatebwyr	19
Siart 3.2:	Ymatebwyr heb unrhyw un o'r cymwysterau a restrwyd yn ôl oedran	20
Siart 3.3:	Lefel y cymwysterau uchaf sydd gan ymatebwyr yn ôl deiliadaeth yr ymatebwyr	20
Siart 3.4:	Lefel y cymwysterau uchaf sydd gan ymatebwyr yn ôl eu dosbarth dadansoddol NS-SEC	21
Siart 3.5:	Agwedd yr ymatebwyr i'r datganiad 'allwch chi ddim gwneud unrhyw beth heb gymwysterau y dyddiau hyn', yn ôl lefel cytuno	22
Siart 3.6:	Agwedd yr ymatebwyr at y datganiad 'rydych yn fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg' yn ôl lefel y cytundeb	23
Siart 3.7:	Ymatebwyr a oedd yn cytuno gyda'r datganiad 'rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg' yn ôl lefel cymwysterau uchaf yr ymatebydd	23
Siart 3.8:	Agwedd yr ymatebwyr at y datganiad 'rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd dda os oes gennych gymhwyster galwedigaethol perthnasol' yn ôl lefel y cytundeb	24
Siart 3.9:	Agwedd yr ymatebwyr at y datganiad 'mae dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd' yn ôl lefel y cytundeb	24
Siart 3.10:	Ymatebwyr a oedd yn anghytuno gyda'r datganiad 'mae dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd' yn ôl dosbarth dadansoddol NS-SEC yr ymatebwyr	25

Pennod 4 - Teithio

Siart 4.1:	Prif ddull o deithio i'r gwaith, yn ôl rhyw yr ymatebydd	28
Siart 4.2:	Pellter teithio i'r gwaith, yn ôl rhyw yr ymatebydd	28
Siart 4.3:	Prif ddull o deithio i'r gwaith, yn ôl incwm y cartref	29
Siart 4.4:	Prif ddull o deithio i'r gwaith, yn ôl galwedigaeth, ymatebwyr mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' a 'galwedigaethau cyffredin' yn nosbarthiad dadansoddol NS-SEC	29
Siart 4.5:	Pellter teithio i'r gwaith, yn ôl galwedigaeth, i ymatebwyr mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' a 'galwedigaethau cyffredin' dosbarthiad dadansoddol NS-SEC	30
Siart 4.6:	Gweithio gartref, yn ôl galwedigaeth yr ymatebydd yn nosbarth dadansoddol NS-SEC	30
Siart 4.7:	Gweithio gartref, yn ôl dosbarthiad 'trefol/gwledig'	31
Siart 4.8:	Faint o amser y byddai ymatebwyr yn barod i'w dreulio yn teithio i swydd newydd, yn ôl rhyw yr ymatebydd nt	31
Siart 4.9:	Faint o amser y byddai ymatebwyr yn barod i'w dreulio yn teithio i swydd newydd, yn ôl math o gartref	32
Siart 4.10:	Faint o amser y byddai ymatebwyr yn barod i'w dreulio yn teithio i swydd newydd, ymatebwyr mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' a 'galwedigaethau cyffredin' dosbarthiad dadansoddol NS-SEC	32
Siart 4.11:	I ba raddau mae ymatebwyr yn gwrthwynebu tâl atal tagfeydd, yn ôl rhyw yr ymatebydd	33

Pennod 5 – Defnydd o'r Rhyngrwyd

Siart 5.1: Aelwydydd â mynediad i gyfrifiadur yn y cartref yn ôl cyfanswm incwm gros aelwydydd 35
Tabl 5.1: O'r aelwydydd heb gyfrifiadur personol, rhesymau a ddewiswyd dros beidio bod ag un, yn ôl oedran HRP 36
Siart 5.2: Aelwydydd â mynediad i'r Rhyngrwyd ac a yw hyn trwy gyfrwng band eang, yn ôl blwyddyn 37
Siart 5.3: Aelwydydd â mynediad i'r Rhyngrwyd yn ôl math o ddeiliadaeth a blwyddyn 37
Siart 5.4: Mynediad ymatebwyr i'r rhyngrwyd yn y cartref, yn y gwaith neu rywle arall, ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau, yn ôl oedran a blwyddyn 38
Siart 5.5: Pa mor aml mae ymatebwyr yn mynd ar y Rhyngrwyd yn y cartref, yn y gwaith neu rywle arall, drwy gyfrwng cysylltiad band eang 39
Siart 5.6: Pa mor aml mae plant 7 i 10 oed yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn y cartref 39

Pobl a chymdeithas

Pennod 6 – Ansawdd Bywyd

Tabl 6.1 Agweddau ymatebwyr tuag at ddatganiadau am eu cymdogaeth yn ôl lefel eu cytundeb 43
Tabl 6.2 Rhesymau ymatebwyr dros hoffi byw yn eu cymdogaeth 44
Siart 6.1: Rhesymau ymatebwyr dros hoffi byw yn eu cymdogaeth, wedi'u rhannu'n bedwar prif gategori 45
Siart 6.2: Y pedwar prif reswm a roddwyd gan ymatebwyr dros hoffi byw yn eu cymdogaeth, fesul blwyddyn 45
Tabl 6.3: Rhesymau ymatebwyr dros beidio â hoffi byw yn eu cymdogaeth 46
Siart 6.3: Ymatebwyr a oedd yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn eu cymdogaeth yn ystod golau dydd a fin nos, yn ôl daliadaeth 47
Siart 6.4: Ymatebwyr a oedd yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yng nghanol eu tref neu'u dinas agosaf yn ystod golau dydd a fin nos, yn ôl daliadaeth 47
Siart 6.5: Pa mor aml mae ymatebwyr yn defnyddio amgylchedd naturiol Cymru i wneud gweithgareddau awyr agored 49
Siart 6.6: Ymatebwyr mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' a 'galwedigaethau rheolaidd' yn ôl a oeddent yn defnyddio'r amgylchedd naturiol 'o leiaf unwaith yr wythnos' neu 'byth' 49

Pennod 7 – Cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol

Siart 7.1: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl oedran a blwyddyn 53
Siart 7.2: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl oedran a blwyddyn 54
Siart 7.3: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl daliadaeth a blwyddyn 54
Siart 7.4: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl dosbarth cymdeithasol 55
Siart 7.5: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl dosbarthiad trefol a gwledig 55
Siart 7.6: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn gwahanol fathau o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl y math o weithgaredd a rhyw 56
Siart 7.7: Ymatebwyr a oedd yn aelodau o o leiaf un sefydliad, yn ôl oedran a rhyw 57
Siart 7.8: Ymatebwyr a oedd yn aelodau o o leiaf un sefydliad neu a gymerodd ran ynddo, yn ôl rhyw a blwyddyn 58
Siart 7.9: Ymatebwyr a oedd yn aelodau o o leiaf un sefydliad neu a gymerodd ran ynddo, yn ôl incwm y cartref 58
Siart 7.10: Ymatebwyr a oedd yn aelodau o o leiaf un sefydliad neu a gymerodd ran ynddo, yn ôl y mathau o sefydliadau 59

Pennod 8 – Amgylchedd

Siart 8.1:	Gweithgareddau amgylcheddol a wnaed gan aelwydydd yn y 12 mis diwethaf	61
Siart 8.2:	A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl oedran y HRP	62
Siart 8.3:	A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl deiliadaeth	62
Siart 8.4:	A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl incwm aelwydydd	63
Siart 8.5:	A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl dosbarth cymdeithasol y HRP	64
Siart 8.6:	A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl dosbarthiad trefol neu wledig	64
Siart 8.7:	Rhesymau a ysgogodd aelwydydd i wneud gweithgaredd amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf	65
Siart 8.8:	Aelwydydd sy'n nodi 'er mwyn arbed arian' fel rheswm a'u hysgogodd i wneud gweithgaredd amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl dosbarthiad cymdeithasol y HRP	65
Siart 8.9:	Aelwydydd sy'n dweud eu bod bob amser wedi gwneud gweithgaredd amgylcheddol yn ôl dosbarthiad trefol neu wledig	66

Pennod 9 – Gwahaniaethu

Siart 9.1:	Ymatebwyr sydd wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf, yn ôl oedran	67
Siart 9.2:	O'r ymatebwyr hynny a oedd wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf, rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr	68
Siart 9.3:	Ymatebwyr a roddodd 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' neu 'hil' fel rheswm am eu profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, yn ôl blwyddyn	68
Siart 9.4:	Ymatebwyr sydd wedi adrodd am eu profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf yn ôl blwyddyn	69

Pennod 10 – Barn ar bobl anabl

Siart 10.1:	Barn ymatebwyr ar faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru	71
Siart 10.2:	Barn ymatebwyr ar faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru, yn ôl lefel anabledd yr ymatebwr	71
Tabl 10.1:	Ymatebwyr gyda a heb salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor, yn ôl oedran	72
Siart 10.3:	Barn ymatebwyr ynglŷn ag a yw pobl anabl yng Nghymru yn gallu defnyddio cludiant yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl	73
Siart 10.4:	Agwedd ymatebwyr i'r datganiad 'Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau wrth chwilio am waith', yn ôl i ba raddau y cytunant	73
Siart 10.5:	Agwedd ymatebwyr i'r datganiad 'Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau yn y gweithle', yn ôl i ba raddau y cytunant	74
Siart 10.6:	Agwedd ymatebwyr i'r datganiad 'Mae plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn cael yr un cyfle ym myd addysg', yn ôl i ba raddau y cytunant	75
Siart 10.7:	Ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' â'r datganiad 'Mae plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn cael yr un cyfle ym myd addysg', yn ôl oedran ac a oes anabledd gan yr ymatebydd ai peidio	75
Siart 10.8:	Agwedd ymatebwyr i'r datganiad 'Ar y cyfan, mae pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas', yn ôl i ba raddau y cytunant	76
Siart 10.9:	Ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' â'r datganiad 'Ar y cyfan, mae pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas', yn ôl oedran	76
Siart 10.10:	Barn ymatebwyr ar faint sy'n gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl	77

Pennod 11 – Economi Aelwydydd

Siart 11.1:	Cyfanswm incwm gros blynyddol HRPs a'u partner/priod	79
Siart 11.2:	HRPs a'u partner/priod sydd â chyfanswm incwm gros blynyddol o lai na £15,600 yn ôl blwyddyn	80
Siart 11.3:	HRPs a'u partner/priod sydd â chyfanswm incwm gros blynyddol o lai na £15,600, yn ôl pa un a yw'r aelwyd yn cynnwys rhywun â salwch hirdymor, person llesg neu anabl	80
Siart 11.4:	Aelwydydd â chyfanswm incwm gros aelwydydd o lai na £15,600 neu £31,200 neu drosodd, yn ôl oed yr HRP	81
Siart 11.5:	Aelwydydd â chyfanswm incwm gros yr aelwyd o £31,200 neu drosodd, yn ôl cyrhaeddiad addysgol uchaf (lefel FfCC) yr ymatebwyr	82
Siart 11.6:	HRPs a phartner / priod a ddywedodd nad oeddynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau a rhai sy'n derbyn budd-daliadau plant, yn ôl rhyw	82
Tabl 11.1:	HRPs a'u partner/priod a ddywedodd eu bod yn derbyn budd-daliadau neu lwfansau gwladol penodol, yn ôl deiliadaeth	83
Siart 11.7:	HRPs a'u partner/priod a ddywedodd eu bod yn derbyn 'cymorth incwm' a 'budd-daliadau analluedd' yn ôl pa un a oeddynt yn byw mewn aelwydydd 'di-waith' neu 'pob aelwyd'	83
Tabl 11.2:	O'r HRPs a'u partner/priod a dderbyniai fudd-daliadau neu lwfansau gwladol, faint a dderbynient yn wythnosol	84
Siart 11.8:	O'r HRPs a'u partner/priod sy'n derbyn budd-daliadau neu lwfansau gwladol, y rhai sy'n derbyn £100 neu fwy yr wythnos mewn budd-daliadau a lwfansau gwladol, yn ôl statws gweithio	84
Siart 11.9:	O'r ymatebwyr a'u partner/priod a ddywedodd fod ganddynt gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi, y rhai sydd â rhwng £5,000 a £19,999 o gynilion, yn ôl cyrhaeddiad addysgol uchaf (lefel FfCC) yr ymatebwyr	85

Pobl a thai

Pennod 12 – Deiliadaeth

Siart 12.1:	Deiliadaeth aelwydydd	91
Siart 12.2:	Aelwydydd mewn cartrefi 'awdurdod lleol' a 'chymdeithas dai' yn ôl blwyddyn	91
Siart 12.3:	Deiliadaeth aelwydydd yn ôl oedran yr HRP	92
Siart 12.4:	Deiliadaeth yn ôl math o aelwyd	92
Siart 12.5:	Deiliadaeth yn ôl pa un a yw'r aelwyd yn gweithio neu'n ddi-waith	93
Siart 12.6:	Deiliadaeth yn ôl incwm aelwydydd	93
Siart 12.7:	Deiliadaeth yn ôl dosbarthiad 'trefol/gwledig'	94
Siart 12.8:	Cartrefi perchen-feddiant a brynwyd drwy gynllun rhan-berchenogaeth neu 'hawl i brynu', yn ôl blwyddyn	94

Pennod 13 – Tai Gorlawn

Siart 13.1: Nifer y bobl ar gyfartaledd sy'n byw ar aelwyd yn ôl a wnaeth yr aelwyd lwyddo neu fethu i gyrraedd y safon ystafelloedd gwely, fesul blwyddyn 98
Siart 13.2: Nifer y bobl fesul aelwyd yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely ar gyfartaledd ac yn ôl a oedd yr aelwyd wedi llwyddo neu fethu'r safon ystafelloedd gwely 99
Siart 13.3: Cyfran yr aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely yn ôl daliadaeth 99
Siart 13.4: Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn byw ar aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely, yn ôl lefel uchaf addysg ac oed ymatebwyr 100
Siart 13.5: Cyfran y bobl yn byw ar aelwyd a fethodd y safon ystafelloedd gwely, yn ôl oedran 101
Siart 13.6: Cyfran yr aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely, yn ôl nifer y plant dibynnol ar yr aelwyd 101

Pennod 14 - Amwynderau

Tabl 14.1: Aelwydydd heb o leiaf un o'r pum amwynder sylfaenol 103
Siart 14.1: Barn ymatebwyr ar ba mor effeithiol yw eu system wresogi yn y gaeaf yn ôl deiliadaeth 104
Siart 14.2: Dull o dalu biliau nwy a thrydan aelwydydd 105
Siart 14.3: Taliadau 'debyd uniongyrchol' ar gyfer biliau nwy a thrydan, yn ôl cyfanswm incwm gros aelwydydd 105
Siart 14.4: Aelwydydd â phob cam inswleiddio posibl wedi'u cymryd, yn ôl deiliadaeth 106

Pennod 15 – Tân a Diogelwch Tân

Siart 15.1: Aelwydydd a ddioddefodd dân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl oedran yr ymatebydd 110
Siart 15.2: Aelwydydd a ddioddefodd dân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl math o aelwyd 110
Siart 15.3: Aelwydydd a ddioddefodd dân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl deiliadaeth 110
Siart 15.4: Aelwydydd a ddioddefodd dân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl incwm gros aelwydydd 111
Siart 15.5: O'r aelwydydd a ddioddefodd dân yn ystod y 12 mis diwethaf, a alwyd y Gwasanaeth Tân ac Achub ai peidio, yn ôl oedran yr ymatebydd 111
Siart 15.6: O'r aelwydydd a ddioddefodd dân yn ystod y 12 mis diwethaf, a alwyd y Gwasanaeth Tân ac Achub ai peidio, yn ôl math o aelwyd 112
Siart 15.7: O'r aelwydydd a ddioddefodd dân yn ystod y 12 mis diwethaf, a alwyd y Gwasanaeth Tân ac Achub ai peidio, yn ôl deiliadaeth 112
Siart 15.8: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau 113
Siart 15.9: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau, yn ôl oedran yr ymatebydd 113
Siart 15.10: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau, yn ôl mathau o aelwyd 113
Siart 15.11: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau, yn ôl deiliadaeth 114
Siart 15.12: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau, yn ôl grŵp ethnig yr ymatebydd 114
Siart 15.13: Cyfran yr aelwydydd sydd â larwm mwg yn gweithio oddi ar y prif gyflenwad, yn ôl oedran yr ymatebydd 115
Siart 15.14: Cyfran yr aelwydydd sydd â larwm mwg yn gweithio oddi ar y prif gyflenwad, yn ôl deiliadaeth 115
Siart 15.15: Cyfran yr aelwydydd lle NAD yw'n bosibl mynd allan mewn argyfwng o ystafell wely heb fynd drwy ystafelloedd eraill, yn ôl deiliadaeth 116

Pennod 16 – Cyllid Tai

Tabl 16.1:	Oedran person cyswllt yr aelwyd yn ôl deiliadaeth	119
Siart 16.1:	O'r aelwydydd hynny sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, y dull o brynu tŷ, yn ôl oedran person cyswllt yr aelwyd	119
Tabl 16.2:	O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, y flwyddyn y codwyd y morgais gwreiddiol a ddefnyddiwyd i brynu'r eiddo	120
Siart 16.2:	O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfnod y morgeisi a godwyd ers dechrau 2000	120
Siart 16.3:	O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, maint y morgais cychwynnol a godwyd rhwng 1990 a 1999, ac o 2000 ymlaen	120
Siart 16.4:	O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfanswm incwm gros aelwydydd a gododd forgais cychwynnol o £75,000 neu fwy	121
Siart 16.5:	O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfran y morgeisi sy'n dal yn ddyledus neu wedi'u talu'n llawn, yn ôl oedran person cyswllt yr aelwyd	121
Siart 16.6:	O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfanswm y benthyciadau/morgeisi sy'n ddyledus	122
Siart 16.7:	O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfanswm ad-daliadau misol ar bob benthyciad/morgais sy'n ddyledus	122
Tabl 16.3:	O'r aelwydydd a oedd yn rhentu eu cartrefi eu hunain, cyfartaledd y rhent misol yn ôl math o landlord	123
Siart 16.8:	O'r aelwydydd a oedd yn rhentu eu cartrefi eu hunain, cyfartaledd rhent misol yn ôl oedran yr HRP	123
Siart 16.9:	O'r aelwydydd oedd yn rhentu eu cartrefi eu hunain, cyfartaledd rhent misol yn ôl band treth cyngor yr eiddo	124
Siart 16.10:	O'r aelwydydd a oedd yn rhentu eu cartrefi eu hunain, cyfartaledd rhent misol am lety wedi'i ddodrefnu a heb ei ddodrefnu, yn ôl blwyddyn	124
Siart 16.11:	Amcangyfrif ymatebwyr o fand treth cyngor yr eiddo	125
Siart 16.12:	Amcangyfrif ymatebwyr o fandiau treth cyngor eiddo o gymharu â gwir fandiau treth cyngor eiddo yng Nghymru	126
Tabl 16.4:	Aelwydydd oedd yn derbyn budd-dal treth cyngor, yn ôl amcangyfrif ymatebwyr o fand treth cyngor	126
Siart 16.13	Ymatebwyr oedd yn derbyn budd-dal treth cyngor, yn ôl oedran HRP	127

Gwybodaeth cyffredinol

Pennod 17 – Gwybodaeth Gyffredinol

Siart 17.1:	Cyfran y bobl ym mhob grŵp oedran	131
Siart 17.2:	Pobl yn ôl a ydynt o dan 16 oed, o oedran gweithio neu oedran pensiwn	132
Tabl 17.1:	Pobl yn ôl grŵp ethnig	132
Tabl 17.2:	Pobl yn ôl math o grefydd	132
Siart 17.3:	Pobl 16 oed a throsodd yn ôl statws gweithio	133
Siart 17.4:	Person cyswllt y cartref a'i bartner/priod yn ôl dosbarth dadansoddol NS-SEC	133
Siart 17.5:	Aelwydydd yn ôl math o aelwyd	134
Siart 17.6:	Aelwydydd yn ôl statws 'aelwydydd di-waith'	135
Siart 17.7:	Aelwydydd yn ôl a ydynt wedi'u dosbarthu fel aelwydydd 'agored i niwed' ai peidio	135
Siart 17.8:	Aelwydydd yn ôl dosbarthiad 'trefol/gwledig'	136
Siart 17.9:	Pobl yn ôl eu hunaniaeth genedlaethol	136

Cyflwyniad

Croeso i'r crynodeb hwn sy'n cyflwyno amrediad o'r wybodaeth a gasglwyd yn Arolwg Aelwydydd Byw yng Nghymru:

Byw yng Nghymru 2008

Amcan y cyhoeddiad hwn yw rhoi crynodeb safon uchel o'r ystadegau a gasglwyd yn Arolwg Aelwydydd Byw yng Nghymru 2008. Mae'r crynodeb hwn yn cwmpasu holl bynciau arolwg 2008 ac eithrio 'Barn y Dinesydd am Wasanaethau Cyhoeddus'[1]. Mae'n cynnwys cymariaethau gyda chanfyddiadau o flynyddoedd blaenorol lle mae'r rhain yn berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn canolbwyntio ar ddadansoddi'r data o safbwynt 'cydraddoldeb'. Mae'r cyhoeddiad yn cwmpasu'r rhan fwyaf o bynciau yn arolwg 2008 ac mae'r agweddau ar gydraddoldeb yn berthnasol i'r bobl sy'n ymateb i'r arolwg; eu haelwyd; ac i bawb weithiau sy'n byw ar yr aelwyd.

Mae'r agweddau ar gydraddoldeb a drafodir yn y cyhoeddiad hwn yn cynnwys:

- oedran;
- rhyw;
- grŵp ethnig;
- math o aelwyd;
- deiliadaeth;
- a yw aelwyd yn aelwyd sy'n gweithio neu'n aelwyd ddi-waith;
- pobl â salwch 'cyfyngus' hirdymor, pobl llesg neu anabl;
- incwm yr aelwyd; statws gweithio;
- dosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol;
- dosbarthiad Trefol/Gwledig;
- aelwydydd agored i niwed (plentyn o dan 16 oed/oedolyn dros 59 oed neu gyda salwch cyfyngus hirdymor);
- cyfansoddiad ieithyddol yr aelwyd;
- crefydd; ac yn olaf
- lefel cymhwyster uchaf yr ymatebydd.

Ni all unrhyw gyhoeddiad gwmpasu'r holl wybodaeth hon, felly mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno detholiad o'r data cynhwysfawr sydd ar gael o Arolwg Aelwydydd Byw yng Nghymru. Rhan o nod y cyhoeddiad hwn yw galluogi pobl yng Nghymru i ddefnyddio'r ffynhonnell ddata hon. Er mwyn helpu hyn, mae yna restr o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd yn Arolwg 2008 ar ddiwedd pob pennod.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cwmpasu tair elfen gyffredinol o fywyd Cymru. Yr elfen gyntaf yw ***Pobl yng Nghymru***; sef y defnydd o'r iaith Gymraeg, anableddau a salwch hirdymor pobl, trafod effaith ac agweddau at addysg, ac yn olaf, y ffordd mae pobl yn teithio a defnyddio'r Rhyngrwyd.

Mae'r ail elfen o fywyd yng Nghymru yn ymwneud â ***Pobl a Chymdeithas***; sef canfyddiad pobl o ansawdd eu bywyd, sut maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol a'u hagweddau at yr amgylchedd. Mae hefyd yn edrych ar eu profiad o wahaniaethu a'u barn ar bobl anabl. Yn olaf, mae'n trafod agweddau ar eu lles materol.

Mae rhan olaf y cyhoeddiad hwn yn edrych ar ***Pobl a Thai***; deiliadaeth eu cartrefi, a yw cartrefi yng Nghymru yn orlawn a'r mathau o amwynderau tai sydd ar gael i aelodau aelwydydd. Mae'r adran hon hefyd yn edrych ar y materion pwysig sy'n gysylltiedig â thân a diogelwch tân. Mae'n cloi drwy edrych ar rai o'r materion ariannol sy'n gysylltiedig â rhentu neu fod yn berchen ar gartref.

---

[1] Cyhoeddwyd canlyniadau Profiadau Dinasyddion o Wasanaethau Cyhoeddus Arolwg Byw yng Nghymru 2008 ar 23 Tachwedd 2009. Maent yn cwmpasu saith maes gwasanaeth:

- Gwasanaethau Meddygfeydd;
- Gwasanaethau Ysbytai;
- Gwasanaethau Bws Lleol;
- Cyfleusterau Ailgylchu Lleol;
- Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden;
- Gwasanaethau Awdurdod Lleol; a
- Gwasanaethau Iechyd Lleol.

Byw yng Nghymru 2008

Mae'r bennod olaf yn cyflwyno amrywiaeth o ganlyniadau cyffredinol fel y gellir eu cymharu gyda data o arolygon ystadegol a ffynonellau data eraill ar fywyd yng Nghymru.

Mae gwefan StatsCymru yn darparu ffigurau manylach sy'n sail i'r Siartiau a'r Tablau yn y crynodeb hwn. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.statscymru.cymru.gov.uk

Yn ychwanegol i'r Arolwg Aelwydydd Byw yng Nghymru a bu'n rhedeg rhwng 2004 a 2008; roedd yna Arolygon Eiddo Byw yng Nghymru cysylltiedig yn 2004 a 2008. Bydd canlyniadau o'r arolwg eiddo 2008 yn cael eu cyhoeddi yn 2010. Bydd y cyhoeddiadau o'r ail arolwg eiddo yma yn cwmpasu'r testunau canlynol:

- Tlodi tanwydd yng Nghymru;
- Mesuriadau gwresogi ac ynni ar draws stoc tai yn Nghymru;
- Graddfeydd Tai, Iechyd a Diogelwch (sy'n cymryd lle y raddfa Addasrwydd ar gyfer asesu anheddau a gallai fod yn beryglus);
- Costau atgyweirio tai yng Nghymru;
- Anheddau anaddas yng Nghymru; a
- Safon Ansawdd Tai yng Nghymru (SATC), y safon ansawdd ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Arolwg Byw yng Nghymru ar y wefan. Mae'r dolenni o'r wefan hon yn galluogi defnyddwyr i weld y canfyddiadau, darllen mwy o wybodaeth am yr arolwg ei hun, a gweld canfyddiadau'r gorffennol:
www.cymru.gov.uk/bywyngnghymru

Ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r arolwg Byw yng Nghymru cysylltwch â:
Ffôn: 029 2082 5050
E-bost: chris.mcgowan@cymru.gsi.gov.uk

Os ydych am roi adborth neu ofyn cwestiynau cyffredinol, anfonwch e-bost at:
stats.transport@wales.gsi.gov.uk

Ystadegau Trafnidiaeth
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Pobl yng Nghymru

Cyflwyniad

Gofynnodd arolwg Byw yng Nghymru nifer o gwestiynau i ymatebwyr ynglŷn â'r iaith Gymraeg i geisio darganfod gallu'r bobl sy'n byw yng Nghymru i siarad a deall yr iaith. Mae union eiriad y cwestiynau a ofynnwyd yn yr adran ar yr iaith Gymraeg yn arolwg Byw yng Nghymru i'w weld ar ddiwedd y bennod.

Pobl sy'n gallu siarad Cymraeg

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddynt yn gallu siarad Cymraeg ac a oedd pob person tair oed neu drosodd ar eu haelwyd yn gallu siarad Cymraeg. Gallai ychydig dros un rhan o bump o boblogaeth Cymru siarad Cymraeg (22 y cant).

Mae siart 1.1 yn dangos mai plant oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o allu siarad Cymraeg.

Siart 1.1: Pobl (3 oed a throsodd) a oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran

Mae pobl nad oedd eu gallu i siarad Cymraeg yn hysbys wedi'u hepgor o'r siart

Roedd bron i ddwy ran o bump o blant rhwng 3 a 15 oed yn gallu siarad Cymraeg. Y grŵp oedran nesaf a oedd yn fwyaf tebygol o allu siarad Cymraeg oedd oedolion iau rhwng 16 a 29.

Mae arolwg Byw yng Nghymru wedi creu newidyn a elwir yn 'gyfansoddiad ieithyddol y cartref', sy'n edrych ar nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ar aelwydydd ledled Cymru.

Gwelir tri chategori'r newidyn yn siart 1.2: aelwydydd lle roedd pob person tair oed neu drosodd yn gallu siarad Cymraeg, aelwydydd lle nad oedd unrhyw berson tair oed neu drosodd yn gallu siarad Cymraeg, ac yn drydydd, aelwydydd sy'n cynnwys rhai pobl tair oed neu drosodd sy'n gallu siarad Cymraeg a rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

Er bod 22 y cant o unigolion yn gallu siarad Cymraeg, roedd 30 y cant o aelwydydd yn cynnwys o leiaf un person a allai siarad Cymraeg. Roedd 13 y cant o aelwydydd â 'Phawb yn siarad Cymraeg', h.y. roedd pob aelod o'r aelwyd, a oedd yn dair oed neu drosodd, yn gallu siarad Cymraeg.

Siart 1.2: Cartrefi yn ôl cyfansoddiad ieithyddol y cartref

Mae siart 1.3 yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng cyfran yr aelwydydd lle roedd pawb a oedd yn dair oed neu drosodd yn siarad Cymraeg a'u lleoliad yn y wlad.

Siart 1.3: Aelwydydd lle mae pob person tair oed neu drosodd yn siarad Cymraeg yn ôl dosbarthiad 'trefol/gwledig'

Roedd aelwydydd mewn 'pentrefi' a 'phentrefannau ac anheddau ynysig' dros bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn aelwyd lle roedd pawb yn siarad Cymraeg o gymharu ag aelwydydd mewn ardaloedd 'trefol'.

Gallu ymatebwyr yn y Gymraeg

Wedyn gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr a allai siarad Cymraeg ynglŷn â'u gallu i siarad Cymraeg a pha mor aml y byddent yn siarad Cymraeg. Noder fod yr ymatebwyr i gyd dros 16 oed.

O'r holl ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, mae siart 1.4 yn dangos fod 55 y cant yn 'rhugl yn y Gymraeg' a bron i un o bob pump o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg oedd ond yn gallu siarad 'ychydig o Gymraeg' mewn gwirionedd.

Siart 1.4: O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, eu lefel gallu yn y Gymraeg

Er bod cyfran uwch o bobl ifanc yn gallu siarad Cymraeg, roeddynt yn llai tebygol o fod yn rhugl yn y Gymraeg o gymharu â phobl hŷn. O'r ymatebwyr rhwng 16 a 29 oed a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, 47 y cant a ddywedodd hefyd eu bod yn 'rhugl yn y Gymraeg' o gymharu â dwy ran o dair o ymatebwyr 60 oed neu drosodd a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg a hefyd eu bod yn 'rhugl yn y Gymraeg'.

Pa mor aml y byddai ymatebwyr yn siarad Cymraeg

O'r holl ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, mae siart 1.5 yn dangos fod bron i dri o bob pum person yn siarad Cymraeg yn 'ddyddiol'. Dim ond 4 y cant o ymatebwyr a allai siarad Cymraeg a ddywedodd nad oeddynt 'byth' yn siarad Cymraeg mewn gwirionedd.

O'r holl ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, roedd o leiaf eu hanner yn siarad Cymraeg yn 'ddyddiol' beth bynnag eu hoedran. Y grŵp oedran â'r gyfran uchaf o ymatebwyr a allai siarad Cymraeg ac a siaradai Gymraeg yn 'ddyddiol' oedd ymatebwyr rhwng 40 a 49 oed.

Siart 1.5: O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, pa mor aml y byddent yn siarad Cymraeg

Yn naturiol, roedd gallu ymatebwyr yn y Gymraeg yn effeithio ar ba mor aml y byddent yn siarad Cymraeg. Dangosir hyn yn siart 1.6 isod.

Siart 1.6: O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, pa mor aml y byddent yn siarad Cymraeg yn ôl lefel gallu

O'r ymatebwyr a oedd yn rhugl yn y Gymraeg, roedd 83 y cant yn siarad Cymraeg yn ddyddiol. O'r ymatebwyr na allai siarad mwy nag 'ychydig eiriau' o Gymraeg, dywedodd 32 y cant nad oeddynt byth yn ei siarad.

Wedyn gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg feddwl am eu sgwrs ddiweddaraf â rhywun heblaw aelod o'u teulu, a gofynnwyd iddynt ym mha iaith y cafodd y sgwrs ei chynnal.

Mae siart 1.7 yn dangos dosbarthiad sgyrsiau a gynhaliwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl oedran yr ymatebydd a siaradai Gymraeg.

Siart 1.7: O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, iaith eu sgwrs ddiweddaraf yn ôl oedran

Mae ymatebwyr oedd 'ddim yn gwybod/ddim yn cofio' iaith eu sgwrs ddiweddaraf neu ymatebwyr yr oedd eu sgwrs ddiweddaraf wedi'i chynnal drwy gyfrwng iaith arall heblaw Cymraeg neu Saesneg wedi'u hepgor o'r siart

O'r holl ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, roedd 38 y cant wedi siarad Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf â rhywun heblaw aelod o'u teulu.

Roedd cydberthyniad cadarnhaol rhwng ymatebwyr a allai siarad Cymraeg a oedd wedi siarad Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf â rhywun heblaw aelod o'u teulu, ac oedran; po hynaf oedd yr ymatebydd

a allai siarad Cymraeg, y mwyaf tebygol oeddynt o fod wedi siarad Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf â rhywun heblaw aelod o'u teulu.

Mae siart 1.8 yn dangos y gwahaniaethau yng nghyfrannau'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg a oedd wedi siarad Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf â rhywun heblaw aelod o'u teulu, a lle oedd yr ymatebydd yn byw yng Nghymru.

Siart 1.8: O'r ymatebwyr a allai siarad Cymraeg, iaith eu sgwrs ddiweddaraf yn ôl dosbarthiad trefol/gwledig

Roedd ymatebwyr a allai siarad Cymraeg yn llai tebygol o fod wedi siarad Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf â rhywun heblaw aelod o'u teulu mewn ardal 'drefol' nag unrhyw un o'r ardaloedd eraill. Roedd pedwar o bob pum ymatebydd a allai siarad Cymraeg a oedd yn byw mewn ardal 'drefol' wedi siarad Saesneg yn eu sgwrs ddiweddaraf â rhywun heblaw aelod o'u teulu.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr a allai siarad Cymraeg ac a oedd yn byw naill ai mewn 'pentref' neu 'bentrefan neu anheddau ynysig' wedi siarad Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf â rhywun heblaw aelod o'u teulu.

Cwestiynau am yr iaith Gymraeg

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd yn arolwg Byw yng Nghymru ynglŷn â'r iaith Gymraeg:

- *Allwch chi ddweud wrtha i a yw'r bobl ar eich aelwyd [tair oed neu drosodd] yn gallu siarad Cymraeg?*
- *Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu yn y Gymraeg?*

  [] Rwy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl
  [] Gallaf siarad Cymraeg yn eithaf da
  [] Dim ond ychydig o Gymraeg allaf i ei siarad
  [] Dim ond ychydig eiriau o Gymraeg sydd gen i

- *A ydych chi'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, yn wythnosol, yn llai aml, byth?*
- *Os meddyliwch chi am y sgwrs ddiweddaraf a gawsoch â rhywun nad yw'n perthyn i'ch teulu, pa iaith siaradoch chi?*

  [] Cymraeg
  [] Saesneg
  [] Arall
  [] Ddim yn gwybod/ddim yn cofio

Pennod 2 – Anabledd a salwch hirdymor cyfyngus

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dadansoddi data Byw yng Nghymru 2008 ar anabledd a salwch hirdymor cyfyngus.

Mae'r arolwg yn casglu data ar sawl gwahanol agwedd ar salwch hirdymor, anabledd a llesgedd. Mae'n gofyn a yw anableddau pobl yn cyfyngu ar eu gweithgareddau pob dydd mewn unrhyw ffordd. Mae'n gofyn am natur unrhyw anabledd sydd gan unigolyn ac a yw wedi'i gofrestru fel person anabl neu berson â nam ar ei olwg gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hefyd yn holi pobl am addasiadau a wnaed i'w cartref, ac/neu addasiadau sydd eu hangen, yn sgil eu hanabledd.

Gellir gweld y cwestiynau am anabledd a salwch hirdymor cyfyngus yn yr arolwg Byw yng Nghymru ar ddiwedd y bennod hon.

Mae'r cwestiynau hyn wedi bod yn rhan o'r arolwg Byw yng Nghymru ers 2004, felly bydd modd edrych ar dueddiadau rhwng 2004 a 2008. Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau o arolwg 2008, ond bydd yn rhoi sylwadau ar y blynyddoedd cynt os ydynt o ddiddordeb.

Ffynonellau data eraill am anabledd

Mae arolygon cenedlaethol eraill hefyd yn casglu gwybodaeth am anabledd. Dyma brif ffynonellau ystadegau anabledd yng Nghymru:

- Y Cyfrifiad
- Arolwg o'r Llafurlu
- Arolwg Iechyd Cymru
- Arolwg Adnoddau Teuluol
- Sgiliau Dyfodol Cymru

Mae cwestiynau a diffiniadau o anabledd y rhain ychydig yn wahanol felly mae'n bosibl y bydd y canlyniadau ychydig yn wahanol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi paratoi Bwletin Ystadegol, 'Ffynonellau Data am Anabledd' (Saesneg yn unig) [1], sy'n trafod ac yn cymharu'r prif ffynonellau data am anabledd. Mae'n rhoi gwybodaeth am fethodoleg, cynnwys ac amlder yr arolygon, i ba raddau maent ar gael, y diwygiadau iddynt a'u cyfyngiadau.

Mae adroddiad 'Arolwg Iechyd Cymru 2008'[1], a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn rhoi gwybodaeth fanwl am salwch hirdymor cyfyngus ac iechyd yn gyffredinol. Arolwg Iechyd Cymru yw ffynhonnell amcangyfrifon cyffredinol o ffigurau salwch hirdymor cyfyngus yng Nghymru fel arfer; mae'r arolwg Byw yng Nghymru yn ategu'r Arolwg Iechyd trwy draws-ddosbarthu salwch hirdymor cyfyngus gyda thai a newidynnau eraill.

Salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor

Mae'r arolwg Byw yng Nghymru yn holi pobl a oes gan unrhyw un yn eu cartref salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor sydd wedi achosi trafferth i'r unigolyn dros gyfnod o amser neu sy'n debygol o effeithio arnynt dros gyfnod o amser.

Yn 2008, roedd gan 20 y cant o boblogaeth Cymru salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor. Mae siart 2.1 yn dangos, yn ôl y disgwyl, bod canran y bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor yn cynyddu gydag oedran. Dim ond 5 y cant o blant 0-15 oed oedd ag anabledd, o gymharu â 44 y cant o bobl 60 oed a throsodd.

Mae siart 2.1 yn dangos cydberthyniad cadarnhaol rhwng oedran a salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor. Gwelwyd yr un patrwm o 2004 i 2008. Rhaid bod yn ofalus felly wrth ddadansoddi lefelau anabledd yn ôl categorïau eraill sydd hefyd â pherthynas gref gydag oedran.

[1] Gellir gweld y cyhoeddiad hwn ar-lein trwy ddilyn y dolenni o wefan Ysatdegau ar gyfer Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru: www.cymru.gov.uk/ystadegau

Siart 2.1: Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor yn ôl oedran

Nid yw pobl nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor wedi'u cynnwys yn y siart.

A yw'r salwch neu'r anabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau?

Ar gyfer yr holl aelwydydd hynny sy'n cynnwys pobl ag anabledd, gofynnwyd i'r ymatebwr nodi a oedd yr anabledd yn cyfyngu ar weithgareddau'r bobl hynny mewn unrhyw ffordd.

O'r rheini oedd â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, roedd yn 'cyfyngu' ar weithgareddau 83 y cant ohonynt mewn rhyw ffordd. Roedd hyn yn cyfateb i 17 y cant o'r holl bobl yng Nghymru sydd â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor 'cyfyngus'. Roedd hyn wedi cynyddu ychydig o 15 y cant yn 2004. Mae siart 2.2 yn dangos y gwahaniaeth rhwng y rheini sydd â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor 'cyfyngus' a'r rheini nad oedd eu gweithgareddau bob dydd yn cael eu cyfyngu mewn unrhyw ffordd.

Mae siart 2.3 yn dangos y gwahaniaeth rhwng y rheini oedd â salwch cyfyngus a salwch nad oedd yn cyfyngu arnynt yn ôl oedran.

Siart 2.2: Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor yn ôl a yw'n cyfyngu arnynt ai peidio ac yn ôl blwyddyn

Nid yw pobl nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor wedi'u cynnwys yn y siart.

Siart 2.3: Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor yn ôl a yw'n cyfyngu arnynt ai peidio ac oedran

Nid yw pobl nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor wedi'u cynnwys yn y siart.

Mae'r diffiniad hwn o anabledd 'cyfyngus' yn debycach i'r un yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA)[2] ac felly bydd ein dadansoddiad yn canolbwyntio ar bobl sydd â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor 'cyfyngus' er mwyn gallu cymharu'n well ag arolygon eraill. Roedd canran y bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor 'cyfyngus' yn cynyddu gydag oedran – 4 y cant o bobl dan 30 oedd ag anabledd cyfyngus o gymharu â 37 y cant o bobl 60 oed a hŷn.

Nid oedd prin unrhyw wahaniaeth rhwng canran y dynion a menywod oedd â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus mewn unrhyw grŵp oedran. Roedd gan 16 y cant o ddynion salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus o gymharu â 17 y cant o fenywod.

Mae siart 2.4 isod yn dangos bod pobl mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus na pherchen-feddianwyr a phobl oedd yn rhentu'n breifat ym mhob grŵp oedran.

Siart 2.4: Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus yn ôl deiliadaeth ac oedran

Nid yw pobl nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor wedi'u cynnwys yn y siart.

[2] Mae'r Ddeddf yn diffinio unigolyn anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.

Roedd gan ganran uwch o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus, 28 y cant o gymharu â 15 y cant o bobl sy'n berchen ar eu cartref a 12 y cant sy'n rhentu'n breifat. Roedd pobl iau yn fwy tebygol o rentu'n breifat na phobl hŷn, felly mae'n bwysig edrych ar y gwahaniaethau rhwng gwahanol fathau o ddeiliadaeth yn ôl oedran. Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r siart hwn i ddod i gasgliadau gan fod rhai pobl mae'n debyg yn byw mewn tai cymdeithasol oherwydd eu salwch neu anabledd.

Dengys siart 2.5 bod gan ganran uwch o bobl sy'n byw mewn 'aelwydydd heb waith' salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus o gymharu â phobl sy'n byw mewn 'aelwydydd sy'n gweithio'.

Siart 2.5: Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus yn ôl oedran ac a yw eu haelwyd yn gweithio ai peidio

Nid yw pobl nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor wedi'u cynnwys yn y siart.

Nid yw aelwydydd nad oeddent o oedran gweithio ac aelwydydd lle nad oedd statws gwaith y bobl o oedran gweithio yn hysbys wedi'u cynnwys yn siart 2.5 uchod. Roedd gan 31 y cant o bobl o 'aelwydydd heb waith' salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus, o gymharu â 13 y cant o bobl o aelwydydd sy'n cynnwys pobl sy'n gweithio a phobl heb waith, a 5 y cant o bobl sy'n byw mewn 'aelwydydd sy'n gweithio'. Ceir

diffiniad o aelwyd 'heb waith' ac aelwyd 'sy'n gweithio' yn y 'termau a diffiniadau'.

Unwaith eto, rhaid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau am y cydberthyniad rhwng 'aelwydydd heb waith' a phobl sydd â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus oherwydd efallai fod y bobl ag anabledd yn ei chael hi'n anodd neu'n amhosibl gweithio. Mae'n bosibl bod angen gofal ar blant 0 i 15 oed, sy'n golygu y byddai'r aelwyd yn un 'heb waith'.

Mae perthynas hefyd rhwng incwm aelwyd ac anabledd. Roedd gan 32 y cant o bobl sy'n byw mewn aelwydydd sy'n ennill llai na £10,399 salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus o gymharu â dim ond 5 y cant o bobl sy'n byw mewn aelwydydd sy'n ennill £40,000 neu fwy. Mae siart 2.6 yn dangos bod y berthynas hon yn arbennig o amlwg ymysg pobl 30 i 59 oed – mae gan 46 y cant o bobl yn y grŵp oedran hwn salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus os yw incwm eu haelwyd yn llai na £10,399, o gymharu â dim ond 6 y cant os yw incwm yr aelwyd yn £40,000 y flwyddyn neu fwy.

Siart 2.6: Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus yn ôl oedran ac incwm aelwyd

Nid yw pobl nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor a phobl a wrthododd roi neu nad oeddent yn gwybd eu hincwm wedi'u cynnwys yn y siart.

Er gwaetha'r ffaith bod cyfran ychydig yn uwch o bobl iau yn byw mewn ardaloedd trefol o gymharu ag ardaloedd gwledig, roedd pobl mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o fod â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus na phobl oedd yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig. Roedd gan 18 y cant o bobl sy'n byw mewn ardal 'trefol' salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus o gymharu â 11 y cant o bobl sy'n byw mewn 'pentrefan ac anheddau ynysig'.

Siart 2.7: Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus yn ôl dosbarthiadau trefol neu wledig

Nid yw pobl nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor wedi'u cynnwys yn y siart.

Roedd y gwahaniaeth yn fwy amlwg ymhlith pobl 60 oed neu'n hŷn. Roedd gan 40 y cant o bobl 60 oed neu hŷn a oedd yn byw mewn ardal 'drefol' salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngus, o gymharu â dim ond 20 y cant o bobl 60 oed neu hŷn a oedd yn byw mewn 'pentrefan ac anheddau ynysig'.

Mathau o anabledd

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd fod gan rywun yn eu haelwyd salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor (boed yn gyfyngus ai peidio) i ddisgrifio'r math o anabledd neu nam oedd ganddyn nhw (neu rywun arall yn eu haelwyd). Dangoswyd cerdyn iddynt a oedd yn rhestru'r anableddau canlynol:

- Nam ar y golwg
- Anabledd clyw
- Anhawster dysgu
- Anabledd symud
- Anabledd anadlu
- Anabledd niwrolegol
- Anabledd iechyd meddwl
- Anabledd cardiofasgwlaidd

Mae siart 2.8 isod yn dangos yr ymatebion.

Siart 2.8: Natur anabledd y rheini â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor

Nid yw pobl nad oeddent yn gwybod natur eu hanabledd wedi'u cynnwys yn y siart.

Nid yw'r canrannau yn yr adran hon yn rhoi cyfanswm o 100 oherwydd roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un math o anabledd i ddisgrifio natur eu hanabledd yn ogystal ag 'arall' a 'ddim yn gwybod'.

Roedd y math o anabledd neu nam mwyaf cyffredin yn ymwneud â 'symud', gyda 55 y cant o'r rheini ag anabledd neu nam yn dweud ei fod yn ymwneud â 'symud' (h.y. 11 y cant o boblogaeth Cymru yn dweud bod ganddynt anabledd sy'n ymwneud â 'symud'). Anabledd 'anadlu' oedd yr ail fath mwyaf cyffredin – 22 y cant (4 y cant o bobl) ac yna 'cardiofasgwlaidd' – 19 y cant (4 y cant o bobl hefyd).

Nid yw'r cyfrannau o bobl sy'n dioddef o wahanol fathau o anableddau wedi newid ers 2004.

Yn ôl y disgwyl, rodd gan y rhan fwyaf o fathau o anabledd gydberthyniad cadarnhaol ag oedran. Dengys siart 2.9 fod anableddau 'symud', 'cardiofasgwlaidd', 'nam ar y golwg', 'clyw' a 'niwrolegol' yn fwy tebygol o effeithio ar bobl wrth iddynt fynd yn hŷn.

Siart 2.9: Natur anabledd y rheini â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor

Dim ond anableddau oedd â chydberthyniad cadarnhaol ag oedran sydd wedi'u cynnwys yn y siart

Ar y llaw arall, nid yw'r berthynas rhwng oedran ac anawsterau 'dysgu', anableddau 'anadlu' ac anableddau 'iechyd meddwl' mor glir.

Roedd llai na 0.5 y cant o bobl 30 oed a throsodd yn dioddef anabledd dysgu ond roedd y ffigur yn 1.3 y cant ymysg pobl dan 30 oed. Roedd anableddau 'iechyd meddwl' yn fwy cyffredin ymysg pobl ganol oed na phobl yn y grwpiau hŷn neu iau. Roedd gan 4 y cant o bobl 46-59 oed anabledd 'iechyd meddwl' o gymharu â dim ond 2 y cant o bobl y tu allan i'r grŵp oedran hwn. Roedd nifer y bobl sy'n dioddef o anableddau 'anadlu' yn cynyddu gydag oedran ar ôl 30 oed, ond roedd pobl 15 oed ac iau yn fwy tebygol o fod ag anabledd 'anadlu' na phobl 16 i 29 oed (1.9 y cant o gymharu ag 1.6 y cant).

Cofrestru fel person anabl

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd fod gan rywun yn eu haelwyd salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor (boed yn gyfyngus ai peidio) a oedd y person hwnnw wedi cofrestru fel person anabl neu berson â nam ar ei olwg gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

O'r bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, roedd 44 y cant wedi cofrestru eu hunain fel person anabl neu berson â nam ar ei olwg gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd pobl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod wedi'u cofrestru na phobl eraill. Roedd 51 y cant o bobl anabl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol wedi'u cofrestru o gymharu â 42 y cant o berchen-feddianwyr a 38 y cant a oedd yn rhentu'n breifat.

Roedd y cyfrannau o bobl anabl a oedd wedi cofrestru gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn amrywio yn ôl eu statws gwaith. Mae siart 2.10 isod yn dangos hyn.

Siart 2.10: O'r bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, a ydynt wedi cofrestru gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ôl eu statws gwaith

Nid yw pobl nad oeddent yn gwybod neu a wrthododd roi eu statws gwaith neu a roddodd statws gwaith 'arall' wedi'u cynnwys yn y siart.

Roedd nifer y bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor a roddodd 'Cynllun Hyfforddi'r Llywodraeth', 'heb gofrestru'n ddi-waith, ond yn chwilio am waith', 'wedi cofrestru'n ddi-waith' a 'myfyriwr llawn amser' yn rhy fach i fod yn ddibynadwy'n ystadegol. Am y rheswm hwn, nid ydynt wedi'u cynnwys yn siart 2.10.

Fel y gellir gweld yn siart 2.10, roedd 15 y cant o bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor ac yn 'gweithio'n llawn amser' wedi cofrestru fel person anabl neu berson â nam ar ei olwg gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol o gymharu â 59 y cant o'r rheini a ddisgrifiwyd fel 'pobl â salwch neu anabledd hirdymor'.

Roedd y math o anabledd hefyd yn effeithio ar a oedd pobl yn cofrestru gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae siart 2.11 yn dangos bod 73 y cant o bobl ag anhawster 'dysgu' wedi cofrestru gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol o gymharu â 44 y cant o bobl ag anabledd 'iechyd meddwl'.

Siart 2.11: O'r bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, a ydynt wedi cofrestru gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ôl natur eu hanabledd

Nid yw pobl nad oeddent yn gwybod natur eu hanabledd wedi'u cynnwys yn y siart.

Addasiadau tai sydd wedi'u gwneud ac sydd eu hangen

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd fod gan rywun yn eu haelwyd salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor (boed yn un cyfyngus ai peidio) a oedd addasiadau ffisegol 'wedi' eu gwneud i'w cartref ac a oedd 'angen' addasiadau o'r fath er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn ag anabledd, neu a oeddent heb gael yr addasiadau yr oeddent eu hangen.

Roedd bron hanner (48 y cant) yr aelwydydd a oedd ag o leiaf un unigolyn â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor angen o leiaf un addasiad ac roedd 31 y cant angen o leiaf ddau addasiad.

Mae tabl 2.1 yn dangos y gyfran o aelwydydd gyda rhywun â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor a oedd angen cael ac wedi cael addasiadau i'w cartrefi.

Tabl 2.1: O'r aelwydydd â phobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor: Y gyfran sydd angen cael ac wedi cael addasiadau amrywiol i'w cartrefi

	Aelwydydd sy'n cynnwys pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor		
Addasiad sydd ei angen:	**Canran sydd angen yr addasiad**	**Canran sydd heb gael addasiad sydd ei angen**	**Nifer yr aelwydydd sydd heb gael addasiad y maent ei angen**
Symud			
Canllaw fach/teclyn codi	29.1%	4.1%	20,500
Lifft grisiau	8.9%	3.6%	18,100
Ramp	5.0%	1.5%	7,300
Newidiadau i hwyluso mynediad/trothwyon gwastad	4.8%	2.0%	10,100
Bath/cawod/toiled			
Cawod yn lle bath	11.3%	3.7%	18,400
Cawod uwchben y bath	5.6%	1.3%	6,600
Ystafell ymolchi newydd	4.2%	1.5%	7,600
Ailgynllunio ystafell ymolchi	4.3%	2.1%	10,400
Symud y bath/toiled	4.5%	1.9%	9,300
Toiled ar yr un llawr â'r ystafell fyw	9.0%	2.5%	12,700
Newid arall i'r ystafell ymolchi	12.3%	4.1%	20,600
Gwres			
Gwres ychwanegol	1.8%	1.1%	5,500
Diogelwch			
Addasu cloch y drws/ffôn neu ffônau mynediad	6.3%	1.9%	9,700
Larwm unigol/Newid i'r system larwm	5.4%	1.4%	7,000
Ceginau			
Newid i'r gegin	2.9%	1.4%	6,700
Newidiadau eraill			
Newidiadau eraill	5.8%	2.1%	10,500
Pob addasiad	**48.3%**	**22.0%**	**109,571**

Cyfanswm wedi'i bwysoli: 499,100 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Nid yw'r canrannau'n rhoi cyfanswm o 100 oherwydd roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un addasiad.

Canllaw fach neu declyn codi oedd yr addasiad oedd ei angen fwyaf ar yr aelwydydd hynny. Roedd ei angen ar 29 y cant o aelwydydd a oedd yn cynnwys rhywun â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor. Yr angen nesaf oedd cawod yn lle bath (11 y cant).

Roedd 86 y cant o'r aelwydydd a oedd angen canllaw fach neu declyn codi a 76 y cant o'r aelwydydd a oedd angen cawod uwchben y bath eisoes wedi cael yr addasiad. Fodd bynnag, dim ond 40 y cant o'r aelwydydd a oedd angen mwy o wres a oedd wedi ei gael.

O'r holl aelwydydd sy'n cynnwys rhywun â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, roedd 22 y cant heb gael yr addasiadau yr oeddent eu hangen tra bod 26 y cant wedi cael yr addasiadau yr oeddent eu hangen.

Mae'r siart isod yn dangos bod yr angen am addasiadau yn amrywio yn ôl deiliadaeth. Roedd canran mwy o aelwydydd mewn tai cymdeithasol angen addasiad o ganlyniad i anabledd ac roedd mwy ohonynt heb gael yr addasiad roeddent ei angen.

Siart 2.12: O'r aelwydydd hynny a oedd yn cynnwys rhywun â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor, a ydynt wedi cael yr addasiadau y maent eu hangen yn ôl deiliadaeth

Roedd 57 y cant o aelwydydd mewn tai cymdeithasol a oedd yn cynnwys rhywun â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor angen addasiad o gymharu â 47 y cant o berchen-feddianwyr a 34 y cant a oedd yn rhentu'n breifat. Er bod angen llai o aelwydydd a oedd yn rhentu'n breifat angen unrhyw addasiadau, dim ond 39 y cant o'r rhai oedd angen addasiadau a oedd wedi'u cael, o gymharu â 48 y cant o aelwydydd mewn tai cymdeithasol a 59 y cant o aelwydydd sy'n berchen-feddianwyr.

Roedd y math o anabledd wedi effeithio ar a oedd angen unrhyw addasiadau i'w cartrefi. Fel y mae siart 2.13 yn ei ddangos, roedd 65 y cant o bobl ag anawsterau 'clyw' angen addasiad i'w cartref, o gymharu â dim ond 40 y cant o bobl ag anabledd 'iechyd meddwl'.

Siart 2.13: Canran y bobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor a oedd angen addasiad yn ôl natur eu hanabledd

Nid yw pobl nad oeddent yn gwybod natur eu hanabledd wedi'u cynnwys yn y siart.

Cwestiynau anabledd a salwch hirdymor cyfyngus

Dyma'r cwestiynau am anabledd a salwch hirdymor a ofynnwyd yn yr arolwg Byw yng Nghymru:

- *Oes gennych chi neu unrhyw un yn eich aelwyd salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor? Salwch hirdymor yw unrhyw beth sydd wedi peri anhawster i chi neu iddyn nhw dros gyfnod o amser neu sy'n debygol o effeithio arnoch chi neu nhw dros gyfnod o amser?*

- *A yw'r salwch neu anabledd hwn yn cyfyngu ar eich gweithgareddau bob dydd chi/nhw mewn unrhyw ffordd?*

- *Pa fath o anabledd neu nam ydyw?*
  - *[ ] Golwg*
  - *[ ] Clyw*
  - *[ ] Anhawster dysgu*
  - *[ ] Symud*
  - *[ ] Anadlu (e.e. asthma, emffysema)*
  - *[ ] Niwrolegol; (e.e. epilepsi, clefyd Alzheimer, strôc)*
  - *[ ] Iechyd meddwl (e.e. iselder, gorbryder, sgitsoffrenia)*
  - *[ ] Cardiofasgwlaidd (e.e. problemau gyda'r galon)*
  - *[ ] Arall*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

- *Ydych chi/nhw wedi cofrestru fel person anabl neu berson â nam ar ei olwg gyda'r cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol?*

- *Pa rai, os o gwbl, o'r addasiadau ar y cerdyn hwn sydd WEDI eu gwneud i'ch cartref?*
  - *[ ] Ramp*
  - *[ ] Canllaw fach*
  - *[ ] Addasiadau i wella mynediad – drysau/fframiau*
  - *[ ] Addasiadau trydanol*
  - *[ ] Mwy o wres*
  - *[ ] Ffônau y tu allan i'r drws*
  - *[ ] System larwm unigol*
  - *[ ] Teclyn codi*
  - *[ ] Lifft grisiau*
  - *[ ] Cawod â llawr graddedig*
  - *[ ] Bath isel*
  - *[ ] Cawod uwchben y bath*
  - *[ ] Cawod yn lle bath*
  - *[ ] Ystafell ymolchi newydd*
  - *[ ] Ailgynllunio ystafell ymolchi*
  - *[ ] Ailgynllunio cegin*
  - *[ ] Symud y bath neu'r gawod*
  - *[ ] Symud y toiled*
  - *[ ] Newid arall i'r ystafell ymolchi/toiled*
  - *[ ] Newid arall i'r gegin*
  - *[ ] Estyniad i ddiwallu anghenion person anabl*
  - *[ ] Toiled ar yr un llawr â'r ystafell fyw*
  - *[ ] Trothwyon gwastad*
  - *[ ] Newid y system larwm*
  - *[ ] Addasu cloch y drws neu'r ffôn (gan gynnwys gosod system ddolen)*
  - *[ ] Arall (nodwch)*
  - *[ ] Dim angen/wedi'i ddarparu*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

- *A pha rai, os o gwbl, o'r addasiadau hyn sydd eu HANGEN arnoch chi/nhw o ganlyniad i'ch anabledd chi/nhw?*

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dadansoddi data addysg Byw yng Nghymru 2008.

Mae'r arolwg yn casglu data am y cymhwyster uchaf sydd gan ymatebwyr, ac yn gweld i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau am werth cymwysterau.

Gan mai dyma'r tro cyntaf y gofynnwyd y cwestiynau hyn yn Arolwg Byw yng Nghymru 2008, ni ellir cymharu'r canlyniadau ag unrhyw dueddiadau blaenorol.

Mae union eiriad y cwestiynau a ofynnwyd yn yr adran addysg yn arolwg Byw yng Nghymru i'w weld ar ddiwedd y bennod.

Ffynonellau data addysg eraill

Mae arolygon cenedlaethol eraill hefyd yn casglu gwybodaeth am gymwysterau uchaf. Yr arolygon canlynol yw prif ffynhonnell ystadegau yng Nghymru:

- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[1]
- Y Cyfrifiad[2]
- Arolwg Iechyd Cymru[1].

Lefel y cymwysterau uchaf

Yn ystod yr arolwg, dangoswyd rhestr o gymwysterau i ymatebwyr, o lefel y cymwysterau uchaf i'r lefel isaf, a gofynnwyd iddynt edrych ar y rhestr a nodi lefel y cymhwyster uchaf y maent wedi'i basio.

Er mwyn bod yn gydnaws â'r dull o ledaenu data cymwysterau a gasglwyd o arolygon eraill, rydym wedi grwpio'r cymwysterau yn ôl lefelau'r Fframwaith Cymhwyster Cenedlaethol (FfCC). Gweler y 'termau a diffiniadau' am restr y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys o dan bob lefel y FfCC.

Mae Siart 3.1 yn dangos bod ychydig o dan draean yr ymatebwyr wedi ateb 'dim un o'r rhain' ar gyfer y cymwysterau a restrir (neu gymhwyster 'arall'). Gan mai dim ond 1 y cant o'r ymatebwyr ddywedodd bod ganddynt gymhwyster 'arall', gallwn ragdybio bod gan rai o'r ymatebwyr a atebodd 'dim un o'r rhain' gymwysterau eraill nad oedd ar y rhestr. Yn aml, mae ymatebwyr yn cael trafferth cofio pa gymwysterau sydd ganddynt, yn enwedig os nad ydynt yn gymwysterau diweddar.

At ddibenion y bennod hon, rydym wedi cynnwys cymhwyster 'arall' o dan 'dim un o'r rhain'.

Siart 3.1: Lefel y cymwysterau uchaf sydd gan ymatebwyr

Mae'r ymatebwyr oedd naill ai ddim yn gwybod a oedd ganddynt unrhyw un o'r cymwysterau hyn neu a wrthododd roi ateb wedi'u heithrio o'r siart.

Roedd gan 28 y cant o'r ymatebwyr gymhwyster sy'n cyfateb i lefelau 4–8 y FfCC, sy'n cynnwys cymwysterau fel graddau cyntaf a graddau uwch. Roedd gan draean arall o'r ymatebwyr gymhwyster sy'n cyfateb i lefelau 2–3 y FfCC, sy'n cynnwys cymwysterau fel Safon Uwch a TGAU graddau A*-C.

[1] Paratowyd gan Lywodraeth y Cynulliad: www.cymru.gov.uk/ystadegau
[2] Paratowyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol: www.ons.gov.uk/census/index.html

Mae Siart 3.2 yn dangos bod cydberthyniad cadarnhaol rhwng oedran yr ymatebwyr a'r ymatebwyr heb unrhyw un o'r cymwysterau a restrwyd. Mae angen bod yn ofalus, felly, wrth ddadansoddi'r rhai heb unrhyw un o'r cymwysterau hyn yn ôl categorïau eraill sydd hefyd â pherthynas agos ag oedran.

Yn 2008, roedd ymatebwyr 70 oed a throsodd dros chwe gwaith yn fwy tebygol o fod heb unrhyw un o'r cymwysterau a restrwyd, o gymharu ag ymatebwyr 16 – 29 oed. Nid yw hyn yn fawr o syndod; mae llawer mwy o gyfleoedd addysg bellach ar gael i bobl ifanc heddiw o gymharu â 50 mlynedd yn ôl.

Siart 3.2: Ymatebwyr heb unrhyw un o'r cymwysterau a restrwyd yn ôl oedran

Mae Siart 3.3 yn dangos lefel uchaf y cymwysterau sydd gan ymatebwyr a oedd naill ai'n berchen ar eu cartref eu hunain, neu'n byw mewn tai cymdeithasol (naill ai'n rhentu gan awdurdod lleol neu gymdeithas tai).

Roedd ymatebwyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol bron i ddwywaith yn fwy tebygol o fod heb yr un o'r cymwysterau a restrwyd o gymharu ag ymatebwyr sy'n berchen ar eu cartref eu hunain. Roedd ymatebwyr sy'n berchen ar eu cartref hefyd yn fwy tebygol o gael lefel cymhwyster uwch nag ymatebwyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Roedd gan bron i draean yr ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain gymhwyster uchaf sy'n cyfateb i lefelau 4-8 y FfCC, o gymharu â dim ond 8 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol.

Roedd gan ddwywaith cymaint o ymatebwyr a oedd yn byw mewn tai cymdeithas gymhwyster uchaf sy'n cyfateb i gymwysterau islaw lefel 2 y FfCC, o gymharu â'r ymatebwyr hynny sy'n berchen ar eu cartref eu hunain ac roedd lefel eu cymhwyster uchaf yr un fath. (Mae cymwysterau is na lefel 2 y FfCC yn cynnwys TGAU graddau D–G ac NVQ lefel 1.)

Siart 3.3: Lefel y cymwysterau uchaf sydd gan ymatebwyr yn ôl deiliadaeth yr ymatebwyr

Mae'r ymatebwyr oedd naill ai ddim yn gwybod a oedd ganddynt unrhyw un o'r cymwysterau hyn neu a wrthododd ateb wedi'u heithrio o'r siart.

Mae Siart 3.4 yn ymchwilio i'r berthynas rhwng lefel y cymwysterau uchaf sydd gan ymatebwyr a dosbarth dadansoddol Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yr ymatebydd (gweler y 'termau a diffiniadau' am ddiffiniad o NS-SEC). Fel y soniwyd eisoes, mae dosbarth dadansoddol NS-SEC ymatebwr yn dynodi hierarchaeth a dosbarth cymdeithasol i ryw raddau, ond nid yw'n

adlewyrchu'r ffaith fod ffactorau yn annibynnol ar ei gilydd o safbwynt bandiau incwm neu feini prawf eraill.

Er hynny, mae'n ymddangos bod cydberthyniad cadarnhaol rhwng y ddau newidyn; po uchaf yw dosbarth dadansoddol NS-SEC yr ymatebydd, ucha'n y byd yw lefel y cymwysterau sydd ganddo. Mae'r siart yn dangos lefel y cymwysterau uchaf sydd gan ymatebwyr a oedd yn gweithio yn y dosbarth dadansoddol NS-SEC isaf, 'swyddi cyffredin', a'r dosbarth dadansoddol NS-SEC uchaf, 'swyddi rheolwyr a phroffesiynol uwch'.

Nid oedd gan 58 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn 'swyddi cyffredin' unrhyw un o'r cymwysterau a restrwyd, o gymharu â dim ond 9 y cant o ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn 'swyddi rheolwyr a phroffesiynol uwch'.

Yn ôl y disgwyl, roedd gan dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn 'swyddi rheolwyr a phroffesiynol uwch' y lefel cymwysterau uchaf sy'n cyfateb i lefelau 4–8 y FfCC, o gymharu â dim ond 5 y cant o'r ymatebwyr a oedd mewn 'swyddi cyffredin'.

Siart 3.4: Lefel y cymwysterau uchaf sydd gan ymatebwyr yn ôl eu dosbarth dadansoddol NS-SEC

Mae'r ymatebwyr oedd naill ai ddim yn gwybod a oedd ganddynt unrhyw un o'r cymwysterau hyn neu a wrthododd ateb wedi'u heithrio o'r siart

Barn am werth cymwysterau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roeddynt yn cytuno neu'n anghytuno gyda phedwar datganiad am werth cymwysterau.

O ran y siartiau a'r dadansoddiadau yn yr adran hon, mae 'cytuno' yn cynnwys y rhai a atebodd 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno', tra bod 'anghytuno' yn cynnwys y rhai a atebodd 'anghytuno'n gryf' a 'tueddu i anghytuno'. Hefyd, mae'r ymatebwyr heb unrhyw farn wedi'u heithrio o'r dadansoddiad.

Yn gyffredinol, fe wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr roi ateb cadarnhaol i'r tri datganiad cyntaf am werth cymwysterau wrth wella rhagolygon pobl at y dyfodol, ac ychydig iawn o amrywiaeth oedd ymhlith y grwpiau ymatebwyr. Er hynny, dim ond traean o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno gyda'r pedwerydd datganiad, sef bod dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd.

Allwch chi wneud unrhyw beth heb gymwysterau y dyddiau hyn?

Roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn am farn ymatebwyr ar y datganiad 'allwch chi ddim gwneud unrhyw beth heb gymwysterau y dyddiau hyn'. Fel y gwelir yn siart 3.5, roedd wyth o bob deg o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno â hyn.

Siart 3.5: Agwedd yr ymatebwyr i'r datganiad 'allwch chi ddim gwneud unrhyw beth heb gymwysterau y dyddiau hyn', yn ôl lefel cytuno

Mae'r ymatebwyr na wnaethant fynegi barn am y datganiad wedi'u heithrio o'r siart.

Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r ymatebwyr iau; roedd 85 y cant o'r ymatebwyr 70 oed a throsodd yn 'cytuno' 'allwch chi ddim gwneud unrhyw beth heb gymwysterau y dyddiau hyn', a dim ond 70 y cant o ymatebwyr rhwng 16 a 29 oed yn 'cytuno' â hyn.

Roedd rhywfaint o wahaniaeth barn rhwng ymatebwyr a oedd yn byw mewn aelwydydd 'sy'n gweithio' neu aelwydydd 'di-waith'; gyda 77 o ymatebwyr o 'aelwyd sy'n gweithio' yn 'cytuno' gyda'r datganiad, o gymharu ag 82 y cant o ymatebwyr o 'aelwyd ddi-waith' (gweler 'y termau a diffiniadau' am ddiffiniad o aelwydydd 'sy'n gweithio' a 'di-waith').

Ni welwyd gwahaniaethau amlwg wrth ddadansoddi cyfran yr ymatebwyr a oedd yn 'cytuno' neu'n 'anghytuno' â'r datganiad hwn yn ôl dosbarth dadansoddol Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC). Roedd yr ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn 'swyddi rheolwyr a phroffesiynol uwch' yr un mor debyg o 'gytuno' gyda'r datganiad hwn â'r ymatebwyr mewn 'swyddi cyffredin'.

Yn yr un modd, nid oedd gwahaniaethau rhwng cyfran yr ymatebwyr a oedd yn 'cytuno' neu'n 'anghytuno' gyda'r datganiad yn ôl lefel eu cymhwyster uchaf: roedd ymatebwyr heb unrhyw un o'r cymwysterau a nodwyd yr un mor debygol â'r rhai â chymwysterau gradd i gytuno â'r datganiad hwn.

Ydych chi'n fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg?

Mae siart 3.6 yn dangos bod bron yr holl ymatebwyr (94 y cant) a fynegodd farn, yn 'cytuno' gyda'r ail ddatganiad 'rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg'.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn llai tebygol o 'gytuno' gyda'r datganiad hwn (89 y cant) na'r ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain (95 y cant) neu'n rhentu gan landlord preifat (94 y cant).

Roedd modd dadansoddi'r ymatebion i'r datganiad hwn yn ôl incwm gros blynyddol yr ymatebydd. Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn 'cytuno' eich bod 'yn fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg' yn cynyddu ychydig wrth i'w hincwm gros blynyddol gynyddu.

Roedd 92 y cant o'r ymatebwyr â llai na £5,200 o incwm y flwyddyn yn 'cytuno' gyda'r datganiad, tra roedd bron pawb o'r ymatebwyr â thros £38,000 o incwm y flwyddyn yn 'cytuno' gyda'r datganiad.

Siart 3.6: Agwedd yr ymatebwyr at y datganiad 'rydych yn fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg' yn ôl lefel y cytundeb.

Mae'r ymatebwyr na wnaethant fynegi am y datganiad wedi'u heithrio o'r siart.

Yn yr un modd, ac yn pwysleisio'r cydberthynas rhwng incwm yr ymatebwyr a'u dosbarth dadansoddol NS-SEC, roedd ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn dosbarthiadau dadansoddol NS-SEC uwch yn fwy tebygol o 'gytuno' gyda'r datganiad hwn na'r ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn dosbarthiadau dadansoddol is.

Roedd 97 y cant o'r ymatebwyr a oedd mewn 'swyddi rheolwyr a phroffesiynol uwch' yn 'cytuno' â'r datganiad 'rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg' o gymharu â 92 y cant o ymatebwyr mewn 'swyddi cyffredin'.

Fel y gellid disgwyl, gwelwyd cydberthyniad cadarnhaol rhwng y rhai a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn a lefel y cymwysterau uchaf a oedd gan yr ymatebydd (gweler siart 3.7).

Roedd 91 y cant o'r ymatebwyr heb unrhyw un o'r cymwysterau a restrwyd yn 'cytuno' gyda'r datganiad hwn; a chynyddodd y gyfran hon i 97 y cant o ymatebwyr oedd â'r lefel cymwysterau uchaf sy'n cyfateb i lefelau 4-8 y FfCC.

Siart 3.7: Ymatebwyr a oedd yn cytuno gyda'r datganiad 'rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg' yn ôl lefel cymwysterau uchaf yr ymatebydd

Mae'r ymatebwyr na wnaethant fynegi barn am y datganiad wedi'u heithrio o'r siart. Mae'r ymatebwyr oedd naill ai ddim yn gwybod a oedd ganddynt unrhyw un o'r cymwysterau hyn neu a wrthododd roi ateb wedi'u heithrio o'r siart.

Ydych chi'n fwy tebygol o gael swydd dda os oes gennych gymhwyster galwedigaethol perthnasol?

Yna, gofynnwyd am ymateb i'r datganiad 'rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd dda os oes gennych gymhwyster galwedigaethol perthnasol'.

Mae siart 3.8 yn dangos bod ychydig o dan naw o bob deg ymatebydd a fynegodd barn (89 y cant) yn 'cytuno' gyda'r datganiad.

Mae hyn ychydig yn is na chyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'cytuno' â'r datganiad hwn.

Siart 3.8: Agwedd yr ymatebwyr at y datganiad 'rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd dda os oes gennych gymhwyster galwedigaethol perthnasol' yn ôl lefel y cytundeb.

Mae'r ymatebwyr na wnaethant fynegi barn am y datganiad wedi'u heithrio o'r siart.

Nid oedd llawer o amrywiaeth yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd yn 'cytuno' gyda'r datganiad hwn wrth ddadansoddi'r ymatebion yn ôl newidynnau cydraddoldeb gwahanol.

Roedd ymatebwyr 16 i 29 oed ychydig yn llai tebygol o 'gytuno' gyda'r datganiad 'rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd dda os oes gennych gymhwyster galwedigaethol perthnasol' (86 y cant) o gymharu â'r holl grwpiau oedran eraill.

Dywedodd tua 90 o'r ymatebwyr eu bod yn 'cytuno' gyda'r datganiad hwn waeth beth oedd lefel y cymwysterau uchaf oedd ganddynt, gan gynnwys ymatebwyr oedd heb unrhyw un o'r cymwysterau a restrwyd

Roedd yr ymatebwyr hynny sy'n rhentu eu cartref gan gymdeithas tai hefyd yn llai tebygol o 'gytuno' gyda'r datganiad (84 y cant) na'r rhai â mathau eraill o ddeiliadaeth.

Ydy dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd?

Roedd y datganiad olaf yn gofyn am farn yr ymatebwyr ar y datganiad bod 'dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd'. Roedd ymatebwyr dros bedair gwaith yn fwy tebygol o 'anghytuno' â'r datganiad hwn nag unrhyw un o'r tri datganiad arall.

Fel y gwelir yn siart 3.9, dim ond traean (32 y cant) yr ymatebwyr a oedd yn 'cytuno' gyda'r datganiad hwn, o gymharu â 58 y cant oedd yn 'anghytuno'.

Siart 3.9: Agwedd yr ymatebwyr at y datganiad 'mae dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd' yn ôl lefel y cytundeb

Mae'r ymatebwyr na wnaethant fynegi barn am y datganiad wedi'u heithrio o'r siart.

Roedd gwahaniaeth rhwng cyfran yr ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' gyda'r datganiad hwn yn ôl deiliadaeth eu cartref; gyda chyfran yr ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' gyda'r datganiad hwn yn amrywio o 61 y cant o ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain a 56 y cant a oedd yn rhentu eu cartref gan landlord preifat, i ddim ond 48 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn 'tai cymdeithasol'.

Roedd ymatebwyr o 'aelwyd sy'n gweithio' yn fwy tebygol o 'anghytuno' gyda'r datganiad hwn (62 y cant) o gymharu â'r rhai o 'aelwyd ddi-waith' (54 y cant).

Roedd ychydig dros hanner (52 y cant) yr ymatebwyr â salwch hirdymor, anabledd neu nam 'cyfyngus' yn 'anghytuno' gyda'r datganiad hwn o gymharu â 60 y cant o ymatebwyr heb unrhyw anabledd o'r fath.

Mae'n ddiddorol sylwi ar ymateb y rhai a oedd yn astudio'n llawn amser yn ystod yr arolwg hwn. Dywedodd dwy ran o dair (65 y cant) o 'fyfyrwyr llawn amser' eu bod yn 'anghytuno' gyda'r datganiad hwn, a oedd yn uwch o lawer na'r gyfran gyfan o ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' gyda'r datganiad yn gyffredinol (58 y cant). Roedd ymatebwyr sy'n 'gweithio'n llawn amser' neu'n 'rhan-amser' rywfaint yn llai tebygol o 'anghytuno' (62 y cant) gyda'r datganiad o gymharu â 'myfyrwyr llawn amser'.

Roedd cyfran is o'r ymatebwyr sydd ar 'absenoldeb salwch hirdymor' neu wedi'u 'cofrestru'n ddi-waith' yn debygol o 'anghytuno' gyda'r datganiad (47 y cant) na'r gyfran gyfan o ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' gyda'r datganiad yn gyffredinol. Gall hyn awgrymu fod ymatebwyr sydd ar 'absenoldeb salwch hirdymor' neu wedi'u 'cofrestru'n ddi-waith' yn fwy tebygol o chwilio am gwrs dysgu sy'n arwain at gymhwyster, yn hytrach na chwrs nad yw'n arwain at gymhwyster, i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith.

Roedd byd o wahaniaeth rhwng ymateb rhai â dosbarth dadansoddol NS-SEC uwch ac is i'r datganiad hwn (gweler siart 3.10). Dywedodd bron i saith o bob deg o'r ymatebwyr (69 y cant) a oedd mewn 'swyddi rheolwyr a phroffesiynol uwch' eu bod yn 'anghytuno' â'r datganiad hwn o gymharu â dim ond 48 y cant o'r ymatebwyr a oedd mewn 'swyddi cyffredin'.

Siart 3.10: Ymatebwyr a oedd yn anghytuno gyda'r datganiad 'mae dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd' yn ôl dosbarth dadansoddol NS-SEC yr ymatebwyr

Mae'r ymatebwyr na wnaethant fynegi barn am y datganiad, ac na chafodd ddosbarthiad NS-SEC, wedi'u heithrio o'r siart.

Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd 'gwledig' yn 'anghytuno' gyda'r datganiad (65 y cant) o gymharu â'r ymatebwyr o ardaloedd 'trefol' (57 y cant).

Roedd ymatebwyr oedd â lefel cymhwyster uchaf sy'n cyfateb i lefelau 4-8 y FfCC yn fwy tebygol o 'anghytuno' gyda'r datganiad hwn (70 y cant) o gymharu â'r ymatebwyr hynny oedd â lefel y cymhwyster uchaf sy'n cyfateb i gymhwyster islaw lefel 2 y FfCC (58 y cant) neu ymatebwyr heb unrhyw un o'r cymwysterau a restrwyd (48 y cant).

Gall hyn awgrymu fod ymatebwyr oedd â lefel cymhwyster uwch yn ystyried eu bod wedi cael mwy o'r profiad dysgu na'r cymhwyster yn unig.

Byw yng Nghymru 2008

Cwestiynau addysg

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd yn arolwg Byw yng Nghymru ynglŷn ag addysg:

- *Gan ddechrau o dop y rhestr hon, edrychwch ar y rhestr o gymwysterau a dywedwch lythyren y cymhwyster cyntaf y dewch ato rydych chi wedi'i basio..*

  [ ] Gradd uwch, e.e. MSc, MA, MBA, PhD

  [ ] Gradd gyntaf/Diploma Ôl-raddedig/TAR/Cymwysterau proffesiynol ar lefel gradd/NVQ/SVQ Lefel 4 neu 5

  [ ] Diploma addysg uwch/HNC/HND/BTEC Uwch/Cymwysterau addysgu, nyrsio neu feddygol islaw lefel gradd/ Diploma 'Higher' RSA

  [ ] Safon Uwch/UG /SCE Higher/Scottish Certificate 6th Year Studies/NVQ Lefel 3/BTEC National/City and Guilds Uwch/ Diploma 'Advanced' RSA

  [ ] Prentisiaethau Crefft

  [ ] Lefel O/TGAU graddau A-C/SCE Standard/Ordinary Grades 1-3/NVQ Lefel 2/BTEC Cyntaf/diploma cyffredinol/City and Guilds Crefftau/Safonol/ Diploma RSA*

  [ ] Lefel O/TGAU Graddau D-G/SCE Standard/Ordinary Grades islaw 3/NVQ Lefel 1/ BTEC Cyntaf/tystysgrif gyffredinol/City and Guilds Rhan 1/RSA cam 1-3

  [ ] Ddim yn gwybod

  [ ] Gwrthod ateb/dim ateb

  [ ] Dim un o'r rhain

  [ ] Arall

- *I ba raddau rydych chi'n cytuno neu anghytuno gyda'r datganiadau canlynol am werth cymwysterau:*
  - *Allwch chi ddim gwneud unrhyw beth heb gymwysterau y dyddiau hyn*
  - *Rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd well ar ôl gwneud rhywfaint o ddysgu, hyfforddiant neu addysg*
  - *Rydych chi'n fwy tebygol o gael swydd dda os oes gennych gymhwyster galwedigaethol perthnasol*
  - *Mae dysgu ond yn werth yr ymdrech os oes cymhwyster ar gael yn y diwedd*

  [] Cytuno'n gryf
  [] Tueddu i gytuno
  [] Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
  [] Tueddu i anghytuno
  [] Anghytuno'n gryf
  [] Ddim yn gwybod

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dadansoddi data Byw yng Nghymru 2008 ar deithio.

Roedd arolwg 2008 yn casglu data ar ddwy agwedd gyffredinol ar deithio; teithio i'r gwaith ac agweddau ymatebwyr at godi tâl atal tagfeydd. Roedd y cwestiynau ar deithio i'r gwaith yn trafod y dull a ddefnyddiwyd i deithio i'r gwaith; yr arfer o rannu ceir, hynny yw ymatebwyr yn teithio mewn car fel gyrwyr neu deithwyr; a'r pellter mae pobl yn ei deithio i'r gwaith. Gofynnwyd y cwestiynau hyn bob blwyddyn o 2004 i 2008. Roedd y cwestiynau olaf ar deithio i'r gwaith yn ymwneud â sefyllfa ddamcaniaethol; faint o amser fyddai ymatebwyr yn barod i'w dreulio yn teithio i'r gweithle pe byddent yn chwilio am swydd newydd.

Dim ond yn 2008 y gofynnwyd y cwestiynau am godi tâl atal tagfeydd. Roeddynt yn gofyn i ymatebwyr pa mor gryf roeddynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu cynigion amrywiol i godi tâl atal tagfeydd. Mae union eiriad y cwestiynau hyn ar ddiwedd y bennod hon.

Ffynonellau data eraill ar deithio

Mae arolygon cenedlaethol eraill yn casglu gwybodaeth am deithio yng Nghymru. Y prif ffynonellau yw:

- Arolwg o'r Llafurlu (LFS)
- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS)
- Arolwg Teithio Cenedlaethol (NTS)
- Y Cyfrifiad

Mae'r ffynonellau hyn yn defnyddio cwestiynau a diffiniadau ychydig yn wahanol i'w gilydd. Mae'r LFS yn darparu data cyfres amser ar y prif ddull o deithio i'r gwaith yng Nghymru a'r pellter mae pobl yn ei deithio i'r gwaith. Mae'r NTS yn darparu gwybodaeth am deithiau fesul person y flwyddyn ac am y pellter a deithir; yn ôl diben y daith neu'r siwrnai, hyd y daith a'r prif ddull o deithio. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y prif ddull o deithio i'r ysgol i blant rhwng 5 a 16 oed. Mae manylion pellach i'w cael ym Mhennod 6 Ystadegau Trafnidiaeth Cymru.

Teithio i'r gwaith

Mae nodweddion economaidd-gymdeithasol yr ymatebwyr yn effeithio ar eu dull o deithio i'r gwaith; er enghraifft, mae ymatebwyr sy'n byw mewn cartrefi incwm uchel yn fwy tebygol o deithio i'r gwaith mewn car. Mae natur eu gwaith hefyd yn dylanwadu ar eu dull o deithio, felly mae pobl sydd â swydd lawn amser yn fwy tebygol o ddefnyddio car i gyrraedd y gwaith na'r rhai sydd â swydd ran-amser.

Dylanwad arall ar eu taith i'r gwaith fydd lleoliad y gweithle mewn perthynas â'u cartref; bydd eu taith yn cael ei phenderfynu gan y cysylltiadau trafnidiaeth sydd ar gael, y pellter, a'r drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael. Roedd Arolwg Byw yng Nghymru'n casglu gwybodaeth am y pellter mae pobl yn ei deithio i'r gwaith yn unig; ac mae hyn hefyd yn gysylltiedig â nodweddion economaidd-gymdeithasol yr ymatebydd.

Y car oedd y dull mwyaf cyffredin o deithio i'r gwaith. O'r ymatebwyr a oedd yn gweithio (gweithwyr cyflogedig a hunangyflogedig), roedd 8 y cant yn gweithio o gartref yn bennaf a 72 y cant yn teithio i'r gwaith mewn car neu fan. Mae gweddill yr adran hon yn canolbwyntio ar yr ymatebwyr a oedd yn teithio i'r gwaith; nid yw'n cynnwys y rhai sy'n gweithio gartref. Yn y cyd-destun hwn, roedd 78 y cant o'r ymatebwyr yn teithio i'r gwaith mewn car neu fan, 13 y cant yn cerdded a 4 y cant yn defnyddio bws (neu dacsi). Roedd y 5 y cant arall yn teithio i'r gwaith ar feic, beic modur neu drên. Mae adran fer isod yn edrych ar nodweddion ymatebwyr oedd yn gweithio gartref.

Roedd yna wahaniaethau sylweddol rhwng patrwm teithio i'r gwaith dynion a menywod. Mae'r gwahaniaethau hyn yn gysylltiedig â gwahaniaethau eraill sy'n ymwneud â rhyw, felly un o'r rhesymau pam fod dynion yn fwy tebygol na menywod o deithio i'r gwaith mewn car

yw bod cyfran uwch o ddynion mewn gwaith llawn amser, a chyfran uwch o fenywod mewn gwaith rhan-amser.

Mae siart 4.1 isod yn dangos effaith y dylanwadau hyn ar deithiau dynion a menywod i'r gwaith. Mae'n dangos bod 82 y cant o ddynion yn teithio i'r gwaith mewn car o gymharu â 76 y cant o fenywod. Mae teithio i'r gwaith ar feic, beic modur neu drên wedi'u cynnwys yn y categori 'arall' yn y siart. Roedd y categori arall yn cyfrif am 8 y cant o deithiau gan ddynion a 2 y cant o deithiau gan fenywod; o fewn yr 8 y cant ar gyfer dynion, roedd 3 y cant yn teithio ar feic, 2 y cant ar drên ac 1 y cant ar feic modur. Mewn cyferbyniad â hyn, roedd menywod yn fwy tebygol o gerdded – roedd 17 y cant o fenywod yn cerdded i'r gwaith, o gymharu ag 8 y cant o ddynion. Roedd menywod hefyd yn fwy tebygol o deithio ar y bws.

Siart 4.1: Prif ddull o deithio i'r gwaith, yn ôl rhyw yr ymatebydd

Ymatebwyr sy'n gweithio, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio gartref
Mae bws ac ati yn cynnwys bws, bws mini, bws moethus neu dacsi
Mae Arall yn cynnwys beic, beic modur ac 'arall'

Mae'r gwahaniaethu hyn yn adlewyrchu gwahaniaethau ym mhatrwm gwaith dynion a menywod yn rhannol, er enghraifft roedd mwy o fenywod yn gweithio'n rhan-amser (llai na 30 awr yr wythnos). Yn gyffredinol, roedd 24 y cant o ymatebwyr a oedd yn gweithio'n rhan-amser yn cerdded i'r gwaith o gymharu â 9 y cant o'r rhai a oedd yn gweithio'n llawn amser; dim ond 69 y cant o ymatebwyr a oedd yn gweithio'n rhan-amser oedd yn teithio i'r gwaith mewn car, o gymharu ag 82 y cant o'r rhai a oedd yn gweithio'n llawn amser.

Roedd y gwahaniaethau hyn i'w gweld yn y pellter roedd ymatebwyr yn ei deithio i'r gwaith hefyd. Mae siart 4.2 yn dangos fod 9 y cant o ddynion yn teithio llai na milltir i'r gwaith, o gymharu ag 19 y cant o fenywod. Ar y llaw arall, roedd 42 y cant o ddynion yn teithio 10 milltir neu fwy, o gymharu â 22 y cant o fenywod.

Siart 4.2: Pellter teithio i'r gwaith, yn ôl rhyw yr ymatebydd

Ymatebwyr sy'n gweithio, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio gartref; nid yw chwaith yn cynnwys ymatebwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau amrywiol ac ymatebwyr nad oedd yn gwybod beth oedd y pellter i'w gwaith

Yn ogystal â'r dull o deithio i'r gwaith, gofynnodd arolwg Byw yng Nghymru i'r ymatebwyr a nododd eu bod 'yn gweithio ac yn gyrru i'r gwaith mewn car, fan neu ar feic modur fel arfer' a oeddynt yn gyrru eu hunain neu'n cael lifft fel teithiwr.

Roedd yr atebion i hyn yn dangos fod 92 y cant o'r grŵp hwn yn gyrru eu hunain fel arfer, 6 y cant yn cael lifft, a 3 y cant weithiau'n gyrru ac weithiau'n cael lifft. Nid oedd hyn yn adlewyrchiad teg o lefel

wirioneddol rhannu ceir i deithio i'r gwaith, gan fod ymatebwyr, fel person cyswllt y cartref (neu bartner), yn llai cynrychioliadol o oedolion ifanc o dan 30 oed a oedd yn gweithio yn yr achos hwn. Roedd y grŵp oedran iau yma'n fwy tebygol o deithio i'r gwaith mewn car fel teithiwr na gyrrwr (mae'r canfyddiad hwn yn seiliedig ar ddata LFS cyfatebol).

O edrych yn fanylach ar ddull teithio i'r gwaith, mae'r dull a ddewisir yn adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael i aelwyd yr ymatebydd yn ogystal â'i sefyllfa waith ei hun. Mae siart 4.3 yn dangos sut roedd prif ddull teithio i'r gwaith ymatebwyr yn amrywio yn ôl incwm y cartref. Roedd 87 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi ag incwm gros o dros £40 mil y flwyddyn yn gyrru i'r gwaith, a dim ond 7 y cant yn cerdded i'r gwaith. Roedd 65 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi ag incwm oedd yn llai nag £20,800 (£400 yr wythnos) yn gyrru i'r gwaith a 23 y cant o'r categori hwn yn cerdded i'r gwaith.

Siart 4.3: Prif ddull o deithio i'r gwaith, yn ôl incwm y cartref

Ymatebwyr sy'n gweithio, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio gartref
Sylwch fod llai na dwy ran o dair o'r ymatebwyr a oedd yn gweithio wedi rhoi amcangyfrif o incwm eu cartref – felly mae'r siart hon yn llai cywir na siartiau eraill y Bennod hon
Mae Bws ac ati'n cynnwys bws, bws mini, bws moethus neu dacsi
Mae Arall yn cynnwys beic, beic modur ac 'arall'

Fel y soniwyd uchod, mae'r dull o deithio i'r gwaith yn adlewyrchu sefyllfa waith yr unigolyn. Mae dosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yn ddosbarthiad dadansoddol o alwedigaethau sy'n rhoi syniad o'u sefyllfa waith. Mae Siart 4.4 yn cyferbynnu sefyllfa ymatebwyr mewn 'galwedigaeth reoli a phroffesiynol uwch' gydag ymatebwyr mewn 'galwedigaeth gyffredin'.

Mae'r siart hon yn dangos fod 85 y cant o ymatebwyr yn y galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch yn gyrru i'r gwaith a 6 y cant yn cerdded. Roedd 69 y cant o ymatebwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau cyffredin yn gyrru i'r gwaith a 22 y cant yn cerdded.

Siart 4.4: Prif ddull o deithio i'r gwaith, yn ôl galwedigaeth, ymatebwyr mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' a 'galwedigaethau cyffredin' yn nosbarthiad dadansoddol NS-SEC

Ymatebwyr sy'n gweithio, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio gartref
Mae Bws ac ati'n cynnwys bws, bws mini, bws moethus neu dacsi
Mae Arall yn cynnwys beic, beic modur ac 'arall'

Roedd y gwahaniaethau hyn i'w gweld hefyd yn y pellter roedd ymatebwyr yn ei deithio i'r gwaith. Mae siart 4.5 yn dangos fod ymatebwyr mewn galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch yn teithio llai na milltir i'r gwaith, o gymharu â 23 y cant o ymatebwyr mewn galwedigaethau cyffredin. Ar y llaw arall, roedd 44 y cant o ymatebwyr

yn y galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch yn teithio 10 milltir neu fwy, o gymharu ag 20 y cant o ymatebwyr mewn galwedigaethau cyffredin.

Siart 4.5: Pellter teithio i'r gwaith, yn ôl galwedigaeth, i ymatebwyr mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' a 'galwedigaethau cyffredin' dosbarthiad dadansoddol NS-SEC

Ymatebwyr sy'n gweithio, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio gartref; nid yw chwaith yn cynnwys ymatebwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau amrywiol ac ymatebwyr nad oedd yn gwybod beth oedd y pellter i'w gwaith

Gweithio gartref

Roedd lleiafrif arwyddocaol o'r ymatebwyr yn gweithio gartref, sef 8 y cant o'r rhai oedd yn gweithio (gweithwyr cyflogedig a hunangyflogedig). Roedd mwy o ddynion na menywod yn gweithio gartref - 10 y cant o gymharu â 7 y cant. Roedd mwy o ymatebwyr hŷn yn gweithio gartref hefyd; roedd 7 y cant o ddynion a 5 y cant o fenywod rhwng 30 a 44 oed yn gweithio gartref; roedd 12 y cant o ddynion a 9 y cant o fenywod rhwng 45 oed ac oedran ymddeol (65/60 oed) yn gweithio gartref. Roedd 34 y cant o ddynion ac 14 y cant o fenywod dros oedran ymddeol oedd yn dal i weithio yn gweithio gartref.

Mae galwedigaeth yr ymatebydd yn dylanwadu'n fawr ar gyfraddau gweithio gartref hefyd, gydag ymatebwyr sydd wedi'u dosbarthu fel 'cyflogwyr bach a gweithwyr ar eu liwt eu hunain' o dan ddosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yn llawer mwy tebygol o fod yn gweithio gartref o gymharu â grwpiau eraill. Dangosir hyn yn siart 4.6 isod.

Siart 4.6: Gweithio gartref, yn ôl galwedigaeth yr ymatebydd yn nosbarth dadansoddol NS-SEC

Mae'r siart hon yn dangos fod 37 y cant o ymatebwyr sy'n gweithio yn gweithio gartref os oedd eu galwedigaeth wedi'i disgrifio fel 'cyflogwyr bach neu weithwyr ar eu liwt eu hunain' (mae'r term olaf yn cyfateb i weithwyr hunangyflogedig). Roedd yna ffigur cyfatebol o 8 y cant ar gyfer galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch ac is; roedd y ffigur hwn yn gostwng i 2 y cant ymhlith ymatebwyr mewn galwedigaethau cyffredin.

Nid yw'n syndod chwaith fod mwy o bobl yn gweithio gartref mewn ardaloedd gwledig. Dangosir hyn yn siart 4.7 isod sy'n edrych ar ymatebwyr yn ôl eu lleoliad ledled Cymru.

Siart 4.7: Gweithio gartref, yn ôl dosbarthiad 'trefol/gwledig'

Mae'n dangos fod 29 y cant o ymatebwyr sy'n gweithio ac oedd yn byw mewn 'pentrefannau ac anheddau ynysig, yn gweithio gartref, o gymharu â 4 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn aneddiadau gyda dros 10 mil o bobl.

Teithio i swydd newydd

Gofynnodd arolwg Byw yng Nghymru i'r holl ymatebwyr faint o amser y byddent yn fodlon ei dreulio yn teithio er mwyn gweithio mewn swydd newydd ddamcaniaethol. Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd gwaeth beth oedd eu statws gweithio cyfredol. Nid yw'n syndod felly nad oedd cyfran fawr, 20 y cant o'r ymatebwyr, yn gallu, neu'n barod, i ddarparu amser teithio i ateb y cwestiwn hwn. Mae'r siartiau isod ond yn dangos y canlyniadau ar gyfer y rhai a atebodd y cwestiwn ac yn darparu uchafswm amser teithio.

Mae siart 4.8 yn dangos faint o amser y byddai dynion a menywod yn fodlon ei dreulio yn teithio i swydd newydd ddamcaniaethol. Mae'n amlwg fod cyfran uwch o ddynion yn barod i deithio am fwy o amser; roedd 22 y cant o ddynion yn barod i deithio hyd at 60 munud ac 11 y cant yn barod i deithio am fwy na 60 munud; gellir cymharu hyn ag 11 y cant a 3 y cant ymysg menywod.

Siart 4.8: Faint o amser y byddai ymatebwyr yn barod i'w dreulio yn teithio i swydd newydd, yn ôl rhyw yr ymatebydd

Mae siart 4.9 yn dangos fod yna lai o amrywiadau yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn wrth ystyried ymatebwyr yn ôl y math o gartref. Bydd y math o gartref yn adlewyrchu gwahaniaethau yn sefyllfa'r teulu a chyfrifoldebau'r ymatebwyr a fyddai'n effeithio mae'n debyg ar yr amser maent yn barod i'w dreulio yn teithio i'r gwaith. Mae siart 4.9 yn dangos y gallai ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi 'un person' fod yn fwy symudol gydag 20 y cant o ymatebwyr yn barod i deithio hyd at 60 munud a 10 y cant yn barod i deithio am dros 60 munud. O gymharu â hyn, ac i'r pegwn arall, roedd cyfran is o ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi 'un rhiant gyda phlant dibynnol' yn barod i deithio amser hir yn teithio i swydd newydd gyda 11 y cant o ymatebwyr yn barod i deithio hyd at 60 munud a 7 y cant am dros 60 munud. Nid yw siart 4.9 yn cynnwys cartrefi pensiynwyr un a dau berson.

Siart 4.9: Faint o amser y byddai ymatebwyr yn barod i'w dreulio yn teithio i swydd newydd, yn ôl math o gartref

Siart 4.10: Faint o amser y byddai ymatebwyr yn barod i'w dreulio yn teithio i swydd newydd, ymatebwyr mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' a 'galwedigaethau cyffredin' dosbarthiad dadansoddol NS-SEC

Dylanwad arall ar barodrwydd i deithio bydd y mathau o swyddi y mae ymatebwyr yn credu sydd ar gael iddynt. Mae dosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol yn rhoi syniad o'r mathau o swyddi newydd y gallai ymatebydd eu hystyried fel rhai addas iddynt. Mae siart 4.10 yn cyferbynnu sefyllfa ymatebwyr a gafodd eu dosbarthu fel rhai mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' gydag ymatebwyr a ddosbarthwyd fel rhai mewn 'galwedigaethau cyffredin'.

Mae'r siart hon yn dangos fod 19 y cant o ymatebwyr mewn galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch yn barod i deithio hyd at 60 munud i swydd newydd a bod 12 y cant yn barod i deithio dros 60 munud. Yn achos ymatebwyr mewn galwedigaethau cyffredin, roedd 11 y cant yn barod i deithio hyd at 60 munud a 5 y cant dros 60 munud.

Codi tâl atal tagfeydd

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu cynnig i godi tâl am yrru ar ffyrdd lle mae yna dagfeydd yn ystod oriau teithio brig, a dim tâl am yrru ar adegau tawel.

Mae siart 4.11 yn dangos fod dros 6 o bob 10 ymatebydd wedi gwrthwynebu'r bwriad o gyflwyno tâl am yrru ar ffyrdd lle mae yna dagfeydd yn ystod oriau teithio brig; roedd chwarter yr ymatebwyr yn cefnogi hyn.

Siart 4.11: I ba raddau mae ymatebwyr yn gwrthwynebu tâl atal tagfeydd, yn ôl rhyw yr ymatebydd

Gwrthwynebu yw cyfran yr ymatebwyr a oedd yn 'tueddu i wrthwynebu' neu yn 'gwrthwynebu'n gryf'

Roedd lefel y gwrthwynebu'n haneru i tua 3 o bob 10 ymatebydd ac roedd lefel y gefnogaeth yn dyblu'n fras i dros hanner yr ymatebwyr pan roedd y datganiad ynghylch codi tâl atal tagfeydd yn cynnwys esboniad o sut y byddai'r refeniw a godwyd yn cael ei ddefnyddio i wella trafnidiaeth. Nid oedd union natur y datganiad am sut y byddai refeniw yn cael ei ddefnyddio i'w weld yn effeithio'n fawr ar lefel y gostyngiad mewn gwrthwynebiad a'r cynnydd mewn cefnogaeth.

Roedd yna lai o wrthwynebiad, fodd bynnag, a mwy o gefnogaeth i'r ddau gynnig 'i ddychwelyd unrhyw arian a godwyd i ddefnyddwyr ffyrdd trwy betrol rhatach neu dreth ffordd is' ac 'i ddefnyddio'r refeniw a godwyd i wella trafnidiaeth gyhoeddus a gwella ffyrdd lleol' yn hytrach na'r dewis o 'ddefnyddio'r refeniw a godwyd i wella trafnidiaeth gyhoeddus'.

Mae siart 4.11 hefyd yn dangos bod lefel y gwrthwynebiad i ddatganiadau am godi tâl atal tagfeydd ychydig yn uwch ymysg dynion na menywod.

Byw yng Nghymru 2008

Cwestiynau ar deithio

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol am deithio yn arolwg Byw yng Nghymru:

- *Pa mor bell ydych chi'n gorfod teithio i gyrraedd eich lleoliad gwaith arferol?*

- *Sut ydych chi'n teithio i'r gwaith fel arfer?*

- *Ydych chi'n gyrru eich hun fel arfer neu'n cael lifft fel teithiwr?*

- *Pe byddech chi'n chwilio am swydd newydd, faint o amser fyddech chi'n barod ei dreulio'n teithio i'ch gweithle?*

- *Meddyliwch am y posibilrwydd o godi tâl am yrru ar ffyrdd lle mae yna dagfeydd yn ystod oriau brig, a dim tâl am yrru yn ystod adegau tawel. Yn gyffredinol, pa mor gryf ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r awgrym newydd hwn?*

- *Pa mor gryf fyddech chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r datganiad uchod am godi tâl atal tagfeydd pe byddai'r...*
  [ ] Holl refeniw a godwyd yn cael ei ddychwelyd i ddefnyddwyr ffyrdd trwy betrol rhatach neu dreth ffordd is
  [ ] Holl refeniw a godwyd yn cael ei ddefnyddio i wella trafnidiaeth gyhoeddus
  [ ] Holl refeniw a godwyd yn cael ei ddefnyddio i wella ffyrdd lleol yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddiad o ddata Byw yng Nghymru 2008 ar ddefnydd o'r Rhyngrwyd.

Amcan yr adran ar ddefnydd o'r Rhyngrwyd yn yr arolwg oedd pennu faint o bobl oedd yn berchen ar gyfrifiadur, lefelau mynediad i'r Rhyngrwyd a pha mor aml y defnyddir y rhyngrwyd a'r math o ddefnydd a wneir ohono. Hefyd roedd nifer o gwestiynau a ymddangosodd yn arolwg Byw yng Nghymru 2008 wedi'u gofyn mewn blynyddoedd blaenorol ac felly mae'n bosibl edych ar dueddiadau rhwng blynyddoedd.

Gellir gweld union eiriad y cwestiynau a ofynnwyd ar ddefnydd o'r Rhyngrwyd yn yr arolwg Byw yng Nghymru ar ddiwedd y bennod.

Ffynonellau data eraill ar ddefnydd o'r Rhyngrwyd

Daw'r wybodaeth Ystadegau Gwladol arall am ddefnydd aelwydydd Cymru o'r Rhyngrwyd o arolwg Omnibws y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae maint sampl yr arolwg hwn ar gyfer Cymru yn llawer llai na sampl arolwg Byw yng Nghymru. Mae canlyniadau'r arolwg (*Datganiad Cyntaf, 'Internet Access – Households and Individuals'*) yn awgrymu fod cyfran yr aelwydydd sydd â mynediad i'r Rhyngrwyd yng Nghymru yn debyg i'r hyn ydyw ar draws Prydain i gyd.

Mynediad i gyfrifiadur

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd gan eu haelwyd fynediad i gyfrifiadur personol yn y cartref ac os nad oedd, beth oedd y rhesymau pam nad oedd cyfrifiadur ganddynt. Casglwyd y wybodaeth hon yn 2007 a 2008.

Roedd gan dros ddwy ran o dair (67 y cant) o aelwydydd fynediad i gyfrifiadur personol yn y cartref, cynnydd o 4 y cant ers 2007. Yr aelwydydd hynny lle'r oedd Person Cyswllt yr Aelwyd (HRP) o oedran pensiwn oedd leiaf tebygol o fod â chyfrifiadur yn y cartref; 36 y cant o'r aelwydydd hynny oedd â mynediad i gyfrifiadur yn y cartref o'i gymharu ag 82 y cant lle'r oedd yr HRP o dan oedran pensiwn. Roedd mynediad i gyfrifiadur gan 72 y cant o aelwydydd oedd â HRP gwrywaidd, ond roedd hyn yn gostwng i 60 y cant ar aelwydydd â HRP benywaidd.

Dim ond ar ddau o'r pum prif grŵp tarddiad ethnig oedd hi'n bosibl edrych i weld a oedd gwahaniaethau mewn mynediad i gyfrifiadur yn ôl ethnigrwydd. Y rheswm am hyn oedd y niferoedd bach oedd yn gwneud y tri grŵp arall yn ystadegol annibynadwy. Roedd dwy ran o dair o aelwydydd â HRP Gwyn a 81 y cant o aelwydydd â HRP Asiaidd â mynediad i gyfrifiadur personol yn y cartref.

Siart 5.1: Aelwydydd â mynediad i gyfrifiadur yn y cartref yn ôl cyfanswm incwm gros aelwydydd

Mae siart 5.1 yn dangos y cysylltiad rhwng aelwyd â mynediad i gyfrifiadur yn y cartref a chyfanswm incwm gros aelwydydd. Er enghraifft, dim ond 38 y cant o aelwydydd â chyfanswm incwm gros sy'n is na £10,399 oedd â mynediad i gyfrifiadur. Y ffigwr gyfatebol ar gyfer aelwydydd â chyfanswm incwm gros o £50,000 ac uwch oedd 97 y cant.

Roedd deiliadaeth yr aelwyd hefyd yn dylanwadu ar y tebygolrwydd fod gan aelwyd fynediad i gyfrifiadur personol. Roedd mynediad i gyfrifiadur personol yn y cartref gan 72 y cant o berchen-feddianwyr a 69 y cant o bobl sy'n rhentu'n breifat, ond dim ond gan 42 y cant o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

Mae pobl sydd heb gyfrifiadur personol a chysylltiad â'r Rhyngrwyd yn y cartref mewn perygl o fod 'dan anfantais yn ddigidol'. Mae hyn yn broblem gan fod technolegau digidol yn gallu effeithio ar ansawdd bywyd a'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i unigolion a grwpiau bregus yn gymdeithasol ac felly gall mwy o gydraddoldeb digidol helpu i leihau rhai o'r anghydraddoldebau sy'n deillio o incwm isel, afiechyd, prinder sgiliau neu anableddau[1]. Er mwyn edrych yn fanylach ar hyn, gofynnwyd i'r traean o aelwydydd heb gyfrifiadur personol yn y cartref am resymau pam nad oedd ganddynt gyfrifiadur. Dywedodd 4 o bob 5 (79 y cant) o'r aelwydydd hynny nad oedd 'dim diddordeb neu ddim angen cyfrifiadur' arnynt . Dywedodd 13 y cant fod cyfrifiadur yn 'rhy ddrud'. Dim ond 8 y cant o berchen-feddianwyr a ddywedodd ei fod yn 'rhy ddrud', o'i gymharu â 23 y cant o ymatebwyr mewn tai cymdeithasol. Aelwydydd â HRP iau oedd fwyaf tebygol o ddweud fod cyfrifiadur yn 'rhy ddrud' ac roedd aelwydydd â HRP hŷn yn fwy tebygol o ddweud nad oedd 'dim diddordeb neu ddim angen cyfrifiadur arnynt', fel y dangosir yn nhabl 5.1.

Tabl 5.1: O'r aelwydydd heb gyfrifiadur personol, rhesymau a ddewiswyd dros beidio bod ag un, yn ôl oedran HRP

	16-24	25-59/64	60/65 a throsodd	Pob oedran
Dim diddordeb neu ddim angen cyfrifiadur	36%	77%	92%	79%
Rhy ddrud	40%	13%	6%	13%

Cyfanswm a bwysolwyd: 412,800 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Mae rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr â nifer sylfaenol annibynadwy yn ystadegol wedi'u hepgor o'r siart

Nid yw'r canrannau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un rheswm

Mynediad i'r Rhyngrwyd

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd gan eu haelwyd fynediad i'r Rhyngrwyd ac os oedd, ai cysylltiad band eang ydoedd. Casglwyd y wybodaeth hon ar gyfer pob blwyddyn ers 2004.

Roedd gan gyfanswm o 60 y cant o'r aelwydydd fynediad i'r Rhyngrwyd yn y cartref, ac o'r rhain roedd gan 91 y cant fynediad drwy gysylltiad band eang. Roedd cyfran yr aelwydydd oedd â mynediad i'r Rhyngrwyd yn y cartref yn amrywio yn ôl math o aelwyd, o 14 y cant o aelwydydd pensiynwyr sengl i 86 y cant o aelwydydd â dau neu fwy o oedolion a phlant.

Mae siart 5.2 yn dangos fod cyfran yr aelwydydd sydd â mynediad i'r Rhyngrwyd yn y cartref wedi codi o 43 y cant o aelwydydd yn 2004 i 60 y cant yn 2008. Mae hefyd yn dangos fod canran yr aelwydydd â mynediad i'r Rhyngrwyd drwy fand eang wedi cynyddu o 12 y cant yn 2004 i 54 y cant yn 2008. Mae cyfran yr aelwydydd â mynediad band eang wedi cynyddu'n gyflymach na chyfran yr aelwydydd â mynediad i'r Rhyngrwyd yn gyffredinol; y rheswm am hyn oedd bod band eang yn cymryd lle dulliau eraill o gysylltu â'r Rhyngrwyd.

[1] Gweler '*Understanding Digital Exclusion – Research* Report' a gynhyrchwyd ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol yn www.communities.gov.uk/publications/communities/understandingdigitalexclusion

Siart 5.2: Aelwydydd â mynediad i'r Rhyngrwyd ac a yw hyn trwy gyfrwng band eang, yn ôl blwyddyn

Siart 5.3: Aelwydydd â mynediad i'r Rhyngrwyd yn ôl math o ddeiliadaeth a blwyddyn

Mae siart 5.3 yn dangos fod aelwydydd perchen-feddiant yn fwy tebygol o fod â mynediad i'r Rhyngrwyd na mathau eraill o ddeiliadaeth. Roedd gan ddwy ran o dair o berchen-feddianwyr a 59 y cant o aelwydydd rhent preifat fynediad i'r Rhyngrwyd o gymharu â 31 y cant o bobl mewn tai cymdeithasol. Mae cyfran yr aelwydydd tai cymdeithasol sydd â mynediad i'r Rhyngrwyd wedi cynyddu ar raddfa arafach ers 2006 o gymharu â chyfrannau aelwydydd perchen-feddiant neu rent preifat. Mae cyfran yr aelwydydd sydd â mynediad i'r Rhyngrwyd yn tueddu i fod yn gysylltiedig â chyfanswm incwm gros aelwydydd. Er enghraifft, dim ond 26 y cant o aelwydydd â chyfanswm incwm gros llai na £10,399 oedd â mynediad i'r Rhyngrwyd; o'i gymharu â 95 y cant o aelwydydd â chyfanswm incwm gros o £50,000 ac uwch.

Defnydd o'r Rhyngrwyd

Gofynnodd yr arolwg gwestiynau penodol i'r ymatebwyr am eu defnydd o'r Rhyngrwyd a'r math o gysylltiad; ni chyfyngwyd mynediad i ddefnydd yn y cartref, roedd yn cynnwys defnydd yn y gwaith a mannau eraill hefyd.

Roedd bron 7 o bob 10 ymatebydd yn mynd ar y Rhyngrwyd 'ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau'. Amrywiai'r defnydd yma yn ôl band oedran yr ymatebydd: âi 90 y cant o ymatebwyr 16 i 24 oed, 72 y cant o ymatebwyr 25 i 59/64 oed a 48 y cant o ymatebwyr oedran pensiwn, ar y Rhyngrwyd 'ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau'.

Mae siart 5.4 yn dangos bod pa mor aml mae pobl yn defnyddio'r Rhyngrwyd wedi cynyddu rhwng 2006 a 2008. Yn 2006, roedd 50 y cant o ymatebwyr 16 i 24 oed, 43 y cant o ymatebwyr 25 i 59/64 oed a 10 y cant o ymatebwyr o oedran pensiwn yn defnyddio'r Rhyngrwyd 'ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau'.

Siart 5.4: Mynediad ymatebwyr i'r rhyngrwyd yn y cartref, yn y gwaith neu rywle arall, ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau, yn ôl oedran a blwyddyn

Roedd 4 o bob 5 ymatebydd (81 y cant) a weithiai mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' yn mynd ar y Rhyngrwyd 'ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau' o gymharu â 54 y cant o ymatebwyr a weithiai mewn 'swyddi cyffredin'. Wrth edrych ar ddefnydd o'r Rhyngrwyd yn ôl statws gwaith, roedd 98 y cant o ymatebwyr a oedd yn 'fyfyrwyr llawn amser' yn mynd ar y Rhyngrwyd 'ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau', o gymharu â 51 y cant o ymatebwyr a oedd 'wedi ymddeol yn llwyr' a 54 y cant o ymatebwyr a oedd 'â salwch hirdymor neu'n anabl'.

Roedd 1 o bob 10 o'r ymatebwyr heb fod ar y Rhyngrwyd erioed. Roedd ymatebwyr benywaidd yn llai tebygol o fod wedi defnyddio'r Rhyngrwyd; 12 y cant o gymharu â 8 y cant o ymatebwyr gwrywaidd. O'r aelwydydd lle mae pawb yn y cartref yn siarad Cymraeg, 7 y cant oedd heb fod ar y Rhyngrwyd erioed, o gymharu â 11 y cant o aelwydydd lle nad oedd neb yn siarad Cymraeg.

Wrth edrych ar y defnydd o'r Rhyngrwyd yn ôl cyrhaeddiad addysgol, dim ond 3 y cant o'r ymatebwyr â gradd uwch oedd heb fod ar y Rhyngrwyd erioed. O'r ymatebwyr oedd â gradd D-G lefel O neu TGAU yn gymhwyster uchaf, roedd pedair gwaith yn fwy ohonynt (12 y cant) heb fod ar y Rhyngrwyd erioed.

Mae'r arolwg Byw yng Nghymru yn casglu peth gwybodaeth am y ffordd mae ymatebwyr yn defnyddio'r Rhyngrwyd, Felly, o'r ymatebwyr a oedd wedi bod ar y Rhyngrwyd, roedd 57 y cant wedi'i ddefnyddio i gael gwybodaeth am, neu i gysylltu â sefydliad sector cyhoeddus, cynnydd o 43 y cant yn 2007. Mae hyn yn gysylltiedig â statws economaidd-gymdeithasol yr ymatebydd gyda 71 y cant o ymatebwyr a weithiai mewn 'swyddi rheoli neu broffesiynol uwch' wedi defnyddio'r Rhyngrwyd i gael gwybodaeth am, neu i gysylltu â sefydliad sector cyhoeddus; mewn cyferbyniad, 41 y cant o ymatebwyr a weithiai mewn 'swyddi cyffredin' oedd wedi defnyddio'r Rhyngrwyd yn y ffordd hon. Mae'r patrwm yma'n amlwg hefyd yn ôl cyrhaeddiad addysgol yr ymatebydd, gyda ffigurau cyfatebol o 77 y cant o'r ymatebwyr oedd â gradd uwch i 39 y cant o'r ymatebwyr oedd â gradd D-G lefel O neu TGAU yn gymhwyster uchaf.

O'r aelwydydd hynny â mynediad i'r Rhyngrwyd drwy gyfrwng cysylltiad band eang, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml y defnyddient y Rhyngrwyd drwy gyfrwng cysylltiad band eang. Mae siart 5.5 yn dangos fod 74 y cant o ymatebwyr yn mynd ar y Rhyngrwyd drwy gyfrwng band eang 'ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau' a 13 y cant arall 'o leiaf unwaith yr wythnos'.

Siart 5.5: Pa mor aml mae ymatebwyr yn mynd ar y Rhyngrwyd yn y cartref, yn y gwaith neu rywle arall, drwy gyfrwng cysylltiad band eang

Mae ymatebwyr na wyddent pa mor aml roeddynt yn mynd ar y Rhyngrwyd yn y cartref, yn y gwaith neu rywle arall drwy gyfrwng cysylltiad band eang wedi'u hepgor o'r siart

Defnydd plant o'r Rhyngrwyd

Gofynnodd yr arolwg hefyd pa mor aml roedd plant iau, rhwng 7 a 10 oed, yn mynd ar y Rhyngrwyd. Atebodd ymatebwyr ar ran y plant ac roedd ond yn gofyn pa mor aml roedd plant yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn y cartref.

Siart 5.6: Pa mor aml mae plant 7 i 10 oed yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn y cartref

Mae plant 7 i 10 oed na wyddai eu rhieni pa mor aml roeddynt yn mynd ar y Rhyngrwyd yn y cartref wedi'u hepgor o'r siart

Roedd 39 y cant o'r plant 7 i 10 oed oedd yn byw ar aelwydydd lle'r oedd mynediad i'r Rhyngrwyd yn mynd ar y Rhyngrwyd 'ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau'. Er hynny, ar draws yr holl aelwydydd - hynny yw gan gynnwys aelwydydd heb fynediad i'r Rhyngrwyd - roedd y ffigwr hon yn gostwng i 31 y cant o'r holl blant 7 i 10 oed a oedd yn mynd ar y Rhyngrwyd 'ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau' fel y dangosir yn siart 5.6.

O'r aelwydydd hynny â mynediad i'r Rhyngrwyd, roedd 10 y cant o blant 7 i 10 oed heb fod ar y Rhyngrwyd yn y cartref 'erioed'. Unwaith eto, ar draws yr holl aelwydydd, gan gynnwys aelwydydd heb fynediad i'r Rhyngrwyd, cynyddai'r ffigwr yma i 29 y cant o'r plant hyn, fel y dangosir yn siart 5.6.

Wrth edrych ar ba mor aml mae plant yn defnyddio'r Rhyngrwyd, nid oes gwahaniaeth rhwng lefel defnydd bechgyn a merched na rhwng ardaloedd 'trefol' a 'gwledig'. Nid oedd cysylltiad band eang yn dylanwadu ar ba mor aml mae plant yn defnyddio'r Rhyngrwyd.

Byw yng Nghymru 2008

Cwestiynau ynglŷn â defnydd o'r Rhyngrwyd

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd am y defnydd o'r Rhyngrwyd yn yr arolwg Byw yng Nghymru:

- *Yn gyntaf allwch chi ddweud wrtha i a oes cyfrifiadur personol yn eich cartref? Gall fod yn gyfrifiadur desg neu liniadur, a gall fod er defnydd preifat neu fusnes.*
- *Pam nad oes gennych chi gyfrifiadur yn eich cartref?*

  [] Dim diddordeb neu ddim angen cyfrifiadur
  [] Rhy ddrud
  [] Defnyddio cyfrifiadur yn y gwaith
  [] Defnyddio cyfrifiadur yn y llyfrgell
  [] Defnyddio cyfrifiadur yn y Ganolfan TGCh
  [] Defnyddio cyfrifiadur yn y caffi Rhyngrwyd
  [] Defnyddio cyfrifiadur yn yr ysgol neu'r coleg
  [] Defnyddio cyfrifiadur ffrind neu berthynas
  [] Defnyddio cyfrifiadur yn rhywle arall
  [] Arall (nodwch)

- *A oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd yn y cartref?*
- *A yw eich mynediad i'r Rhyngrwyd drwy gyfrwng cysylltiad band eang? Mae band eang yn rhoi cysylltiad cyflym i'r Rhyngrwyd sy'n galluogi defnyddwyr i fod ar y ffôn a'r Rhyngrwyd ar yr un pryd ac ar yr un llinell ffôn.*
- *Pa mor aml ydych chi'n mynd ar y Rhyngrwyd, naill ai yn y cartref, yn y gwaith neu rywle arall?*

  [] Ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau
  [] O leiaf unwaith yr wythnos
  [] Yn llai aml nag unwaith yr wythnos
  [] Byth
  [] Ddim yn gwybod

- *A pha mor aml ydych chi'n mynd ar y Rhyngrwyd, naill ai yn y cartref, yn y gwaith neu rywle arall, drwy gyfrwng cysylltiad band eang?*

  [] Ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau
  [] O leiaf unwaith yr wythnos
  [] Yn llai aml nag unwaith r wythnos
  [] Byth
  [] Ddim yn gwybod

- *Pa mor aml mae (enw) yn mynd ar y Rhyngrwyd yn y cartref? (Gofynnwyd ynghylch pob plentyn 7 i 10 oed ar yr aelwyd)*

  [] Ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau
  [] O leiaf unwaith yr wythnos
  []Yn llai aml nag unwaith yr wythnos
  [] Byth
  [] Ddim yn gwybod

- *A pha mor aml mae (enw) yn mynd ar y Rhyngrwyd yn y cartref drwy gyfrwng cysylltiad band eang? (Gofynnwyd ynghylch pob plentyn 7 i 10 ar yr aelwyd)*

  [] Ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau
  [] O leiaf unwaith yr wythnos
  [] Yn llai aml nag unwaith yr wythnos
  [] Byth
  [] Ddim yn gwybod

- *A ydych chi erioed wedi defnyddio'r Rhyngrwyd i gael gwybodaeth am, neu i gysylltu â sefydliad sector cyhoeddus? Wrth "sefydliad sector cyhoeddus" rwy'n golygu sefydliadau fel y cyngor lleol, Llywodraeth y Cynulliad neu adran neu asiantaeth arall y Llywodraeth.*

Pobl a Chymdeithas

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dadansoddi data Byw yng Nghymru 2008 ar Ansawdd Bywyd.

Mae'r arolwg yn casglu data ar sawl gwahanol faes sy'n effeithio ar ansawdd bywyd pobl. Mae'n gofyn i'r ymatebwyr am eu hagweddau tuag at eu cymdogaeth, a ydynt yn teimlo'n ddiogel mewn mannau gwahanol ar adegau gwahanol o'r dydd, a allant fynd yn hawdd i fannau gwyrdd naturiol ac a ydynt yn defnyddio'r amgylchedd naturiol i wneud gweithgareddau awyr agored.

Gellir gweld y cwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer adran Ansawdd Bywyd yr arolwg Byw yng Nghymru ar ddiwedd y bennod hon.

Cymdogaeth:

Defnyddiwyd y cwestiynau a ofynnwyd yn arolwg Byw yng Nghymru 2008 i greu adran gymdogaeth y bennod hon. Gofynnwyd rhai o'r cwestiynau hyn yn y blynyddoedd blaenorol hefyd felly gellir rhoi sylw i dueddiadau o un flwyddyn i'r llall. Bydd adrannau gweithgareddau'r bennod hon yn canolbwyntio ar y cwestiynau a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf yn arolwg Byw yng Nghymru 2008.

Agwedd ymatebwyr tuag at gymdogion

Fel rhan o'r arolwg gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau amrywiol am eu cymdogaeth a'u cymdogion. Ni roddwyd unrhyw ddiffiniad ffurfiol o gymdogaeth felly dewisodd yr ymatebwyr eu diffiniad personol nhw o gymdogaeth.

O ran canlyniadau'r adran hon, mae 'cytuno' yn cynnwys y rhai a ddywedodd 'cytuno'n gryf' a 'thueddu i gytuno', ac mae 'anghytuno' yn cynnwys pobl a ddywedodd 'anghytuno'n gryf' a 'thueddu i anghytuno'.

Mae tabl 6.1 yn dangos agweddau ymatebwyr tuag at bob datganiad ynglŷn â'u cymdogaeth. Yn gyffredinol, roedd 85 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad 'Rwy'n teimlo fy mod i'n perthyn i'r gymdogaeth hon'. Yn ogystal, roedd dros bedwar o bob pum ymatebydd yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- 'Byddwn yn barod i gydweithio ag eraill ar rywbeth i wella fy nghymdogaeth';
- 'Mae'r cyfeillgarwch a'r cysylltiadau sydd gennyf â phobl eraill yn y gymdogaeth yn bwysig i mi'; a
- 'Rwy'n ystyried fy mod i'n debyg i'r bobl sy'n byw yn y gymdogaeth hon'.

Tabl 6.1: Agweddau ymatebwyr tuag at ddatganiadau am eu cymdogaeth yn ôl lefel eu cytundeb

	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Cyfanswm
Rwy'n teimlo fy mod i'n perthyn i'r gymdogaeth hon	85%	7%	8%	100%
Byddwn yn barod i gydweithio ag eraill ar rywbeth i wella fy nghymdogaeth	83%	9%	9%	100%
Mae'r cyfeillgarwch a'r cysylltiadau sydd gennyf â phobl eraill yn y gymdogaeth yn bwysig i mi	82%	9%	9%	100%
Rwy'n ystyried fy mod i'n debyg i'r bobl sy'n byw yn y gymdogaeth hon	80%	9%	11%	100%
Os oes angen cyngor arna i gallaf gysylltu â rhywun yn fy nghymdogaeth	78%	7%	15%	100%
Rwyf i a'm cymdogion yn benthyg pethau gan ein gilydd ac/neu'n gwneud cymwynasau i'n gilydd	62%	8%	30%	100%

Cyfanswm wedi'i bwysoli: 1,268,400 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Nid yw ymatebwyr a ddywedodd 'ddim yn gwybod' fel ymateb i unrhyw un o'r datganiadau wedi'u cynnwys yn y tabl hwn.

Mae gweithio mewn cymuned a pherthyn iddi o fantais i unigolyn a'r gymuned gyfan. Roedd 92 y cant o bensiynwyr 'yn teimlo eu bod yn perthyn i'r gymdogaeth'. Dywedodd 88 y cant o bensiynwyr fod eu cyfeillgarwch a'u cysylltiadau â phobl eraill yn y gymdogaeth yn bwysig iddynt', o gymharu â 64 y cant o ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed.

Yn ogystal, dywedodd 88 y cant o ymatebwyr rhwng 25 ac oed pensiwn eu bod 'yn barod i gydweithio ag eraill ar rywbeth i wella'u cymdogaeth', ond gostyngodd hyn i 74 y cant ar gyfer ymatebwyr o oedran pensiwn.

Roedd ymatebwyr sydd wedi penderfynu prynu tŷ a byw mewn ardal (perchen-feddianwyr) yn debygol o fod â barn wahanol am eu cymdogaeth o gymharu â phobl a oedd yn disgwyl byw yn yr ardal am gyfnod llai, megis pobl yn rhentu'n breifat (sy'n bobl iau fel rheol). Roedd 88 y cant o berchen-feddianwyr 'yn teimlo eu bod yn perthyn i'r gymdogaeth', tra roedd 72 y cant o bobl a oedd yn rhentu'n breifat yn teimlo eu bod yn perthyn. Yn yr un modd, byddai 86 y cant o berchen-feddianwyr 'yn barod i gydweithio ag eraill ar rywbeth i wella'r gymdogaeth', o gymharu â 72 y cant o ymatebwyr mewn tai cymdeithasol.

Roedd 63 y cant o ymatebwyr a ddywedodd mai 'Cristnogaeth' oedd eu crefydd 'yn teimlo eu bod nhw a'u cymdogion yn gallu benthyg pethau a gwneud cymwynasau i'w gilydd' o gymharu â 60 y cant o ymatebwyr a oedd yn ystyried eu bod yn 'ddigrefydd' a 50 y cant o 'Fwslimiaid'.

Rhesymau ymatebwyr dros hoffi'u cymdogaeth

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr ddweud eu hoff bethau am fyw yn eu cymdogaeth. Roedd yr ymatebwyr yn gallu rhoi sawl rheswm dros hoffi'u cymdogaeth. Roedd rhaid i'r cyfwelydd drefnu'r ymatebion yn 32 cod. Gellir rhannu'r codau hyn ymhellach yn bedwar prif gategori: Pobl, yr Amgylchedd, Cyfleusterau ac Arall.

Cafwyd llawer o resymau gan ymatebwyr pam eu bod yn hoffi byw yn eu cymdogaeth (mae tabl 6.2 yn dangos rhai o'r rhesymau mwyaf cyffredin a gafwyd gan yr ymatebwyr).

Roedd pum prif reswm: sef bod y gymdogaeth 'yn dawel' (52 y cant); 'y bobl neu'r cymdogion yn gyfeillgar' (47 y cant); 'y siopau'n dda neu am eu bod yn agos i'r siopau' (35 y cant); bod yna 'gefn gwlad atyniadol' (32 y cant) ac oherwydd y 'lleoliad' (29 y cant). Tri y cant yn unig o'r ymatebwyr fethodd â rhoi unrhyw reswm dros hoffi'u cymdogaeth.

Tabl 6.2: Rhesymau ymatebwyr dros hoffi byw yn eu cymdogaeth

Rhesymau a roddwyd	
Tawel	52%
Pobl neu gymdogion cyfeillgar	47%
Siopau da neu'n agos i'r siopau	35%
Cefn gwlad atyniadol	32%
Lleoliad	29%
Trafnidiaeth gyhoeddus dda neu'n agos	18%
Ymdeimlad o gymuned	17%
Diogel neu ddiffyg trosedd	13%
Wedi byw yma erioed neu mae'n gartref	12%
Yn agos i barciau neu fannau agored	11%

Cyfanswm wedi'i bwysoli: 1,268,400 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Nid yw'r canrannau'n rhoi cyfanswm o 100 y cant oherwydd gallai ymatebwyr roi mwy nag un rheswm.

Mae siart 6.1 yn dangos y dosbarthiad ar ôl coladu'r rhesymau yn bedwar prif gategori.

Dywedodd 76 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn hoffi'u cymdogaeth am resymau cysylltiedig â'r 'amgylchedd'; roedd rhesymau 58 y cant yn gysylltiedig â 'phobl', roedd rhesymau 58 y cant yn gysylltiedig â'r 'cyfleusterau' sydd ar gael a dywedodd 42 y cant eu bod yn hoffi'u cymdogaeth am reswm 'arall'.

Siart 6.1: Rhesymau ymatebwyr dros hoffi byw yn eu cymdogaeth, wedi'u rhannu'n bedwar prif gategori

Nid yw'r canrannau'n rhoi cyfanswm o 100 y cant oherwydd gallai ymatebwyr roi mwy nag un rheswm.

Dywedodd 87 y cant o'r ymatebwyr â 'gradd uwch' eu bod yn hoffi'u cymdogaeth am resymau'n gysylltiedig â'r 'amgylchedd'. Gwelwyd tuedd barhaus ar i lawr yn seiliedig ar gymhwyster uchaf yr ymatebwyr, gyda 70 y cant o ymatebwyr a gafodd gradd D-G yn eu harholiadau lefel O neu TGAU yn rhoi rhesymau'n gysylltiedig â'r 'amgylchedd'.

Gwelwyd yr un duedd o safbwynt yr 'amgylchedd' o gymharu Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol yr ymatebwyr. Roedd rhesymau 87 y cant o'r ymatebwyr mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' yn gysylltiedig â'r 'amgylchedd', o gymharu â 66 y cant o ymatebwyr mewn 'galwedigaethau cyffredin'.

Mewn ardaloedd 'gwledig', roedd rhesymau 90 y cant o ymatebwyr dros hoffi'u cymdogaeth yn gysylltiedig â'r 'amgylchedd', o gymharu â 72 y cant o ymatebwyr mewn ardaloedd 'trefol'. Serch hynny, dim ond 46 y cant o ymatebwyr mewn ardaloedd 'gwledig' a ddywedodd mai am resymau cysylltiedig â 'chyfleusterau' yr oeddent yn hoffi byw yn eu cymdogaeth, o gymharu â 61 y cant o ymatebwyr mewn ardaloedd 'trefol'.

Wrth gymharu'r canlyniadau dros bum mlynedd (rhwng 2004 a 2008), mae pedwar o'r pum prif reswm a gafwyd gan ymatebwyr dros hoffi byw yn eu cymdogaeth wedi aros o fewn y pum prif reswm, er nad yn yr un drefn. Mae siart 6.2 yn dangos y pedwar prif reswm a roddwyd gan ymatebwyr ers 2004.

Siart 6.2: Y pedwar prif reswm a roddwyd gan ymatebwyr dros hoffi byw yn eu cymdogaeth, fesul blwyddyn

Nid yw'r canrannau'n rhoi cyfanswm o 100 y cant oherwydd gallai ymatebwyr roi mwy nag un rheswm.

Ers 2005, 'tawel' yw'r prif reswm a roddwyd gan ymatebwyr. Yn 2004, hwn oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin ar ôl 'pobl neu gymdogion cyfeillgar' - mae hwn wedi bod yr ail reswm mwyaf cyffredin ers 2005. Dywedodd tua 30 y cant o ymatebwyr rhwng 2004 a 2007 mai 'siopau da neu fod yn agos at siopau da' oedd eu prif reswm am hoffi byw yn eu cymdogaeth; cynyddodd y ganran ar gyfer y rheswm hwn 5 y cant yn 2008. 'Cefn gwlad atyniadol' yw'r rheswm arall sydd wedi parhau yn y pum rheswm mwyaf cyffredinol am bum mlynedd olynol.

Wrth bwyso a mesur y pum rheswm mwyaf cyffredin, ni ddefnyddiwyd 'lleoliad' yn ffrâm codau'r cyfwelwyr tan 2007, ond llwyddodd i fod yn un o'r pum rheswm mwyaf cyffredin yn y ddwy flynedd y rhoddwyd cod iddo (2007 a 2008).

Rhesymau ymatebwyr dros beidio â hoffi'u cymdogaeth

Fel rhan o'r arolwg gofynnwyd i'r ymatebwyr ddweud beth oedd eu prif gasbethau mwyaf dros fyw yn eu cymdogaeth. Roedd yr ymatebwyr yn gallu rhoi sawl rheswm dros beidio â hoffi'u cymdogaeth. Roedd rhaid i'r cyfwelydd drefnu'r ymatebion yn 38 cod. Gellir rhannu'r codau hyn ymhellach yn bedwar prif gategori: Pobl, yr Amgylchedd, Cyfleusterau ac Arall.

Nid oedd 39 y cant o'r ymatebwyr yn gallu rhoi unrhyw reswm am beidio â hoffi'u cymdogaeth. Ar wahân i'r ymatebwyr hyn, ni roddodd llawer o bobl resymau am beidio â hoffi byw yno: dywedodd 12 y cant nad oeddent yn hoffi 'plant a phobl ifanc yn loetran' a rheswm 9 y cant o'r ymatebwyr oedd 'ffyrdd peryglus neu draffig rhy gyflym'.

Tabl 6.3: Rhesymau ymatebwyr dros beidio â hoffi byw yn eu cymdogaeth

Rhesymau a roddwyd	
Dim	39%
Plant neu bobl ifanc yn loetran	12%
Ffyrdd peryglus neu draffig rhy gyflym	9%
Parcio ceir	8%
Diffyg cynnal a chadw neu'n frwnt neu gormod o sbwriel	7%
Dim cyfleusterau neu gyfleusterau gwael i bobl ifanc yn eu harddegau	6%
Dim siopau neu siopau gwael	6%
Llawer o dagfeydd traffig	6%
Trafnidiaeth gyhoeddus wael	6%
Dim cyfleusterau neu gyfleusterau gwael i blant	6%

Cyfanswm wedi'i bwysoli: 1,268,400 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Nid yw'r canrannau'n rhoi cyfanswm o 100 y cant oherwydd gallai ymatebwyr roi mwy nag un rheswm.

Ar ôl coladu'r rhesymau yn bedwar prif gategori, dywedodd 65 y cant o ymatebwyr nad oeddent yn hoffi byw yn eu cymdogaeth am resymau cysylltiedig â'r 'amgylchedd', dywedodd 46 y cant bod eu rhesymau'n gysylltiedig â'r 'cyfleusterau' ar gael, rhoddodd 17 y cant reswm 'arall' ac roedd rhesymau 14 y cant yn gysylltiedig â'r 'bobl' yn y gymdogaeth.

Pa mor ddiogel y mae'r ymatebwyr yn teimlo yn ôl amser y dydd a lleoliad

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr ynglŷn â pha mor ddiogel neu anniogel yr oeddent yn teimlo mewn sefyllfaoedd amrywiol ac ar adegau gwahanol o'r dydd. Dechreuwyd gofyn ynglŷn â'r sefyllfaoedd penodol hyn yn 2005, ac eithrio un sefyllfa sy'n gysylltiedig â theithio ar fws a gafodd ei hychwanegu ar gyfer arolwg 2008.

Ar gyfer rhai o ganlyniadau'r adran hon, mae 'diogel' yn cynnwys y rhai a ddywedodd 'diogel iawn' ac 'eithaf diogel', ac mae 'anniogel' yn cynnwys y rhai a ddywedodd 'anniogel iawn' ac 'eithaf anniogel'.

Roedd 99 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo'n 'ddiogel' pan roeddent 'gartref yn ystod golau dydd': roedd nifer ychydig yn is (94 y cant) yn teimlo'n ddiogel 'gartref fin nos'. 'Wrth gerdded yn eu cymdogaeth yn ystod golau dydd', roedd dros 95 y cant yn teimlo'n 'ddiogel', o gymharu â 92 y cant o bobl 'wrth gerdded yng nghanol eu tref neu'u dinas agosaf yn ystod golau dydd'. O gymharu â chanlyniadau 2005, mae teimladau'r ymatebwyr wedi newid llai nag 1 y cant o safbwynt diogelwch yn y sefyllfaoedd uchod.

Awgrymodd llawer o ymatebwyr nad oeddent yn mynd i 'gerdded yn eu cymdogaeth fin nos' neu 'gerdded yng nghanol eu tref neu'u dinas agosaf fin nos', gydag 11 y cant a 20 y cant yn ôl eu trefn yn rhoi 'amherthnasol' fel ymateb i'r datganiadau hyn. O safbwynt y rhai a roddodd ateb, roedd yr argraff o ddiogelwch fin nos yn amrywio - roedd bron i chwarter yn teimlo'n 'anniogel yn cerdded yn y gymdogaeth' ac roedd dros hanner yn teimlo fel hyn wrth 'gerdded yng nghanol y dref neu'r ddinas agosaf'. Unwaith eto mae'r canlyniadau'n debyg i rai 2005.

Wrth gymharu grwpiau oedran gwahanol o safbwynt diogelwch, roedd 82 y cant o bobl 16-24 oed yn teimlo'n 'ddiogel gartref fin nos' o gymharu

â 94 y cant o ymatebwyr 25 oed a hŷn. Dywedodd dwywaith yn fwy o fenywod nag o ddynion eu bod yn teimlo'n 'anniogel gartref fin nos'.

Dywedodd 98 y cant o ymatebwyr mewn tai cymdeithasol eu bod yn teimlo'n 'ddiogel gartref yn ystod golau dydd'; ond mae hyn yn gostwng 'fin nos' i 87 y cant. O ran pobl sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, dywedodd 95 y cant eu bod yn teimlo'n 'ddiogel gartref fin nos', sy'n 8 y cant yn uwch nag ymatebwyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

Cymerir yn ganiataol yn y bennod hon bod yr ymatebwyr a roddodd 'amherthnasol' fel ymateb i unrhyw gwestiynau yn gwneud hynny am nad oeddent wedi bod yn y sefyllfa honno. O ddadansoddi'r ymatebion 'amherthnasol', roedd hi'n glir bod daliadaeth yr ymatebydd yn dylanwadu ar ba mor ddiogel y mae'n teimlo wrth gerdded yn y gymdogaeth fin nos.

Mae siartiau 6.3 ac 6.4 yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng pa mor ddiogel y mae ymatebwyr yn teimlo wrth gerdded yn eu cymdogaeth, yng nghanol eu tref neu'u dinas agosaf, yn ôl daliadaeth.

Siart 6.3: Ymatebwyr a oedd yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn eu cymdogaeth yn ystod golau dydd a fin nos, yn ôl daliadaeth

Nid yw'r ymatebwyr a roddodd 'amherthnasol' fel ateb wedi'u cynnwys yn y siart hwn.

O safbwynt pobl mewn tai cymdeithasol, crybwyllodd 1 o bob 5 (19 y cant) 'nad oeddent yn cerdded yn eu cymdogaeth fin nos'. O'r bobl a oedd yn gwneud hynny, dywedodd 62 y cant eu bod yn teimlo'n 'ddiogel'. Dywedodd 10 y cant o berchen-feddianwyr 'nad oeddent yn cerdded yn eu cymdogaeth fin nos', ond o'r bobl a oedd yn gwneud hynny, roedd 4 o bob 5 (79 y cant) yn teimlo'n 'ddiogel'.

Siart 6.4: Ymatebwyr a oedd yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yng nghanol eu tref neu'u dinas agosaf yn ystod golau dydd a fin nos, yn ôl daliadaeth

Nid yw'r ymatebwyr a roddodd 'amherthnasol' fel ateb wedi'u cynnwys yn y siart hwn.

Crybwyllodd 14 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi bregus 'nad oeddent yn cerdded yn eu cymdogaeth fin nos' o gymharu â 2 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi eraill. Crybwyllodd pum gwaith yn fwy o bensiynwyr 'nad oeddent yn cerdded yn eu cymdogaeth fin nos' o gymharu â phobl nad oeddent o oedran pensiwn.

Roedd yr un peth hefyd yn wir o safbwynt pensiynwyr yn cerdded yng nghanol eu tref neu'u dinas agosaf fin nos. Dywedodd dau o bob pump (39 y cant) o bensiynwyr 'nad oeddent yn cerdded yng nghanol eu tref neu'u dinas agosaf fin nos'; o ran y rhai a oedd yn gwneud hynny, dywedodd bron i ddau o bob tri (63 y cant) eu bod yn teimlo'n 'anniogel'.

O safbwynt ymatebwyr nad oeddent o oedran pensiwn, awgrymodd 10 y cant 'nad oeddent yn cerdded yng nghanol eu tref neu'u dinas agosaf fin nos'; dywedodd 46 y cant a'r rhai a oedd yn gwneud hynny eu bod yn teimlo'n 'anniogel'.

Hefyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr, am y tro cyntaf yn 2008, ynglŷn â pha mor ddiogel yr oeddent yn teimlo wrth deithio ar fws. Drwy roi 'amherthnasol' fel ateb, roedd 44 y cant o bobl yn awgrymu 'nad oeddent yn teithio ar fws'. O safbwynt yr ymatebwyr a oedd yn teithio ar fws, dywedodd 96 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n 'ddiogel' wrth deithio ar fws, ac nid oedd yna lawer o wahaniaeth o safbwynt pa mor ddiogel yr oeddent yn teimlo wrth gymharu oed, rhyw, lleoliad a daliadaeth.

Mae'r ddiddorol ystyried demograffeg yr ymatebwyr a grybwyllodd nad oeddent yn defnyddio'r bws. Crybwyllodd tri o bob pump o ymatebwyr mewn ardaloedd 'gwledig' nad oeddent yn defnyddio'r bws, o gymharu â dau o bob pump o ymatebwyr mewn ardaloedd 'trefol'. Gellid egluro hyn o ystyried yr amrywiaeth mewn gwasanaethau bysiau sydd ar gael yn ardaloedd 'gwledig' Cymru.

Crybwyllodd bron i hanner y dynion a ymatebodd (47 y cant) a 41 y cant o fenywod nad oeddent yn defnyddio'r bws. Mae yna gysylltiad amlwg rhwng daliadaeth yr ymatebwyr ac a ydynt yn defnyddio'r bws: crybwyllodd 47 y cant o berchen-feddianwyr nad oeddent yn defnyddio'r bws, o gymharu â 31 y cant o ymatebwyr mewn tai cymdeithasol. Crybwyllodd chwarter (26 y cant) o bobl 16-24 oed, bron i hanner (49 y cant) o bobl 25-59/64 oed a 36 y cant o bensiynwyr nad oeddent yn defnyddio'r bws.

Gweithgareddau: Pellter cartrefi o fannau gwyrdd naturiol

Am y tro cyntaf yn arolwg Byw yng Nghymru gofynnwyd i'r ymatebwyr yn 2008 a oeddent yn byw o fewn taith gerdded chwe munud i fan gwyrdd naturiol. Os nad oeddent, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn byw o fewn taith gerdded ddeng munud. Roedd cerdyn ar gael i'w ddangos i bobl a oedd yn ansicr ynglŷn â'r diffiniad o fan gwyrdd naturiol. Roedd man gwyrdd naturiol yn cynnwys y canlynol:

- Parciau a gerddi;
- Parciau gwledig;
- Mannau gwyrdd trefol naturiol a lled-naturiol;
- Coridorau gwyrdd;
- Cyfleusterau chwaraeon awyr agored;
- Amwynderau gwyrdd agored;
- Darpariaeth i blant a phobl ifanc;
- Rhandiroedd, gerddi cymunedol a ffermydd trefol; a
- Mynwentydd a chladdfeydd.

Dywedodd 95 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn byw o fewn taith gerdded ddeng munud i fan gwyrdd naturiol ac roedd 91 y cant o fewn taith gerdded chwe munud i fan gwyrdd naturiol.

Yn ôl y canlyniadau mae 88 y cant o bensiynwyr yn byw o fewn taith gerdded chwe munud i fan gwyrdd naturiol o gymharu â 93 y cant o bobl nad ydynt yn bensiynwyr. Serch hynny, gellid egluro hyn drwy ddweud efallai na fyddai pensiynwyr yn cerdded mor bell mewn chwe munud â phobl nad ydynt yn bensiynwyr. Hefyd, dywedodd 88 y cant o ymatebwyr mewn tai cymdeithasol eu bod yn byw o fewn taith gerdded chwe munud i fan gwyrdd naturiol, o gymharu â 92 y cant o berchen-feddianwyr.

Wrth gymharu grwpiau ethnig, dau grŵp yn unig oedd yn ddigon mawr i fod yn ystadegol ddibynadwy. Dywedodd 95 y cant o ymatebwyr Gwyn eu bod yn byw o fewn taith gerdded ddeng munud i fan gwyrdd naturiol, o gymharu â 90 y cant o ymatebwyr Asiaidd.

Pellter cartrefi o lwybr troed neu lwybr beiciau

Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn byw o fewn taith gerdded ddeng munud i lwybr troed neu lwybr beiciau. Roedd 88 y cant o'r holl ymatebwyr yn byw o fewn taith gerdded ddeng munud i lwybr troed neu lwybr beiciau. Serch hynny, o'r ymatebwyr mewn tai cymdeithasol, nid oedd un o bob pump yn gwybod a oeddent yn byw o fewn taith gerdded ddeng munud i lwybr troed neu lwybr beiciau, neu'n byw ymhellach i ffwrdd na hynny ohonynt.

Defnyddio'r amgylchedd naturiol i wneud gweithgareddau awyr agored

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml yr oeddent yn defnyddio amgylchedd naturiol Cymru i wneud gweithgareddau awyr agored.

Siart 6.5 Pa mor aml mae ymatebwyr yn defnyddio amgylchedd naturiol Cymru i wneud gweithgareddau awyr agored

Nid yw'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod pa mor aml maent yn defnyddio amgylchedd naturiol Cymru i wneud gweithgareddau awyr agored wedi'u cynnwys yn y siart hwn.

Diffiniwyd yr 'amgylchedd naturiol' fel ardaloedd lle ceir tir agored neu lystyfiant, arfordiroedd a dyfrffyrdd yn bennaf. Mae hefyd yn cynnwys parciau a mannau agored ond nid yw'n cynnwys cyfleusterau fel meysydd chwaraeon, pyllau nofio a pharciau byrddau sgrialu.

Mae siart 6.5 yn dangos dyraniad o ddefnydd yr ymatebwyr o amgylchedd naturiol Cymru. Dywedodd bron i 3 o bob 5 o ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r amgylchedd naturiol o leiaf unwaith yr wythnos. Dywedodd 14 y cant o ymatebwyr nad ydynt byth yn defnyddio amgylchedd naturiol Cymru i wneud gweithgareddau awyr agored.

Dywedodd 62 y cant o ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu tŷ neu'n rhentu'n breifat eu bod yn defnyddio'r amgylchedd naturiol o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu â 45 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol. Dywedodd 24 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol nad oeddent byth yn defnyddio'r amgylchedd naturiol.

Siart 6.6 Ymatebwyr mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' a 'galwedigaethau rheolaidd' yn ôl a oeddent yn defnyddio'r amgylchedd naturiol 'o leiaf unwaith yr wythnos' neu 'byth'

Nid yw'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod pa mor aml maent yn defnyddio amgylchedd naturiol Cymru i wneud gweithgareddau awyr agored wedi'u cynnwys yn y siart hwn.

Mewn cartrefi lle'r oedd o leiaf un person â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor 'cyfyngus', nid oedd 27 y cant ohonynt byth yn defnyddio'r amgylchedd naturiol i wneud gweithgareddau awyr agored, o gymharu ag 8 y cant mewn cartrefi nad oedd gan unrhyw un salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor 'cyfyngus'.

Roedd Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol yr ymatebwyr yn dylanwadu ar ba mor aml yr oeddent yn defnyddio'r amgylchedd naturiol. Mae siart 6.6 yn dangos bod 70 y cant o ymatebwyr mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' yn defnyddio'r amgylchedd naturiol o leiaf unwaith yr wythnos a gwelir tuedd ar i lawr ar draws y dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol nes cyrraedd 49 y cant ymysg yr ymatebwyr mewn 'galwedigaethau cyffredin'. Dywedodd 23 y cant o ymatebwyr a ddosbarthwyd mewn 'galwedigaethau cyffredin' nad oeddent erioed wedi defnyddio'r amgylchedd naturiol, sef yr uchaf ar gyfer unrhyw ddosbarthiad.

Cwestiynau Ansawdd Bywyd

Dyma'r cwestiynau am ansawdd bywyd a ofynnwyd yn yr arolwg Byw yng Nghymru:

Cymdogaeth

- *Rydw i'n mynd i ddarllen cyfres o ddatganiadau i chi ynglŷn â chymdogaethau. Edrychwch ar y cerdyn a dywedwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad.*
  - *Rwy'n teimlo fy mod i'n perthyn i'r gymdogaeth hon*
  - *Mae'r cyfeillgarwch a'r cysylltiadau sy'n gennyf â phobl eraill yn y gymdogaeth yn bwysig i mi*
  - *Os oes angen cyngor arna i gallaf gysylltu â rhywun yn fy nghymdogaeth*
  - *Rwyf i a'm cymdogion yn benthyg pethau gan ein gilydd ac/neu'n gwneud cymwynasau i'n gilydd*
  - *Byddwn yn barod i gydweithio ag eraill ar rywbeth i wella fy nghymdogaeth*
  - *Rwy'n ystyried fy mod i'n debyg i'r bobl sy'n byw yn y gymdogaeth hon*

    [] Cytuno'n gryf
    [] Tueddu i gytuno
    [] Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    [] Tueddu i anghytuno
    [] Anghytuno'n gryf
    [] Ddim yn gwybod

Gweithgareddau

- *Beth yw'ch hoff beth am fyw yn y gymdogaeth hon?*

  Pobl:
  [] Pobl neu gymdogion cyfeillgar
  [] Ymdeimlad o gymuned
  [] Agos i'r teulu

[] Mae'n ardal Gymraeg neu amlieithog

Yr Amgylchedd:
[] Wedi'i chynnal a'i chadw'n dda neu'n lân neu'n daclus
[] Diogel neu ddiffyg trosedd
[] Tawel
[] Cefn gwlad atyniadol
[] Agos i'r gwaith
[] Tai o safon dda
[] Dim llawer o dagfeydd traffig
[] Agos i draffyrdd neu briffyrdd
[] Ffyrdd tawel neu ddiffyg traffig rhy gyflym
[] Amgylchedd da / iach
[] Y golygfeydd

Cyfleusterau:
[] Siopau da neu'n agos i'r siopau
[] Trafnidiaeth gyhoeddus dda neu'n agos i drafnidiaeth gyhoeddus
[] Cyfleusterau i blant
[] Cyfleusterau i bobl ifanc yn eu harddegau
[] Ysgolion
[] Agos i barciau neu fannau agored
[] Parcio ceir
[] Cyfleusterau hamdden da neu'n agos i gyfleusterau hamdden
[] Amwynderau crefyddol da neu'n agos i amwynderau crefyddol
[] Meddyg / ysbyty da neu'n agos i Feddyg / ysbyty da

Arall:
[] Lleoliad
[] Wedi byw yma erioed / Mae'n gartref
[] Fforddiadwy
[] Popeth
[] Dim
[] Ddim yn gwybod

- *Beth yw'ch casbeth am fyw yn y gymdogaeth hon?*

Pobl:
[] Pobl neu gymdogion
[] Dim ymdeimlad o gymuned
[] Pell o'r teulu
[] Mae yna rwystrau ieithyddol
[] Mewnfudwyr / pobl nad ydynt o'r wlad hon

Yr Amgylchedd:
[] Diffyg cynnal a chadw neu'n frwnt neu ormod o sbwriel
[] Plant neu bobl ifanc yn loetran
[] Pobl yn defnyddio neu'n gwerthu cyffuriau
[] Anniogel neu llawer o drosedd
[] Swnllyd neu ddim yn heddychlon
[] Ynysig
[] Tai o safon wael
[] Ffyrdd peryglus neu draffig rhy gyflym
[] Yn bell o draffyrdd neu briffyrdd
[] Llawer o dagfeydd traffig
[] Goleuadau stryd gwael / dim goleuadau stryd
[] Daearyddiaeth / tywydd
[] Y ffyrdd mewn cyflwr gwael
[] Amgylchedd gwael
[] Datblygiad arall

Cyfleusterau:
[] Dim siopau neu siopau gwael
[] Trafnidiaeth gyhoeddus wael
[] Dim cyfleusterau neu gyfleusterau gwael i blant
[] Dim cyfleusterau neu gyfleusterau gwael i bobl ifanc yn eu harddegau
[] Ysgolion gwael
[] Yn bell o barciau neu fannau agored
[] Parcio ceir
[] Cyfleusterau hamdden gwael
[] Ddim yn gallu cael gafael ar wasanaethau meddygol / gwasanaethau meddygol annigonol
[] Cyngor aneffeithiol

Arall:
[] Dim llawer o gyfleoedd cyflogaeth

[] Anfforddiadwy / costau
[] Dim digon o heddlu
[] Anifeiliaid
[] Popeth
[] Dim
[] Ddim yn gwybod

- *Pa mor aml ydych chi'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru i wneud gweithgareddau awyr agored? Trwy ddweud 'amgylchedd naturiol' rwy'n golygu ardaloedd lle ceir tir agored neu lystyfiant, arfordiroedd a dyfrffyrdd yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys parciau a mannau agored ond nid yw'n cynnwys cyfleusterau fel meysydd chwaraeon, pyllau nofio a pharciau byrddau sgrialu.*

[] Pum gwaith yr wythnos neu fwy
[] Rhwng 2 a 4 gwaith yr wythnos
[] Tua unwaith yr wythnos
[] Tua unwaith y mis
[] O leiaf unwaith bob chwe mis
[] O leiaf unwaith y flwyddyn
[] Llai aml nag unwaith y flwyddyn
[] Byth
[] Ddim yn gwybod

- *Ydych chi'n byw o fewn taith gerdded chwe munud i fan gwyrdd naturiol?*
- *Ydych chi'n byw o fewn taith gerdded ddeng munud i fan gwyrdd naturiol?*
- *Ydych chi'n byw o fewn taith gerdded ddeng munud i lwybr cerdded neu lwybr beiciau?*
- *Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo:*
  - *Gartref yn ystod golau dydd?*
  - *Gartref fin nos?*
  - *Wrth gerdded yn eich cymdogaeth yn ystod golau dydd?*
  - *Wrth gerdded yn eich cymdogaeth fin nos?*
- *Wrth gerdded yng nghanol eich tref neu'ch dinas agosaf yn ystod golau dydd?*
- *Wrth gerdded yng nghanol eich tref neu'ch dinas agosaf fin nos?*
- *Wrth deithio ar fws?*

[] Diogel iawn
[] Eithaf diogel
[] Eithaf anniogel
[] Anniogel iawn
[] Amherthnasol

Pennod 7 – Cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dadansoddi data Byw yng Nghymru 2008 ar gyfranogiad yr ymatebwyr yng ngweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol amrywiol.

Fel rhan o'r arolwg gofynnwyd dau gwestiwn ynglŷn â chyfranogiad yr ymatebwyr yng ngweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol. Dangosodd y cyfwelydd i'r ymatebwyr restr o sefydliadau a gofynnodd iddynt a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn yn rheolaidd ac a oeddent yn aelod o unrhyw rai o'r sefydliadau hyn ar hyn o bryd.

Gellir gweld yr union gwestiynau a ddefnyddiwyd yn adran cymryd rhan yng ngweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol yr arolwg Byw yng Nghymru ar ddiwedd y bennod hon.

Cafodd y cwestiynau hefyd eu defnyddio mewn arolwg Byw yng Nghymru unwaith o'r blaen, yn 2004. Felly fe fydd hi'n bosibl ystyried y gwahaniaethau rhwng 2004 a 2008; fodd bynnag ychwanegwyd categori arall, sef 'grŵp Rhieni a Phlant Bach', at y rhestr o sefydliadau yn 2008 a gallai hynny gael effaith wrth gymharu rhai ystadegau. Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau arolwg 2008, ond bydd yn cyfeirio at ganlyniadau 2004 er mwyn tynnu sylw at ystadegau diddorol.

Cymryd rhan yng ngweithgareddau sefydliadau

Dangoswyd rhestr o sefydliadau i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn yn rheolaidd.

Dywedodd 42 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ymuno yng ngweithgareddau o leiaf un o'r sefydliadau a restrwyd, tra'r oedd 16 y cant yn ymuno mewn mwy nag un ohonynt.

Er gwaethaf y ffaith i gategori gael ei ychwanegu at y rhestr o sefydliadau yn 2008, roedd y canrannau hyn yn is yn 2008 nag yn 2004. Yn 2004, ymunodd 45 y cant o ymatebwyr yng ngweithgareddau o leiaf un o'r sefydliadau a restrwyd, ac ymunodd 18 y cant mewn mwy nag un.

Mae siart 7.1 yn dangos bod ymatebwyr yn fwy tebygol o gymryd rhan yn rheolaidd yng ngweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol wrth iddynt fynd yn hŷn. Roedd 44 y cant o ymatebwyr o oedran pensiwn (h.y. menywod 60 oed neu'n hŷn a dynion 65 oed neu'n hŷn) yn cymryd rhan yng ngweithgareddau o leiaf un o'r sefydliadau a restrwyd yn rheolaidd, o gymharu â 39 y cant o ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed.

Mae siart 7.1 hefyd yn dangos sut y mae cyfraddau cymryd rhan wedi newid rhwng 2004 a 2008. Tra bod cyfran ychydig yn uwch o ymatebwyr 16 i 34 oed wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau o leiaf un o'r sefydliadau a restrwyd yn 2008 o gymharu â 2004, cymerodd cyfran lai o ymatebwyr 35 oed a hŷn ran yn 2008 nag yn 2004. Mae'n bosibl i'r categori a gafodd ei ychwanegu yn 2008, sef y 'grŵp Rhieni a Phlant Bach', effeithio ar gyfraddau cymryd rhan ymatebwyr rhwng 16 a 34.

Siart 7.1: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl oedran a blwyddyn

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys yn y siart.

Yn gyffredinol, mae dynion a menywod yr un mor debygol fwy neu lai o gymryd rhan yng ngweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol. Serch hynny, mae siart 7.2 yn dangos bod dynion ychydig yn fwy tebygol na menywod i gymryd rhan rhwng canol eu tridegau a chanol eu chwedegau, tra bod menywod yn fwy tebygol o gymryd rhan pan oeddent yn iau (35 oed neu iau) neu'n hŷn (dros 65 oed) na hynny.

Siart 7.2: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl oedran a blwyddyn

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys yn y siart.

Roedd yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn dilyn crefydd yn fwy tebygol o gymryd rhan yng ngweithgareddau sefydliadau, sef 45 y cant, o gymharu â 34 y cant o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'ddigrefydd'.

Roedd 45 y cant o ymatebwyr o 'gartrefi pobl sy'n gweithio' yn cymryd rhan mewn o leiaf un o'r gweithgareddau a restrwyd, o gymharu â 32 y cant yn unig o ymatebwyr o gartrefi lle'r oedd neb o oedran gweithio yn gweithio. Roedd ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus hefyd yn llai tebygol o gymryd rhan; 34 y cant o gymharu â 44 y cant o ymatebwyr nad oes arnynt salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus.

Mae'n debyg bod yna gydberthynas gadarnhaol rhwng cyfranogiad yr ymatebwyr yng ngweithgareddau sefydliadau ac incwm y cartref. Roedd 36 y cant o ymatebwyr o gartrefi ag incwm o lai na £15,599 yn cymryd rhan, o gymharu â 47 y cant o ymatebwyr o gartrefi ag incwm o rhwng £15,600 a £31,999 a 54 y cant o ymatebwyr o gartrefi ag incwm o dros £31,200. Gwelwyd patrwm tebyg yn 2004.

Roedd ymatebwyr o gartrefi Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o gymryd rhan yng ngweithgareddau'r sefydliadau a restrwyd na chartrefi lle nad oedd neb yn medru'r Gymraeg. Roedd 55 y cant o ymatebwyr o gartrefi Cymraeg yn cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd o gymharu â 43 y cant o ymatebwyr o gartrefi lle'r oedd rhai o aelodau'r cartref yn siarad Cymraeg a 39 y cant o ymatebwyr o gartrefi lle nad oedd neb yn medru'r Gymraeg.

Siart 7.3: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl daliadaeth a blwyddyn

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys yn y siart.

Mae siart 7.3 yn dangos bod ymatebwyr sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo iddynt yn fwy tebygol o gymryd rhan yng ngweithgareddau sefydliadau na phobl yn rhentu'n breifat neu'n byw mewn tai

cymdeithasol. Mae siart 7.3 hefyd yn dangos bod hyn hefyd yn wir yn 2004. Serch hynny, tra bod cyfrannau'r ymatebwyr a oedd yn cymryd rhan yn rheolaidd wedi lleihau rhwng 2004 a 2008 ymhlith pobl sy'n berchen ar eu cartrefi a phobl mewn tai cymdeithasol; roedd y gyfran yn uwch ymhlith pobl a oedd yn rhentu'n breifat.

Mae yna berthynas eithaf cryf rhwng dosbarth cymdeithasol yr ymatebwyr a'r cyfraddau cymryd rhan. Mae siart 7.4 yn dangos bod ymatebwyr o ddosbarthiadau cymdeithasol uwch yn fwy tebygol na phobl o ddosbarthiadau cymdeithasol is o gymryd rhan yng ngweithgareddau un o'r sefydliadau a restrwyd. Roedd 61 y cant o ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' yn cymryd rhan yng ngweithgareddau o leiaf un o'r sefydliadau a restrwyd o gymharu â 30 y cant yn unig o ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn 'galwedigaethau cyffredin'.

Siart 7.4: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl dosbarth cymdeithasol

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn ac ymatebwyr o ddosbarth economaidd cymdeithasol cenedlaethol 'anhysbys' neu 'ddi-ddosbarth' wedi'u cynnwys yn y siart.

Roedd ymatebwyr a oedd wedi ennill cymwysterau uwch yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau un o'r sefydliadau a restrwyd yn rheolaidd. Roedd 58 y cant o ymatebwyr a oedd wedi ennill cymwysterau lefel 4 i 8 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'n rheolaidd o gymharu â 35 y cant o ymatebwyr a oedd wedi ennill cymwysterau is na lefel 2 y fframwaith. Gweler y 'termau a'r diffiniadau' am fanylion y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys ar lefelau amrywiol y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

Roedd ymatebwyr o ardaloedd mwy gwledig hefyd yn fwy tebygol o gymryd rhan yng ngweithgareddau un o'r sefydliadau a restrwyd na phobl o ardaloedd trefol.

Siart 7.5: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn o leiaf un gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl dosbarthiad trefol a gwledig

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys yn y siart.

Mae siart 7.5 uchod yn dangos bod 39 y cant o ymatebwyr o ardaloedd trefol yn cymryd rhan mewn o leiaf un o'r gweithgareddau o gymharu â 53 y cant o ymatebwyr o ardaloedd gwledig a ddisgrifiwyd fel 'pentrefannau a chartrefi ynysig'.

Mathau o sefydliadau y cymerir rhan ynddynt

Yn ogystal â'r gwahaniaethau yn y mathau o ymatebwyr a oedd yn cymryd rhan yn o leiaf un o'r gweithgareddau a restrwyd a'r ymatebwyr nad oeddent yn cymryd rhan ynddynt, roedd yna hefyd amrywiaeth o safbwynt y mathau o sefydliadau yr oedd y gwahanol ymatebwyr yn cymryd rhan ynddynt. Mae siart 7.6 isod yn dangos patrwm cymharol cyfranogiad yr ymatebwyr mewn mathau gwahanol o sefydliadau yn ôl rhyw.

Siart 7.6: Ymatebwyr a gymerodd ran mewn gwahanol fathau o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol, yn ôl y math o weithgaredd a rhyw

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys yn y siart.

O safbwynt cymryd rhan, y math mwyaf poblogaidd o sefydliad oedd 'clwb chwaraeon'. Roedd 14 y cant o'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn clwb chwaraeon. Yn ail oedd 'grwpiau crefyddol' gyda 10 y cant o'r ymatebwyr yn cymryd rhan ynddynt.

Yn ôl y disgwyl, roedd mwy o fenywod nag o ddynion yn cymryd rhan yng ngweithgareddau fel 'Merched y Wawr, 'Sefydliad y Merched' neu 'Townswomen's Guild' yn rheolaidd, ond roedd llawer mwy o fenywod hefyd yn cymryd rhan mewn 'grwpiau rhieni a phlant bach', 'cymdeithasau rhieni/ysgol' a 'sefydliadau pensiynwyr'.

Roedd mwy o ddynion nag o fenywod yn cymryd rhan mewn 'clybiau cymdeithasol/gweithwyr', 'clybiau chwaraeon' a 'sefydliadau proffesiynol'.

Roedd gwahanol fathau o sefydliadau a gweithgareddau yn denu ymatebwyr o wahanol oedrannau. Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o gymryd rhan mewn 'grwpiau crefyddol', 'gwasanaethau gwirfoddol', 'sefydliadau pensiynwyr' a 'chlybiau cymdeithasol/gweithwyr'. Gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf amlwg rhwng pobl ifanc a phobl hŷn yn y categori 'grwpiau crefyddol', gyda 3 y cant yn unig o ymatebwyr 35 oed ac iau yn cymryd rhan mewn grŵp crefyddol o gymharu â 18 y cant o ymatebwyr dros 65 oed. Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol nag ymatebwyr hŷn o gymryd rhan mewn 'clybiau chwaraeon' neu 'grwpiau rhieni a phlant bach'.

Roedd y rhan fwyaf o'r mathau gwahanol o sefydliadau yn dilyn tueddiad tebyg o safbwynt cymryd rhan ag yr un y ceir uchod. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r mathau gwahanol o sefydliadau, roedd y cyfraddau cymryd rhan yn uwch ymhlith ymatebwyr Cymraeg eu hiaith, pobl o gartrefi a oedd yn eiddo iddynt, pobl mewn ardaloedd 'trefol', pobl o gartrefi ag incwm uwch, pobl o ddosbarth cymdeithasol uwch ac â chymwysterau gwell. Serch hynny, gwelwyd bod ymatebwyr a oedd yn cymryd rhan mewn 'clybiau cymdeithasol/gweithwyr' yn dilyn tueddiad i'r gwrthwyneb. Er enghraifft, roedd 9 y cant o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gweithio mewn 'galwedigaethau cyffredin' yn cymryd rhan

yng ngweithgareddau 'clwb cymdeithasol/neu weithwyr' o gymharu â 6 y cant o ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn 'galwedigaethau rheoli neu broffesiynol uwch'. Roedd 7 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau 'clwb cymdeithasol/gweithwyr' o gymharu â 4 y cant o ymatebwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd a ddiffiniwyd fel 'pentrefannau a chartrefi ynysig'.

Roedd ymatebwyr o gartrefi lle'r roedd pawb yn siarad Cymraeg yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn 'grŵp crefyddol neu sefydliad eglwysig' na phobl o gartrefi lle nad oedd neb, neu dim ond rhai o'r aelodau'n siarad Cymraeg. Roedd 20 y cant o ymatebwyr o gartrefi Cymraeg yn cymryd rhan mewn 'grŵp crefyddol neu sefydliad eglwysig', o gymharu â 8 y cant o ymatebwyr o gartrefi lle'r oedd rhai o aelodau'r cartref yn siarad Cymraeg a 9 y cant o ymatebwyr o gartrefi lle nad oedd neb yn siarad Cymraeg.

Pobl sy'n aelodau o sefydliadau ar hyn o bryd

Fel rhan o arolwg Byw yng Nghymru gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent yn aelodau ar hyn o bryd o unrhyw un o'r sefydliadau ar y cerdyn. Dywedodd 40 y cant o ymatebwyr eu bod yn aelodau o o leiaf un o'r sefydliadau a restrwyd, tra bod 14 y cant yn aelodau o fwy nag un ohonynt. Yn 2004, dywedodd 41 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn aelodau o o leiaf un o'r sefydliadau a restrwyd, ac roedd 15 y cant yn aelodau o fwy nag un ohonynt.

Roedd y dynion a oedd yn ymateb ychydig yn fwy tebygol o fod yn aelodau o sefydliadau na'r menywod a oedd yn ymateb. Dywedodd 42 y cant o ddynion eu bod yn aelodau o o leiaf un sefydliad o gymharu â 38 y cant o fenywod. Mae siart 7.7 yn dangos patrymau aelodaeth yr ymatebwyr gwryw a benyw yn ôl eu hoed.

Siart 7.7: Ymatebwyr a oedd yn aelodau o o leiaf un sefydliad, yn ôl oedran a rhyw

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi ymuno yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys yn y siart.

Roedd cyfran uwch o ddynion yn aelodau o sefydliadau ym mhob categori oed hyd at 65 oed. Fel y gwelir yn siart 7.8 isod, roedd dynion a oedd yn cymryd rhan mewn sefydliad yn debygol iawn o fod yn aelod o sefydliad hefyd (er nad yr un sefydliad o reidrwydd). Fodd bynnag, roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o ymuno yng ngweithgareddau sefydliad heb fod yn aelod ohono. Roedd hyn hefyd yn wir yn 2004. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r gwahanol fathau o sefydliadau y mae dynion a menywod yn cymryd rhan ynddynt.

Siart 7.8: Ymatebwyr a oedd yn aelodau o o leiaf un sefydliad neu a gymerodd ran ynddo, yn ôl rhyw a blwyddyn

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn neu'n aelodau ohonynt wedi'u cynnwys yn y siart.

Gwelwyd yr un tueddiadau o safbwynt cyfraddau cymryd rhan yr ymatebwyr a oedd yn aelodau o'r sefydliadau. Roedd ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi Cymraeg a oedd yn eiddo iddynt mewn ardaloedd trefol, gydag incwm cartref uwch a chymwysterau gwell yn fwy tebygol na phobl eraill o fod yn aelodau o sefydliadau.

Yn siart 7.9 gwelir cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r sefydliadau a restrwyd o gymharu â'r ymatebwyr a oedd yn aelodau o'r sefydliadau yn ôl incwm y cartref. Mae'n debyg bod yna fwy o gysylltiad rhwng aelodaeth yr ymatebwyr â'r cyfraddau cymryd rhan wrth i incwm y teulu gynyddu.

Siart 7.9: Ymatebwyr a oedd yn aelodau o o leiaf un sefydliad neu a gymerodd ran ynddo, yn ôl incwm y cartref

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi cyfrannu yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn neu'n aelodau ohonynt wedi'u cynnwys yn y siart.

Y mathau o sefydliadau yr oedd ymatebwyr yn aelodau ohonynt

Roedd gan y mwyafrif o'r mathau o sefydliadau gyfraddau cymryd rhan ychydig yn uwch na'r cyfraddau aelodaeth. Mae siart 7.10 yn dangos y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau aelodaeth a'r cyfraddau cymryd rhan ar gyfer y mathau amrywiol o sefydliadau.

Roedd cyfraddau cymryd rhan mewn sefydliadau gwirfoddol a oedd yn ymwneud â phlant ychydig yn uwch na'u cyfraddau aelodaeth. Roedd hyn yn cynnwys 'grwpiau rhieni a phlant bach' (y gyfradd cymryd rhan 59 y cant yn uwch na'r gyfradd aelodaeth), 'Sefydliadau'r Sgowtiaid/Geidiaid' (51 y cant yn uwch), 'cymdeithasau rhieni/ysgol' (42 y cant yn uwch). Roedd menywod yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y mathau hyn o sefydliadau. Gallai hyn egluro'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau aelodaeth a chymryd rhan dynion a menywod.

Siart 7.10: Ymatebwyr a oedd yn aelodau o o leiaf un sefydliad neu a gymerodd ran ynddo, yn ôl y mathau o sefydliadau

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi cyfrannu yng ngweithgareddau'r sefydliadau hyn neu'n aelodau ohonynt wedi'u cynnwys yn y siart.

Y grwpiau a oedd â chyfraddau cymryd rhan is na'u cyfraddau aelodaeth oedd y 'sefydliadau proffesiynol' (17 y cant yn is), 'grwpiau amgylcheddol' (3 y cant yn is) a 'chlybiau cymdeithasol/gweithwyr' (2 y cant yn is). Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o gymryd rhan yn y mathau hyn o sefydliadau ac, unwaith eto, gallai hyn egluro'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau aelodaeth a chymryd rhan dynion a menywod.

Cwestiynau am gymryd rhan yng ngweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol

Dyma'r cwestiynau am gymryd rhan yng ngweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol a ofynnwyd yn yr arolwg Byw yng Nghymru:

- *Ydych chi'n ymuno yng ngweithgareddau unrhyw rai o'r sefydliadau hyn yn rheolaidd?*
- *Ydych chi'n aelod o unrhyw rai o'r sefydliadau hyn ar hyn o bryd?*

[] Grŵp amgylcheddol
[] Cymdeithas Rieni / Ysgol
[] Grŵp tenantiaid/preswylwyr neu Gynllun Gwarchod Cymdogaeth
[] Grŵp crefyddol neu sefydliad eglwysig
[] Grŵp gwasanaethau gwirfoddol
[] Grŵp/sefydliad pensiynwyr
[] Sefydliad y Sgowtiaid/Geidiaid
[] Sefydliad proffesiynol
[] Grŵp cymunedol neu ddinesig arall (nodwch)
[] Clwb cymdeithasol/Clwb gweithwyr
[] Clwb chwaraeon
[] Grwpiau celf (e.e. drama, cerdd, celf neu grefft)
[] Merched y Wawr/Sefydliad y Merched/ Townswomen's Guild
[] Grŵp rhieni a phlant bach
[] Grŵp neu sefydliad arall (nodwch)
[] Dim un o'r rhain
[] Ddim yn gwybod

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddiad o ddata Byw yng Nghymru 2008 ar y gweithgareddau amgylcheddol a wneir gan aelwydydd.

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr am weithgareddau roedd eu haelwydydd wedi'u gwneud dros y 12 mis diwethaf i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, e.e. inswleiddio eu cartref, defnyddio bylbiau golau ynni effeithlon ac ati. Wedyn gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd wedi'u hysgogi i wneud y gweithgareddau hyn.

Mae union eiriad y cwestiynau a ofynnwyd am weithgareddau amgylcheddol yn yr arolwg Byw yng Nghymru i'w gweld ar ddiwedd y bennod hon.

Mae'r cwestiynau am y gweithgareddau amgylcheddol a wnaed gan ymatebwyr a'u haelwydydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg Byw yng Nghymru ers 2005, ond newidiodd y cwestiynau yn 2008 gan wneud cymariaethau'n anodd. Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn 2008.

Gweithgareddau amgylcheddol

Dangosodd holwyr Byw yng Nghymru restr o saith gweithgaredd amgylcheddol i'r ymatebwyr. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa rai o'r gweithgareddau a restrwyd roedd eu haelwydydd wedi'u gwneud yn y 12 mis diwethaf: caent ddewis mwy nag un gweithgaredd amgylcheddol.

Mae siart 8.1 yn dangos yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin a wnaed gan ymatebwyr a'u haelwydydd yn y 12 mis diwethaf oedd 'defnyddio cynnyrch neu dechnoleg newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, e.e. bylbiau golau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, mesuryddion arddangos defnydd o ynni', gyda 43 y cant o aelwydydd yn gwneud hynny.

Yr ail weithgaredd mwyaf cyffredin oedd 'prynu nwyddau'n fwriadol am eu bod wedi'u cynhyrchu'n lleol, naill ai i gefnogi busnesau lleol neu i leihau 'milltiroedd bwyd'', gyda 31 y cant o gartrefi'n gwneud hyn. Er hynny, cyfaddefodd 38 y cant o'r holl ymatebwyr nad oedd eu haelwydydd wedi gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau a restrwyd.

Siart 8.1: Gweithgareddau amgylcheddol a wnaed gan aelwydydd yn y 12 mis diwethaf

Nid yw'r canrannau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un gweithgaredd amgylcheddol.

Gwnaeth 62 y cant o aelwydydd o leiaf un o'r gweithgareddau a restrwyd. Gwnaeth 31 y cant o leiaf 2 o'r gweithgareddau a restrwyd a gwnaeth 11 y cant o leiaf 3 o'r gweithgareddau a restrwyd.

Roedd y gyfran o aelwydydd a wnaeth o leiaf un gweithgaredd amgylcheddol i'w gweld yn amrywio yn ôl oedran y Person a Gynrychiolai'r Aelwyd (HRP, gweler 'termau a diffiniadau').

Mae siart 8.2 yn dangos sut roedd y gyfran o aelwydydd a wnaeth o leiaf un gweithgaredd amgylcheddol yn amrywio yn ôl oedran y HRP.

Siart 8.2: A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl oedran y HRP

Gwnaeth 70 y cant o aelwydydd â HRP yn ei 40au o leiaf un gweithgaredd amgylcheddol. Cymharir hyn â 53 y cant o aelwydydd â HRP 70 oed neu hŷn a 54 y cant o aelwydydd â HRP dan 30 oed.

Roedd cyfran yr aelwydydd a wnaeth weithgaredd amgylcheddol yn amrywio hefyd yn ôl math o aelwyd. Dim ond 48 y cant o aelwydydd yn cynnwys un pensiynwr/wraig a 54 y cant o aelwydydd yn cynnwys un person nad oedd yn bensiynwr/wraig a wnaeth weithgaredd amgylcheddol, lle gwnaed hynny gan 70 y cant o aelwydydd a gynhwysai ddau oedolyn heb fod yn bensiynwyr, gyda phlant neu heb blant.

Roedd 'aelwydydd sy'n gweithio' hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol a restrwyd, gyda 69 y cant o 'aelwydydd sy'n gweithio' yn gwneud gweithgaredd amgylcheddol, o gymharu â 54 y cant o 'aelwydydd heb waith'.

Roedd aelwydydd sy'n cynnwys o leiaf un person â salwch 'cyfyngus' hirdymor, anabledd neu berson methedig yn llai tebygol o fod wedi gwneud un o'r gweithgareddau amgylcheddol a restrwyd. Roedd 64 y cant o aelwydydd heb berson methedig, heb neb â salwch 'cyfyngus' hirdymor neu anabledd wedi gwneud gweithgaredd amgylcheddol, o gymharu â 58 y cant o'r rhai a oedd yn cynnwys o leiaf un person felly.

Mae siart 8.3 yn dangos fod cyfran uwch o aelwydydd perchen-feddiant wedi gwneud gweithgaredd amgylcheddol nag aelwydydd sy'n rhentu'n breifat neu rai sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

Siart 8.3: A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl deiliadaeth

Roedd 67 y cant o aelwydydd perchen-feddiant wedi gwneud o leiaf un gweithgaredd amgylcheddol, o gymharu â 52 y cant o aelwydydd sy'n rhentu'n breifat a 46 y cant o rai sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

Roedd y gwahaniaethau rhwng cyfrannau'r aelwydydd a wnaeth weithgaredd amgylcheddol penodol yn y tri math o ddeiliadaeth yn arbennig o amlwg yn achos y rhai a ddywedodd eu bod wedi 'prynu nwyddau'n fwriadol am eu bod wedi'u cynhyrchu'n lleol, naill i i gefnogi busnesau lleol neu i leihau milltiroedd bwyd'. Dywedodd 35 y cant o aelwydydd perchen-feddiant eu bod wedi gwneud hyn, o gymharu â 27 y cant o aelwydydd sy'n rhentu'n breifat a 14 y cant o aelwydydd mewn tai cymdeithasol.

Gofynnodd arolwg Byw yng Nghymru i ymatebwyr am eu lefel cymwysterau uchaf yn unig. Nid yr ymatebydd yw'r HRP o reidrwydd ac felly mae'n bosibl na fydd ganddynt ddylanwad cryf ar weithgareddau'r aelwyd. Mae'n ymddangos er hynny, po uchaf fo lefel cymwysterau'r ymatebydd y mwyaf tebygol yw hi fod yr aelwyd wedi gwneud un o'r gweithgareddau amgylcheddol a restrwyd.

Ar aelwydydd lle'r oedd yr ymatebydd wedi ennill cymwysterau lefel 4 i 8 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, roedd 76 y cant wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol. Cymharir hyn â 55 y cant o aelwydydd lle'r oedd ymatebwyr wedi ennill cymwysterau is na lefel 2 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Gweler y 'termau a'r diffiniadau '' am ddiffiniad o lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

Roedd yn ymddangos bod cydberthyniad cadarnhaol rhwng incwm aelwyd a'r gyfran o aelwydydd a wnaeth weithgaredd amgylcheddol. Roedd 81 y cant o aelwydydd a enillai £31,200 neu ragor yn gwneud gweithgaredd amgylcheddol o gymharu â 53 y cant o aelwydydd a enillai lai na £15,600. Dangosir hyn yn siart 8.4.

Siart 8.4: A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl incwm aelwydydd

Unwaith eto, mae'r gwahaniaethau rhwng cyfran yr aelwydydd a wnaeth weithgaredd amgylcheddol penodol ar wahanol lefelau incwm yn arbennig o amlwg yn achos y rhai a ddywedodd eu bod wedi 'prynu nwyddau'n fwriadol am eu bod wedi'u cynhyrchu'n lleol, naill ai i gefnogi busnesau lleol neu i leihau milltiroedd bwyd'. Dywedodd 47 y cant o aelwydydd sy'n ennill £31,200 neu ragor eu bod wedi gwneud hyn o gymharu â 33 y cant o aelwydydd sy'n ennill rhwng £15,600 a £31,199 a 21 y cant o aelwydydd sy'n ennill llai na £15,600.

Roedd cyfran yr aelwydydd a wnaeth o leiaf un gweithgaredd amgylcheddol yn amrywio yn ôl dosbarth cymdeithasol y HRP. Roedd aelwydydd â HRP yn y dosbarthiadau cymdeithasol uwch yn fwy tebygol o fod wedi gwneud o leiaf un gweithgaredd amgylcheddol o gymharu â rhai yn y dosbarthiadau cymdeithasol is. Fel y dangosir yn siart 8.5, roedd 75 y cant o aelwydydd â HRP a weithiai mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' wedi gwneud gweithgaredd amgylcheddol o gymharu â 51 y cant o aelwydydd â HRP a weithiai mewn 'swyddi cyffredin'.

Siart 8.5: A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl dosbarth cymdeithasol y HRP

Roedd y gwahaniaethau rhwng cyfran yr aelwydydd a wnaeth weithgaredd amgylcheddol penodol â HRP o wahanol ddosbarthiadau cymdeithasol yn fwyaf amlwg yn achos y rhai a ddywedodd eu bod wedi 'prynu nwyddau'n fwriadol am eu bod wedi'u cynhyrchu'n lleol, naill ai i gefnogi busnesau lleol neu i leihau milltiroedd bwyd'. Dywedodd 46 y cant o aelwydydd â HRP yn gweithio mewn 'swyddi rheoli neu broffesiynol uwch' eu bod wedi gwneud hyn o gymharu â 19 y cant o aelwydydd â HRP yn gweithio mewn 'swyddi cyffredin'.

Roedd y duedd yn amlwg hefyd i rai a ddywedodd eu bod wedi 'defnyddio cynnyrch neu dechnoleg newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon', gyda 54 y cant o aelwydydd â HRP yn gweithio mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' yn dweud eu bod wedi gwneud hyn o gymharu â 36 y cant o aelwydydd â HRP yn gweithio mewn 'swyddi cyffredin'.

Roedd cyfran yr aelwydydd a wnaeth o leiaf un gweithgaredd amgylcheddol yn amrywio yn ôl lleoliad yr aelwyd (gweler siart 8.6).

Siart 8.6: A yw aelwydydd wedi gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl dosbarthiad trefol neu wledig

Roedd 73 y cant o'r aelwydydd mewn ardaloedd gwledig wedi'u categoreiddio fel 'pentrefan ac anheddau ynysig' yn gwneud o leiaf un gweithgaredd amgylcheddol o gymharu â 60 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd wedi'u categoreiddio fel 'trefol'.

Unwaith eto mae'r gwahaniaethau rhwng cyfran yr aelwydydd a wnaeth weithgaredd amgylcheddol penodol mewn gwahanol leoliadau yn fwyaf amlwg yn achos y rhai a ddywedodd eu bod wedi 'prynu nwyddau'n fwriadol am eu bod wedi'u cynhyrchu'n lleol, naill ai i gefnogi busnesau lleol neu i leihau milltiroedd bwyd' gyda 53 y cant o'r aelwydydd mewn ardaloedd gwledig a gategoreiddiwyd fel 'pentrefan ac anheddau ynysig' yn dweud eu bod wedi gwneud hyn o gymharu â 25 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd 'trefol'.

Rhesymau dros eu gweithgareddau amgylcheddol

Wedyn gofynnwyd i ymatebwyr yr aelwydydd a wnaeth weithgaredd amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf ddewis o restr o un ar ddeg o resymau posibl pa ddau neu dri pheth a'u hysgogodd fwyaf i wneud y gweithgaredd. Gweler yr ymatebion i'r cwestiwn yn siart 8.7 isod.

Siart 8.7: Rhesymau a ysgogodd aelwydydd i wneud gweithgaredd amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf

Nid yw'r canrannau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael dewis hyd at dri rheswm. Cafodd 'ddim yn gwybod' ac 'arall' eu hepgor o'r siart hon.

Mae siart 8.7 yn dangos fod ychydig dros hanner yr holl aelwydydd a wnaeth weithgaredd amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf (51 y cant) wedi'u hysgogi i wneud hynny 'er mwyn arbed arian'. Dewisodd ychydig dan hanner (48 y cant) y rheswm 'er mwyn bod yn fwy 'gwyrdd''.

Roedd aelwydydd mewn tai awdurdod lleol yn fwy tebygol o fod wedi'u hysgogi gan 'weithredoedd neu ymgyrchoedd yr awdurdod lleol' (15 y cant) o gymharu â rhai oedd yn berchen ar eu cartref neu'n rhentu'n breifat (8 y cant).

Roedd ymatebwyr o aelwydydd lle mae'r HRP mewn dosbarthiad cymdeithasol uwch yn fwy tebygol o fod wedi rhoi rheswm fel 'Gweithredoedd neu ymgyrchoedd y llywodraeth', 'ymgyrchoedd teledu a phapurau newydd', 'straeon newyddion', 'argaeledd cynnyrch a gwasanaethau', 'er mwyn bod yn fwy 'gwyrdd'', a 'rhesymau moesol neu foesegol eraill' o gymharu ag ymatebwyr o aelwydydd lle'r oedd y HRP mewn un o'r dosbarthiadau cymdeithasol is. Er hynny, roedd tueddiad i'r gwrthwyneb bron i'r rheswm 'er mwyn arbed arian'. Dangosir hyn yn siart 8.8 isod.

Siart 8.8: Aelwydydd sy'n nodi 'er mwyn arbed arian' fel rheswm a'u hysgogodd i wneud gweithgaredd amgylcheddol yn y 12 mis diwethaf yn ôl dosbarthiad cymdeithasol y HRP

Mae 'ddim yn gwybod' neu 'arall' wedi'u hepgor o'r siart hon

Fel mae'r siart yn ei ddangos, 46 y cant o ymatebwyr o aelwydydd lle mae'r HRP yn gweithio mewn 'swyddi rheoli neu broffesiynol uwch' roddodd 'er mwyn arbed arian' fel rheswm o gymharu â 54 y cant o aelwydydd â HRP yn gweithio mewn 'swyddi cyffredin'.

Roedd aelwydydd mewn ardaloedd 'trefol' yn fwy tebygol o fod wedi dweud mai 'gweithredoedd neu ymgyrchoedd y llywodraeth' neu 'weithredoedd neu ymgyrchoedd yr awdurdod lleol' a'u hysgogodd yn bennaf i wneud eu gweithgaredd amgylcheddol nag aelwydydd mewn ardaloedd mwy 'gwledig'. Er bod pobl mewn ardaloedd gwledig a gategoreiddiwyd fel 'pentrefan neu anheddau ynysig' yn fwy tebygol o fod wedi dweud mai 'argaeledd cynnyrch a gwasanaethau' a 'rhesymau moesol neu foesegol eraill' a'u hysgogodd yn bennaf.

Siart 8.9: Aelwydydd sy'n dweud eu bod bob amser wedi gwneud gweithgaredd amgylcheddol yn ôl dosbarthiad trefol neu wledig

Fel y dangosir yn siart 8.9 uchod, roedd aelwydydd mewn ardaloedd gwledig a gategoreiddiwyd fel 'pentrefan ac anheddau ynysig' hefyd yn fwy tebygol o beidio â bod angen eu hysgogi gyda 21 y cant yn dweud eu bod 'bob amser wedi gwneud' o gymharu â 12 y cant o bobl mewn ardaloedd 'trefol'.

Cwestiynau'r amgylchedd

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd am yr amgylchedd yn arolwg Byw yng Nghymru 2008:

- *Pa rai o'r gweithgareddau a restrir ar y cerdyn mae eich aelwyd wedi'u gwneud yn y 12 mis diwethaf?*

  [] Gwario arian ar inswleiddio'r cartref
  [] Gosod system wresogi newydd, sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon
  [] Defnyddio cynnyrch neu dechnoleg newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon (e.e. bylbiau golau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, mesuryddion arddangos defnydd o ynni
  [] Gosod rhyw fath o ynni adnewyddadwy e.e. paneli solar (cynhesu dŵr ffotofoltäig neu solar), tyrbin micro-wynt, pwmp codi gwres o'r ddaear
  [] Prynu nwyddau'n fwriadol am eu bod wedi'u cynhyrchu'n lleol, naill ai i gefnogi busnesau lleol neu i leihau 'milltiroedd bwyd'
  [] Yn fwriadol wedi mynd ar lai o deithiau awyr
  [] Prynu cerbyd rhatach ar danwydd
  [] Dim o'r rhain

- *Wrth feddwl am y gweithgareddau a wnaethoch, pa ddau neu dri pheth yn bennaf a'ch ysgogodd i wneud y pethau hyn yn y 12 mis diwethaf?*

  [] Gweithredoedd neu ymgyrchoedd y llywodraeth
  [] Gweithredoedd neu ymgyrchoedd yr awdurdod lleol
  [] Ymgyrchoedd teledu a phapurau newydd
  [] Straeon newyddion
  [] Gweithredoedd ffrindiau a theulu
  [] Costau cynnyrch a gwasanaethau
  [] Argaeledd cynnyrch a gwasanaethau
  [] Er mwyn bod yn fwy 'gwyrdd'
  [] Er mwyn arbed arian
  [] Rydw i bob amser wedi'i wneud
  [] Rhesymau moesol neu foesegol eraill
  [] Arall (nodwch beth)
  [] Ddim yn gwybod

Cyflwyniad

Mae'r arolwg Byw yng Nghymru yn casglu data ynglŷn ag a oedd ymatebwyr wedi profi unrhyw achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf. Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr nodi beth, yn eu barn nhw, oedd y rheswm am y gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, a dweud a wnaethant adrodd am y digwyddiad.

Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau arolwg 2008, ond mae'r cwestiynau hyn wedi bod yn rhan o'r arolwg Byw yng Nghymru ers 2005. Felly bydd modd edrych ar dueddiadau rhwng 2005 a 2008.

Ni fydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd neu gredoau crefyddol oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly'n annibynadwy yn ystadegol.

Mae cyfieithiad o'r cwestiynau a ofynnwyd yn adran gwahaniaethu yr arolwg Byw yng Nghymru ar ddiwedd y bennod hon.

Profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth

Ar y cyfan, roedd 10 y cant o ymatebwyr wedi dioddef rhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ffigur hwn wedi aros yr un fath ers i'r cwestiwn gael ei ofyn am y tro cyntaf yn 2005. (Dim ond ar gyfer un arolwg Byw yng Nghymru y bydd ymatebwr yn cael ei ddewis felly ni fydd unrhyw achos yn cael ei grybwyll fwy nag unwaith mewn gwahanol flynyddoedd).

Roedd ymatebwyr a oedd wedi'u cofrestru'n ddi-waith ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi profi achos (22 y cant), o gymharu ag ymatebwyr sydd naill ai'n gweithio'n llawn amser neu'n rhan-amser (11 y cant).

Dengys siart 9.1 fod achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn lleihau gydag oedran. Mae'r duedd hon hefyd wedi bod yn amlwg ers 2005. Yn 2008, roedd ymatebwyr ifanc 16-29 oed ddwywaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr hŷn 60-69 oed, a thair gwaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr 70 oed a throsodd, o ddioddef achos o'r fath.

Siart 9.1: Ymatebwyr sydd wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf, yn ôl oedran

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi profi achos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf wedi'u cynnwys yn y siart.

Mae'r ffaith fod ymatebwyr iau yn fwy tebygol o fod wedi profi achos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn dod yn fwy amlwg wrth ddadansoddi yn ôl yr ymatebwyr hynny sydd ag anabledd neu salwch hirdymor cyfyngus.

Roedd bron i draean o'r ymatebwyr 16-39 oed sydd ag anabledd neu salwch hirdymor cyfyngus wedi profi achos o'r fath.

Roedd 18 y cant o'r ymatebwyr 40-59 oed sydd ag anabledd neu salwch hirdymor cyfyngus hefyd wedi dioddef achos, o gymharu â 9 y cant o'r ymatebwyr 40-59 oed heb anabledd.

Rhesymau dros wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth

Gofynnwyd i ymatebwyr beth, yn eu barn nhw, oedd y rheswm eu bod wedi profi rhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf.

Ni ddangoswyd rhestr o resymau i ymatebwyr; roedd yn rhaid iddynt roi'r rheswm am yr achos o wahaniaethu yn eu tyb nhw heb anogaeth. Cyfrifoldeb y sawl oedd yn cyfweld oedd rhoi'r ymateb yn un o'r rhesymau a ddewiswyd ymlaen llaw. Gallai ymatebwyr roi mwy nag un rheswm. Gellir gweld y rhestr o resymau a roddwyd i'r sawl oedd yn cyfweld ar ddiwedd y bennod hon.

Siart 9.2: O'r ymatebwyr hynny a oedd wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf, rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr

Roedd ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un rheswm.
Nid yw rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr a oedd â chyfrifiad sylfaen annibynadwy yn ystadegol wedi'u cynnwys yn y siart.

Rhoddodd ychydig dros un ym mhob pum ymatebwr fwy nag un rheswm wrth ateb y cwestiwn hwn. Gallai fod sawl rheswm am hyn; bod rhai ymatebwyr wedi profi mwy nag un achos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth dros y pum mlynedd diwethaf, neu fod rhai ymatebwyr o'r farn fod sawl rheswm am yr un achos a brofwyd ganddynt.

Mae siart 9.2 yn dangos mai 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' (20 y cant) oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymatebwyr am eu hachos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth dros y pum mlynedd diwethaf. Ni chafodd y sawl oedd yn cyfweld ddiffiniad o'r mathau o resymau a fyddai'n cyfrif fel 'ymddygiad gwrthgymdeithasol'; roedd yn rhaid iddynt ddefnyddio'u crebwyll eu hunain. Dyma sydd wedi digwydd ym mhob arolwg Byw yng Nghymru ers 2004.

2008 oedd y flwyddyn gyntaf i ymatebwyr roi 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' fel y rheswm mwyaf cyffredin am eu profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.

Mae siart 9.3 yn dangos y newid yn y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymatebwyr ers 2005. Gwnaeth canran yr ymatebwyr a roddodd 'hil' fel y rheswm am eu hachos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth leihau o 25 y cant yn 2005 i 15 y cant yn 2008.

Siart 9.3: Ymatebwyr a roddodd 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' neu 'hil' fel rheswm am eu profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, yn ôl blwyddyn

Yn naturiol, rhoddodd cyfran uwch o'r ymatebwyr hynny ag anabledd neu salwch hirdymor cyfyngus 'anabledd' fel y rheswm am eu profiad o gymharu ag ymatebwyr heb anabledd. Fodd bynnag, 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' a 'problem gyda chymydog/anghydfod cyffredin' oedd y ddau reswm mwyaf cyffredin a roddwyd am achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth gan yr ymatebwyr hynny ag anabledd neu salwch hirdymor cyfyngus.

Yn 2008, rhoddodd 11 y cant o ymatebwyr 'cysylltiedig â gwaith' fel y rheswm am eu hachos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, sef dwywaith y nifer a roddodd y rheswm hwnnw pan ofynnwyd y cwestiwn am y tro cyntaf yn 2005.

Er hynny, rhaid nodi mai 2008 oedd y flwyddyn gyntaf i 'cysylltiedig â gwaith' gael ei gynnwys fel opsiwn ar y rhestr o resymau a roddwyd i'r sawl sy'n cyfweld er mwyn iddynt roi atebion yr ymatebwyr mewn categori. Mae'n bosibl felly bod y sawl oedd yn cyfweld wedi rhoi mwy o'r rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr yn y categori 'cysylltiedig â gwaith' oherwydd hyn.

Adrodd am achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth

Gofynnwyd wedyn i ymatebwyr a oedd wedi dioddef rhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf a oeddent wedi adrodd am y digwyddiad.

Yn 2008, roedd 57 y cant o ymatebwyr wedi adrodd am eu profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Dengys siart 9.4 fod hwn yn ganran llawer uwch na welwyd mewn unrhyw arolwg Byw yng Nghymru arall. Ar gyfartaledd, cafodd llai na hanner yr holl ddigwyddiadau eu hadrodd bob blwyddyn rhwng 2005 a 2007.

Siart 9.4: Ymatebwyr sydd wedi adrodd am eu profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf yn ôl blwyddyn

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi adrodd am eu profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf wedi'u cynnwys yn y siart.

Yn ogystal â bod yn fwy tebygol o fod wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, roedd ymatebwyr iau hefyd yn fwy tebygol o adrodd am y digwyddiad o gymharu â phobl hŷn.

O ddadansoddi'r data yn ôl oed a rhyw, ymatebwyr benywaidd rhwng 16 a 29 oed oedd fwyaf tebygol o adrodd am eu profiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, gyda dwy ran o dair ohonynt yn gwneud hynny. Ymatebwyr gwrywaidd rhwng 30 a 44 oed oedd y lleiaf tebygol i roi gwybod am ddigwyddiad, gyda dim ond 47 y cant yn gwneud hynny.

Dim ond ychydig yn fwy tebygol o adrodd am brofiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yr oedd ymatebwyr ag anabledd neu salwch hirdymor cyfyngus (60 y cant) o gymharu ag ymatebwyr heb anabledd (55 y cant).

Adrodd am ddigwyddiadau yn ôl y rheswm am y gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth

Bu'n anodd dadansoddi'r ystadegau ar adrodd am ddigwyddiadau o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn ôl rheswm oherwydd bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un rheswm ar un llaw, ond bod y cwestiwn ar y llaw arall yn gofyn iddynt oeddent wedi adrodd am 'unrhyw' ddigwyddiad. Felly, aethpwyd ati i ddadansoddi gan ddefnyddio'r ymatebwyr a roddodd un rheswm yn unig am eu profiad. Roedd hyn yn sicrhau bod modd gweld pa resymau gafodd eu hadrodd yn benodol, a pha rai na chawsant eu hadrodd.

Fel y soniwyd ynghynt, dim ond un rheswm am eu hachos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth a roddwyd gan 80 y cant o ymatebwyr, felly roedd y nifer sylfaen yn ddigon uchel i wneud dadansoddiad addas.

Yr ymatebwyr hynny a roddodd 'problem gyda chymydog/anghydfod cyffredin' fel y rheswm am eu hachos oedd mwyaf tebygol o fod wedi adrodd am y digwyddiad, gydag 83 y cant yn gwneud hynny.

Cafodd 'ymddygiad gwrthgymdeithasol', sef y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymatebwyr am eu hachos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, ei adrodd gan ychydig dros dri chwarter yr ymatebwyr.

O'r ymatebwyr a roddodd 'hil' yn unig fel y rheswm am eu hachos o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth dros y pum mlynedd diwethaf, ni wnaeth 78 y cant adrodd am y digwyddiad. Mae hwn yn ffigur hynod uchel.

Cwestiynau gwahaniaethu

Dyma'r cwestiynau am wahaniaethu a ofynnwyd yn yr arolwg Byw yng Nghymru:

- *Ydych chi wedi dioddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf?*

- *Beth, yn eich barn chi, oedd y rheswm dros y gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth?*

  [] Rhyw
  [] Oedran
  [] Hil
  [] Crefydd
  [] Anabledd
  [] Lliw
  [] Ble rwy'n byw/Cod post
  [] Iaith
  [] Cyfeiriadedd rhywiol
  [] Cysylltiedig ag alcohol/cyffuriau
  [] Ymddygiad gwrthgymdeithasol
  [] Cenfigen
  [] Problem gyda chymydog/anghydfod cyffredin
  [] Anwybodaeth
  [] Arall

- *Ydych chi wedi adrodd am unrhyw ddigwyddiadau o'r fath yn y pum mlynedd diwethaf?*

Cyflwyniad

Yn 2008, gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ar gyfres o ddatganiadau am yr heriau sy'n wynebu pobl anabl sy'n byw yng Nghymru. Cwestiynau newydd yw'r rhain a dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu gofyn yn yr arolwg Byw yng Nghymru, felly nid oes data blaenorol at ddibenion cymharu.

Ni fydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd neu gredoau crefyddol ymatebwyr oherwydd bod y niferoedd yn rhy fach i roi ystadegau dibynadwy. Gellir gweld y cwestiynau a ofynnwyd yn yr adran gwahaniaethu o'r arolwg Byw yng Nghymru ar ddiwedd y bennod.

Faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru?

Roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn i ymatebwyr faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru yn eu barn nhw.

Siart 10.1: Barn ymatebwyr ar faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod 'faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru' wedi'u cynnwys yn y siart.

'Ddim yn gwybod' oedd ateb 13 y cant o'r ymatebwyr. Nid yw'r atebion 'ddim yn gwybod' wedi'u cynnwys yng ngweddill y dadansoddiad ar gyfer y cwestiwn hwn, felly dim ond ymatebwyr a fynegodd farn sydd wedi cael eu dadansoddi ymhellach ar sail y newidynnau cydraddoldeb gwahanol.

Fel y mae siart 10.1 yn ei ddangos, mae 47 y cant o ymatebwyr o'r farn bod 'ychydig' o ragfarn yn erbyn pobl anabl yng Nghymru, tra bod traean o'r farn nad oes unrhyw ragfarn yn erbyn pobl anabl yng Nghymru.

Mae siart 10.2 yn ystyried a oes unrhyw wahaniaeth yn y farn ar faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl yng Nghymru rhwng yr ymatebwyr sydd â rhyw fath o anabledd a'r ymatebwyr sydd heb unrhyw anabledd.

Siart 10.2: Barn ymatebwyr ar faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru, yn ôl lefel anabledd yr ymatebwr

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod 'faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru' wedi'u cynnwys yn y siart.

Gellid ystyried bod safbwyntiau'r ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus yn gwrthddweud ei gilydd. Mae dwywaith cymaint o ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus o'r farn fod

'llawer iawn' o ragfarn yng Nghymru yn erbyn pobl anabl, o gymharu â'r ymatebwyr nad oes ganddynt anabledd.
Fodd bynnag, roedd ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus hefyd yn fwy tebygol o fod o'r farn nad oes unrhyw ragfarn o gwbl yn erbyn pobl anabl yng Nghymru, o gymharu â'r ymatebwyr heb anabledd.

Gellir gweld y gwahaniaeth barn mwyaf wrth ddadansoddi yn ôl oedran. Roedd ymatebwyr hŷn 70 oed a throsodd ddwywaith yn fwy tebygol o feddwl nad oes unrhyw ragfarn o gwbl yn erbyn pobl anabl yng Nghymru (51 y cant), o gymharu ag ymatebwyr ifanc rhwng 16 a 29 oed (24 y cant).

Mae tabl 10.1 isod yn dangos mai'r grŵp oedran â'r gyfran fwyaf o ymatebwyr â salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor yw'r rhai 70 oed a hŷn, a'r grŵp oedran â'r gyfran leiaf o ymatebwyr â salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor yw'r rhai rhwng 16 a 29 oed.

Tabl 10.1: Ymatebwyr gyda a heb salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor, yn ôl oedran

Grŵp oedran	Salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus	Salwch neu anabledd hirdymor heb fod yn gyfyngus	Dim anabledd	Cyfanswm
16-29	7%	3%	90%	100%
30-39	9%	3%	88%	100%
40-49	16%	2%	82%	100%
50-59	26%	5%	69%	100%
60-69	29%	8%	63%	100%
70 a throsodd	47%	8%	46%	100%

Cyfanswm wedi'i bwysoli: 1,268,400 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Mae'n sicr yn bosibl bod gan ymatebwyr 70 oed a hŷn salwch neu anabledd hirdymor sy'n fwy cyffredin mewn henaint, felly hwyrach nad yw'r ymatebwyr hynny wedi byw gyda'u salwch neu anabledd hirdymor gydol eu hoes.

Fodd bynnag, waeth pa mor hir y mae ymatebwyr wedi byw gyda'u salwch neu anabledd, hyna'n byd yw grŵp oedran yr ymatebwr, mwyaf tebygol yw hi y bydd gan ymatebwr o'r grŵp oedran hwnnw salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor. Felly, mae'n bosibl bod yr ymatebwyr hŷn mewn gwell sefyllfa i roi eu barn ar faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru, ac mae hanner yr ymatebwyr 70 oed a hŷn hynny o'r farn nad oes unrhyw ragfarn o gwbl yn erbyn pobl anabl yng Nghymru.

Yn yr un modd, gan nad oedd gan 90 y cant o'r ymatebwyr 16 i 29 oed anabledd, mae eu hymatebion yn awgrymu efallai eu bod yn meddwl bod mwy o ragfarn yn erbyn pobl anabl yng Nghymru nag sydd yna mewn gwirionedd. Mae'n bosibl bod gan yr ymatebwyr iau sydd â salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor salwch neu anabledd anghyffredin neu heb eu normaleiddio, ac felly efallai eu bod yn fwy ymwybodol eu bod yn wahanol ac yn sylwi mwy ar ragfarn yn eu herbyn.

Felly mae'n bosibl y bydd barn ymatebwyr â salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor yn amrywio yn dibynnu ar y math o/natur y salwch neu anabledd sydd gan yr ymatebwr, ac oedran yr ymatebwr.

A yw pobl anabl yng Nghymru yn gallu defnyddio cludiant yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl?

Gofynnwyd wedyn i ymatebwyr a oeddent o'r farn fod pobl anabl yng Nghymru yn gallu defnyddio cludiant (e.e. bysiau, tacsis, awyrennau a fferïau) yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl. Ateb 11 y cant o ymatebwyr oedd 'ddim yn gwybod'.

Fel y mae siart 10.3 yn dangos, o'r ymatebwyr hynny a fynegodd farn, roedd 30 y cant o'r farn bod pobl anabl yn gallu defnyddio cludiant yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl.

Nid oedd gwahaniaeth barn rhwng yr ymatebwyr hynny â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus â'r ymatebwyr hynny heb anabledd.

Siart 10.3: Barn ymatebwyr ynglŷn ag a yw pobl anabl yng Nghymru yn gallu defnyddio cludiant yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl

Nid yw ymatebwyr nad oeddent yn gwybod 'faint o bobl anabl yng Nghymru sy'n gallu defnyddio cludiant yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl' wedi'u cynnwys yn y siart.

Fel y soniwyd eisoes, yr ymatebwyr 70 oed a hŷn oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o fod ag anabledd cyfyngus, a theg fyddai tybio mai'r grŵp oedran hwn fyddai'n ei chael hi'n fwyaf anodd defnyddio cludiant, o ystyried oedran ac anabledd. Fodd bynnag, ni adlewyrchwyd hyn yn eu hymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini a fynegodd farn, yr ymatebwyr 70 oed a hŷn oedd fwyaf tebygol o feddwl bod pobl anabl yn gallu defnyddio cludiant yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau barn sylweddol rhwng unrhyw un o'r newidynnau cydraddoldeb eraill.

Heriau sy'n wynebu pobl anabl

Yn y gyfres nesaf o gwestiynau, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â rhestr o ddatganiadau am bobl anabl.

Ar gyfer y siartiau a'r dadansoddiad yn yr adran hon, mae 'cytuno' yn cynnwys y rhai a ddywedodd 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno', ac mae anghytuno yn cynnwys y rhai a ddywedodd 'anghytuno'n gryf' a 'tueddu i anghytuno'.

A yw pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau wrth chwilio am waith?

Fel y mae siart 10.4 yn ei ddangos, roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr a roddodd farn yn 'cytuno' â'r datganiad 'Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau wrth chwilio am waith'. Roedd y rhwystrau neu broblemau a awgrymwyd ar gyfer y datganiad hwn yn cynnwys pethau fel cael cynnig cyfweliad, neu gael cynnig swydd.

Siart 10.4: Agwedd ymatebwyr i'r datganiad 'Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau wrth chwilio am waith', yn ôl i ba raddau y cytunant

Nid yw ymatebwyr na roesant farn ar y datganiad wedi'u cynnwys yn y siart.

O ddadansoddi ymatebwyr yn ôl eu dosbarth dadansoddol NS-SEC (dosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol), gwelwyd gwahaniaeth barn rhwng yr ymatebwyr hynny a wnaeth 'anghytuno' â'r datganiad. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn gweithio mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' yn fwy tebygol o 'anghytuno' â'r datganiad o gymharu ag ymatebwyr sy'n gweithio mewn 'galwedigaethau rheolaidd neu led-rheolaidd'. Roedd hon yn thema gyffredinol; yr isaf y dosbarth dadansoddol NS-SEC, po leiaf tebygol oedd ymatebwyr o 'anghytuno' â'r datganiad.

Gallai hyn awgrymu bod ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn yn seiliedig ar eu profiad personol. Yn aml bydd pobl mewn dosbarth dadansoddol NS-SEC uwch wedi'u cyflogi gan gwmnïau mawr; gallai mwy o bwysau fod ar y rhain i gydymffurfio ag elfennau disgresiwn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, felly byddant yn cynnig gwell cyfle i bobl anabl, er enghraifft gwarantu cyfweliad.

Gallai ymwybyddiaeth hefyd gael dylanwad ar y gwahaniaeth o safbwynt barn; hwyrach bod ymatebwyr o ddosbarthiadau dadansoddol NS-SEC is yn llai ymwybodol o bolisi cyfle cyfartal eu cyflogwyr o gymharu ag ymatebwyr o ddosbarthiadau dadansoddol NS-SEC uwch.

Serch hynny, efallai y byddai'n fwy priodol nodi ymatebion y rheini sydd yn y sefyllfa orau i roi'u barn ar y datganiad hwn: yr ymatebwyr hynny sydd â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus. Mae eu hymatebion yn awgrymu bod pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau wrth geisio gwaith, er gwaethaf holl ymdrechion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a grëwyd i helpu pobl anabl; roedd 76 y cant o ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus yn 'cytuno' â'r datganiad.

A yw pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau yn y gweithle?

Roedd yr ymatebwyr o'r farn fod pobl anabl yn wynebu llai o rwystrau neu broblemau ar ôl iddynt ddechrau gweithio. Mae siart 10.5 yn dangos mai dim ond 60 y cant o ymatebwyr a fynegodd farn oedd yn 'cytuno' â'r datganiad 'Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau yn y gweithle'. Roedd y rhwystrau neu broblemau y cyfeiriwyd atynt yn y datganiad yn cynnwys pethau fel agwedd eu cyflogwr tuag atynt a diffyg cymorth.

Roedd hi'n ddiddorol gweld nad oedd yna wahaniaeth mawr na thueddiad clir wrth ddadansoddi barn yr ymatebwyr yn ôl eu dosbarthiadau dadansoddol NS-SEC. Gallai hyn olygu bod pobl anabl yn wynebu'r un rhwystrau a heriau ar ôl iddynt ddod o hyd i waith, waeth beth yw eu maes cyflogaeth.

Siart 10.5: Agwedd ymatebwyr i'r datganiad 'Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau yn y gweithle', yn ôl i ba raddau y cytunant

Nid yw ymatebwyr na roesant farn ar y datganiad wedi'u cynnwys yn y siart.

Unwaith eto mae'n werth ystyried barn yr ymatebwyr hynny sydd yn y sefyllfa orau i roi eu barn ar y datganiad; dywedodd 73 y cant o

ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus mewn swydd amser llawn eu bod yn 'cytuno' â'r datganiad. Mae hyn yn awgrymu bod pobl anabl yn wynebu rhwystrau a phroblemau yn y gweithle, a bod hyn yn fwy cyffredin nag y mae llawer o ymatebwyr yn ei ddisgwyl.

A yw plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn cael yr un cyfle ym myd addysg?

Mae'n debyg bod ymatebwyr yn credu nad pobl anabl hŷn sy'n chwilio am waith yn unig sy'n wynebu heriau yn eu bywydau. Maent hefyd o'r farn fod plant a phobl ifanc anabl yn wynebu anawsterau o safbwynt eu haddysg.

Yn siart 10.6 gellir gweld bod chwarter yr ymatebwyr a fynegodd farn yn 'anghytuno' â'r datganiad 'Mae plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn derbyn yr un cyfle ym myd addysg'. Y cyfleoedd a awgrymwyd yn y datganiad hwn oedd cymryd rhan yn y dosbarth a dilyn cyrsiau TGAU a Safon Uwch.

Siart 10.6: Agwedd ymatebwyr i'r datganiad 'Mae plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn cael yr un cyfle ym myd addysg', yn ôl i ba raddau y cytunant

Nid yw ymatebwyr na roesant farn ar y datganiad wedi'u cynnwys yn y siart.

Ar ôl dadansoddi barn yr ymatebwyr yn ôl y gwahanol newidynnau cydraddoldeb, dim ond un duedd gyffredinol ddaeth i'r amlwg. Fel y gwelwyd eisoes, mae barn yr ymatebwyr sydd yn y sefyllfa orau i roi eu barn ar y datganiad yn amlygu'r ffaith nad yw'r sefyllfa gystal i blant a phobl ifanc anabl ag yr awgryma'r ganran gyffredinol.

Mae siart 10.7 yn rhoi sylw i'r ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' â'r datganiad, yn ôl eu hoed ac a oedd anabledd gan yr ymatebydd. Er mwyn dadansoddi, rhoddwyd ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus yn yr un grŵp ag ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor heb fod yn gyfyngus. Drwy wneud hyn cafwyd digon o ddata ym mhob grŵp oedran i ganiatáu peth dadansoddi.

Siart 10.7: Ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' â'r datganiad 'Mae plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn cael yr un cyfle ym myd addysg', yn ôl oedran ac a oes anabledd gan yr ymatebydd ai peidio

Nid yw ymatebwyr na roesant farn ar y datganiad wedi'u cynnwys yn y siart.

Roedd barn yr ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor yn dra gwahanol i'r ymatebwyr nad oedd ganddynt anabledd; roedd yr ymatebwyr hynny â salwch neu anabledd hirdymor yn llawer mwy tebygol o 'anghytuno' â'r datganiad, waeth beth oedd eu hoedran.

Teg fyddai tybio bod gan yr ymatebwyr hynny â salwch neu anabledd hirdymor sydd rhwng 16 a 29 oed brofiad mwy diweddar o fod mewn addysg a'u bod yn fwy tebygol o wybod a yw plant anabl yn cael yr un cyfleoedd â phlant nad ydynt yn anabl ym myd addysg. O gofio bod 41 y cant o ymatebwyr y grŵp oedran hwn â salwch neu anabledd hirdymor yn 'anghytuno' â'r datganiad, yr awgrym yw bod plant a phobl ifanc anabl yn dioddef ac nad ydynt yn cael yr un cyfleoedd â phlant nad ydynt yn anabl.

Efallai bod ymatebwyr hŷn â salwch neu anabledd hirdymor yn llai tebygol o 'anghytuno' â'r datganiad o gymharu ag ymatebwyr iau â salwch neu anabledd hirdymor am eu bod yn hŷn ac wedi datblygu salwch neu anabledd yn hwyrach yn eu bywydau, ac na chawsant yr un problemau ym myd addysg pan roeddent yn iau o reidrwydd.

Ar y cyfan, a yw pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas?

Mae siart 10.8 yn dangos bod bron i draean o'r holl ymatebwyr a fynegodd farn yn 'anghytuno' â'r datganiad 'Ar y cyfan, mae pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas'. O'r pedwar datganiad, hwn yw'r un yr oedd ymatebwyr fwyaf tebygol o 'anghytuno' ag ef.

Wrth ddadansoddi'r holl wahanol newidynnau cydraddoldeb, does yna ddim gwahaniaeth amlwg o ran barn. Roedd tua hanner o bob math gwahanol o ymatebwyr yn 'cytuno' â'r datganiad. Oedran oedd yr unig newidyn lle y gwelwyd gwahaniaeth amlwg o ran barn.

Mae siart 10.9 yn rhoi sylw i'r ymatebwyr hynny a oedd yn 'anghytuno' â'r datganiad yn ôl grŵp oedran. Roedd pobl iau a phobl hŷn yn llai tebygol o 'anghytuno' â'r datganiad o gymharu ag ymatebwyr 'canol oed'.

Siart 10.8: Agwedd ymatebwyr i'r datganiad 'Ar y cyfan, mae pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas', yn ôl i ba raddau y cytunant

Nid yw ymatebwyr na roesant farn ar y datganiad wedi'u cynnwys yn y siart.

Siart 10.9: Ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' â'r datganiad 'Ar y cyfan, mae pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas', yn ôl oedran

Nid yw ymatebwyr na roesant farn ar y datganiad wedi'u cynnwys yn y siart.

Er bod ymatebwyr iau yn llawer mwy tebygol o feddwl nad yw plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn derbyn yr un cyfle ym myd addysg, a bod pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau yn y gweithle, roeddent yn fwy tebygol o feddwl bod pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas ar y cyfan.

Faint sy'n gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl?

Roedd y cwestiwn olaf yn yr adran hon yn gofyn i ymatebwyr roi eu barn am beth sy'n gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl. Doedd 14 y cant o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod' faint sy'n gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl. Mae siart 10.10 yn dangos barn yr ymatebwyr a roesant farn.

4 y cant yn unig o'r ymatebwyr ddywedodd nad oedd 'dim o gwbl' yn gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl.

Nid oedd yna amrywiaeth fawr rhwng barn ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus ac ymatebwyr heb anabledd.

Serch hynny, roedd ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus yn fwy tebygol o feddwl nad oedd 'dim o gwbl' yn gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad oes ganddynt anabledd (6 y cant) o gymharu ag ymatebwyr heb anabledd (4 y cant).

Dywedodd ychydig dros un o bob pump o ymatebwyr a fynegodd farn fod 'llawer' yn gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl heb anabledd.

Siart 10.10: Barn ymatebwyr ar faint sy'n gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl

Nid yw ymatebwyr na roesant farn ar y datganiad wedi'u cynnwys yn y siart.

Wrth ddadansoddi'r ymatebwyr a atebodd 'llawer' yn ôl dosbarthiad dadansoddol NS-SEC, gwelwyd tuedd annisgwyl. Ucha'n byd yw dosbarthiad dadansoddol NS-SEC yr ymatebwyr, mwyaf tebygol yr ydynt i feddwl bod 'llawer iawn' yn gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a roesant yr ateb hwn yn amrywio rhwng 29 y cant ymhlith ymatebwyr mewn galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch a 18 y cant ymhlith pobl â galwedigaethau cyffredin.

Byw yng Nghymru 2008

Cwestiynau - Barn ar bobl anabl

Dyma'r cwestiynau a oedd yn gofyn barn yr ymatebwyr ar ddatganiadau amrywiol am bobl anabl yng Nghymru:

- *Yn gyffredinol, faint o ragfarn sydd yn erbyn pobl anabl yng Nghymru yn eich barn chi?*

  [] Llawer iawn
  [] Eithaf tipyn
  [] Rhywfaint
  [] Dim o gwbl
  [] Ddim yn gwybod

- *Ydych chi'n credu y gall pobl anabl yng Nghymru ddefnyddio cludiant (e.e. bysiau, tacsis, awyrennau a fferïau) yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl?*

- *I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:*
  - *Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau wrth chwilio am waith (e.e. cael cynnig cyfweliad, cael cynnig swydd)*
  - *Ar y cyfan, mae pobl anabl yn cael eu trin yn deg mewn cymdeithas*
  - *Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau neu broblemau yn y gweithle (e.e. agwedd y cyflogwr tuag atynt, diffyg cymorth)*
  - *Mae plant a phobl ifanc anabl a rhai nad ydynt yn anabl yn derbyn yr un cyfle ym myd addysg (e.e. cymryd rhan yn y dosbarth, dilyn cyrsiau TGAU a Safon Uwch)*

    [] Cytuno'n gryf
    [] Tueddu i gytuno
    [] Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    [] Tueddu i anghytuno
    [] Anghytuno'n gryf
    [] Dim barn/Amherthnasol

- *Yn gyffredinol, faint sy'n gyffredin rhwng pobl anabl yng Nghymru a phobl nad ydynt yn anabl, yn eich barn chi?*

  [] Llawer iawn
  [] Eithaf tipyn
  [] Rhywfaint
  [] Dim o gwbl
  []Ddim yn gwybod

Cyflwyniad

Mae arolwg Byw yng Nghymru yn casglu data ar nifer o bynciau sy'n ymwneud ag economi aelwydydd. Gofynnwyd cwestiynau i berson cyswllt yr aelwyd (HRP) ynglŷn ag incwm unigolion, pa fath a faint o fudd-daliadau a hawlid a faint o gynilion oedd gan yr HRP a'u partner/priod. Wedyn gofynnwyd cwestiynau dilynol am gyfanswm incwm yr holl oedolion ar yr aelwyd.

Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau arolwg 2008 ond gofynnwyd cwestiynau am economi aelwydydd yn arolwg Byw yng Nghymru ers 2004, felly bydd modd edrych ar dueddiadau rhwng 2004 a 2008.

Mae union eiriad y cwestiynau a ofynnwyd am economi aelwydydd yn yr arolwg Byw yng Nghymru i'w weld ar ddiwedd y bennod.

Incwm unigolion

Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr roi incwm gros ar gyfer person cyswllt yr aelwyd (HRP) a'u partner/priod; er eglurder dywedwyd wrth yr ymatebwyr mai incwm gros oedd y cyflog a dderbynient cyn gwneud didyniadau fel treth, yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn a thanysgrifiadau undeb, ond ei fod yn cynnwys goramser, taliadau bonws, cil-dyrnau, comisiwn ac ad-daliadau treth. Dangoswyd rhestr o fandiau incwm (a phob un yn cyfateb i lythyren) i'r ymatebwyr ar gerdyn a dim ond dweud pa lythyren a gyfatebai i'w band incwm oedd angen yn hytrach na'r union swm.

Roedd 34 y cant o ymatebwyr naill ai'n gwrthod rhoi incwm yr HRP neu'r partner/priod neu ni wyddent beth ydoedd. O'r HRP a'u partneriaid/priod a roddodd eu hincwm, mae siart 11.1 yn dangos yr ymatebion a roddwyd. Fel rheol, yr HRP trwy ddiffiniad fydd y person sy'n ennill fwyaf ar yr aelwyd.

Siart 11.1: Cyfanswm incwm gros blynyddol yr HRP a phartner/priod

Mae'r HRP neu bartner/priod mewn aelwydydd lle nad oedd ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi eu hincwm wedi'u hepgor o'r siart

Fel y dangosir yn siart 11.1, enillai 38 y cant o'r HRPs a 54 y cant o bob partner/priod lai na £5,200 gros y flwyddyn. Dim ond 3 y cant o'r HRPs a 2 y cant o bob partner/priod a enillai £45,000 gros neu fwy y flwyddyn.

Dywedodd pedwar o bob pump (79 y cant) o HRPs a 76 y cant o bob partner/priod rhwng 16 a 24 oed fod eu hincwm gros blynyddol yn llai na £15,600. Mewn cymhariaeth, dywedodd hanner yr holl HRPs a phob partner/priod rhwng 25 oed ac oedran pensiwn (59 oed i fenywod, 64 oed i ddynion) fod eu hincwm gros blynyddol yn llai na £15,600. Mae'r darlun yn waeth yn achos HRPs a phartner/priod oedran pensiwn; dywedodd 83 y cant fod eu hincwm gros yn llai na £15,600.

Wrth gymharu incwm gros blynyddol HRPs a'u partner/priod yn ôl rhyw, gwelwyd gwahaniaethau ar ben uchaf a phen isaf y graddfeydd cyflog. Yn achos HRP gwrywaidd, dywedodd 44 y cant fod eu hincwm gros blynyddol yn llai na £15,600 o gymharu â 71 y cant o HRP benywaidd a ddywedodd hynny.

Siart 11.2: HRPs a'u partner/priod sydd â chyfanswm incwm gros blynyddol o lai na £15,600 yn ôl blwyddyn

Mae HRPs neu bartneriaid/ priod mewn aelwydydd lle nad oedd ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi eu hincwm wedi'u hepgor o'r siart

Mae siart 11.2 yn dangos fod y gwahaniaeth hwn wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd. Ar ben arall y raddfa, dywedodd 9 y cant o HRPs gwrywaidd fod eu hincwm gros blynyddol yn £40,000 neu drosodd, ond dim ond 2 y cant o HRPs benywaidd ddywedodd fod eu hincwm gros blynyddol ar y lefel yma. Gwelwyd yr un patrwm yn incwm gros blynyddol eu partner/priod, gyda 6 y cant o bartneriaid gwrywaidd/gwŷr a 3 y cant o bartneriaid benywaidd/gwragedd yn dweud fod eu hincwm gros blynyddol yn £40,000 neu drosodd.

Dywedodd bron i naw o bob deg HRP neu eu partner/priod a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol, 71 y cant o HRPs neu eu partner/priod a oedd yn byw mewn cartrefi ar rent preifat a 53 y cant o HRPs neu eu partner/priod a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain fod eu hincwm gros blynyddol yn llai na £15,600.

Mae siart 11.3 yn dangos fod tri chwarter yr HRPs (75 y cant) ac 86 y cant o bob partner/priod a oedd yn byw mewn aelwyd oedd yn cynnwys rhywun â salwch cyfyngus hirdymor, person llesg neu anabl wedi dweud fod eu hincwm gros blynyddol yn llai na £15,600. Mae hyn yn cymharu â 46 y cant o HRPs a 62 y cant o bob partner/priod a oedd yn byw mewn aelwyd nad oedd yn cynnwys rhywun â salwch cyfyngus hirdymor, person llesg neu anabl a ddywedodd fod eu hincwm yn llai na £15,600.

Siart 11.3: HRPs a'u partner/priod sydd â chyfanswm incwm gros blynyddol o lai na £15,600, yn ôl pa un a yw'r aelwyd yn cynnwys rhywun â salwch hirdymor, person llesg neu anabl

Mae HRPs neu bartner/priod mewn aelwydydd lle nad oedd ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi eu hincwm wedi'u hepgor o'r siart

Dywedodd 58 y cant o HRPs aelwydydd mewn ardaloedd 'trefol' fod eu hincwm gros blynyddol yn llai na £15,600. Roedd cyfran yr HRPs a ddywedodd fod eu hincwm gros blynyddol yn llai na £15,600 yn disgyn i 48 y cant mewn ardaloedd 'gwledig'. Ar ben arall y raddfa, dywedodd 10 y cant o HRPs mewn ardaloedd 'gwledig' fod eu hincwm gros blynyddol yn £40,000 neu drosodd, ond dim ond hanner y gyfran honno (5 y cant o HRPs) a ddywedodd fod eu hincwm gros blynyddol ar y lefel yma mewn ardaloedd 'trefol'.

Hefyd gofynnodd yr arolwg am incwm gros blynyddol hunangyflogedig yr HRP a'i bartner/priod, os yn berthnasol. Dim ond 3 y cant o'r holl HRPs a'u partner/priod a ddywedodd fod ganddynt incwm hunangyflogedig, sy'n cynrychioli ychydig dros 50,000 o bobl. Dywedodd eu hanner fod eu hincwm gros blynyddol hunangyflogedig

yn llai na £15,600 (49 y cant). Dywedodd bron i un o bob pump fod eu hincwm gros blynyddol hunangyflogedig yn £31,200 neu drosodd.

Incwm Aelwydydd

Gofynnodd yr arolwg hefyd am gyfanswm incwm gros blynyddol pob oedolyn ar yr aelwyd. Fel gydag incwm unigolion, dim ond darllen llythyren oddi ar y cerdyn oedd rhaid i'r ymatebydd ei wneud, yn hytrach na rhoi swm penodol. Dim ond i aelwydydd oedd yn cynnwys tri neu fwy o oedolion y gofynnwyd y cwestiwn hwn, felly 23 y cant o'r aelwydydd a atebodd y cwestiwn. O'r ymatebwyr y gofynnwyd iddynt am gyfanswm incwm eu haelwyd, dywedodd 30 y cant nad oeddynt yn gwybod a gwrthododd 19 y cant ateb y cwestiwn.

Yng ngweddill yr adran hon, bydd pob ffigwr a ddefnyddir yn cynnwys cyfanswm incwm gros yr aelwyd ar gyfer yr holl aelwydydd waeth faint o oedolion sy'n byw yno.

Siart 11.4: Aelwydydd â chyfanswm incwm gros aelwydydd o lai na £15,600 neu £31,200 neu drosodd, yn ôl oed yr HRP

Mae aelwydydd lle nad oedd ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi incwm yr aelwyd wedi'u hepgor o'r siart

Roedd 62 y cant o'r aelwydydd lle'r oedd yr HRP o oed pensiwn â chyfanswm incwm gros blynyddol o lai na £15,600 o gymharu â 57 y cant o aelwydydd lle'r oedd yr HRP rhwng 16 a 24 oed a 30 y cant o aelwydydd lle'r oedd yr HRP rhwng 25 oed a than oedran pensiwn (siart 11.4).

Ar ben arall y raddfa, roedd 41 y cant o'r aelwydydd lle'r oedd yr HRP rhwng 25 a than oedran pensiwn â chyfanswm incwm gros yr aelwyd o £31,200 neu drosodd; roedd hyn fwy na dwywaith cyfran yr aelwydydd â HRP rhwng 16 a 24 oed (17 y cant) a phum gwaith cyfran yr aelwydydd â HRP o oedran pensiwn (60/65 a throsodd) (8 y cant) oedd ag incwm o £31,200 neu drosodd.

Fel y gellid disgwyl, roedd cyfanswm incwm gros blynyddol aelwydydd yn amrywio yn ôl deiliadaeth. Yr aelwydydd a enillai fwyaf oedd yn gallu fforddio morgais a dod yn berchen-feddianwyr, a'r aelwydydd a enillai leiaf oedd yn byw mewn tai rhent preifat neu dai cymdeithasol. Roedd gan 40 y cant o HRPs oedd yn byw mewn aelwydydd perchen-feddiant gyfanswm incwm gros yr aelwyd o £31,200 neu drosodd o gymharu â 17 y cant o HRPs mewn aelwydydd rhent preifat; mae'r ffigurau ar gyfer tai cymdeithasol yn rhy fach i fod yn ystadegol ddibynadwy. Drwy edrych ar drothwy incwm is gallwn gymharu'r tri math o ddeiliadaeth. Roedd gan 58 y cant o HRPs oedd yn byw mewn aelwydydd perchen-feddiant gyfanswm incwm gros yr aelwyd o £20,800 neu drosodd o gymharu â 36 y cant o aelwydydd rhent preifat ac 11 y cant o dai cymdeithasol.

Roedd gan 38 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd 'gwledig' incwm gros blynyddol yr aelwyd o £31,200 o gymharu â 29 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd 'trefol'.

Yn 2008, am y tro cyntaf, gofynnwyd i'n hymatebwyr nodi eu cyrhaeddiad addysgol uchaf ac wrth ddadansoddi cyraeddiadau addysgol yr ymatebwyr yn ôl cyfanswm incwm gros blynyddol aelwydydd gwelwyd cydberthyniad cadarnhaol. Roedd 55 y cant o ymatebwyr â lefel Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) rhwng 4 ac 8 yn byw mewn aelwydydd â chyfanswm incwm gros blynyddol yr

aelwyd o £31,200 neu drosodd. Mae hyn yn cymharu â 37 y cant o ymatebwyr a gyrhaeddodd lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, 29 y cant o ymatebwyr a gyrhaeddodd lefel 2 ac 16 y cant o ymatebwyr a gyrhaeddodd yn is na lefel 2 sy'n byw mewn aelwyd â chyfanswm incwm gros blynyddol yr aelwyd o £31,200 neu drosodd (siart 11.5).

Siart 11.5: Aelwydydd â chyfanswm incwm gros yr aelwyd o £31,200 neu drosodd, yn ôl cyrhaeddiad addysgol uchaf (lefel FfCC) yr ymatebwyr

Mae aelwydydd lle nad oedd yr ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi incwm yr aelwyd wedi'u hepgor o'r siart

Roedd 51 y cant o aelwydydd a oedd yn cynnwys rhywun â salwch cyfyngus hirdymor, person llesg neu anabl â chyfanswm incwm gros blynyddol yr aelwyd o rhwng £5,200 a £15,599, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 35 y cant. Ar ben arall y raddfa incwm, dim ond 14 y cant o'r aelwydydd oedd yn cynnwys rhywun â salwch cyfyngus hirdymor, person llesg neu anabl oedd â chyfanswm incwm gros blynyddol yr aelwyd o £31,200 neu drosodd, sef hanner cyfran cyfartaledd Cymru (30 y cant).

Budd-daliadau

Gofynnodd yr arolwg a oedd yr HRP neu ei bartner/priod yn derbyn amrywiol fathau o fudd-daliadau neu lwfansau gwladol, ac os felly, faint oedd cyfanswm y budd-daliadau gwladol a dderbynient bob wythnos.

Dywedodd 38 y cant o'r holl HRPs a'u partner/priod nad oeddynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau na lwfansau gwladol. Dywedodd 1 y cant nad oeddynt yn gwybod a gwrthododd 5 y cant ateb y cwestiwn. O'r HRPs a'u partner/priod rhwng 16 a 24 oed, dywedodd 61 y cant nad oeddynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau na lwfansau gwladol; mae hyn yn cymharu â 51 y cant o HRPs a'u partner/priod rhwng 25 oed a than oedran pensiwn a 8 y cant o HRPs a'u partner/priod oedran pensiwn.

Siart 11.6: HRPs a phartner / priod a ddywedodd nad oeddynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau a rhai sy'n derbyn budd-daliadau plant, yn ôl rhyw

Mae HRPs a phartner/ priod mewn aelwydydd lle nad oedd ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi gwybodaeth am eu budd-daliadau wedi'u hepgor o'r siart

Fel mae siart 11.6 yn dangos dywedodd 47 y cant o HRPs gwrywaidd neu bartner/priod nad oeddynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau na lwfansau gwladol, ond dim ond 30 y cant o fenywod a ddywedodd yr un

peth. Fodd bynnag, dywedodd cyfran fwy o HRPs benywaidd neu bartner/priod eu bod yn derbyn 'budd-daliadau plant'; 28 y cant o fenywod o gymharu â 5 y cant o ddynion.

Dywedodd 13 y cant o HRPs a'u partner/ priod rhwng 16 a 24 eu bod yn derbyn 'cymorth incwm', sydd dros ddwywaith cyfran yr HRPs a'u partner/priod rhwng 25 oed a than oedran pensiwn (6 y cant). Mae bron i ddau o bob pump (38 y cant) o 'aelwydydd un rhiant â phlentyn dibynnol' yn derbyn 'cymorth incwm'. Cyfartaledd Cymru o'r holl HRPs a'u partner/ priod a oedd yn derbyn 'cymorth incwm' yn 2008 oedd 5 y cant.

Roedd un o bob deg o HRPs a'u partner/priod oedran pensiwn yn derbyn 'Lwfans Byw i'r Anabl' tuag at broblemau symudedd. Roedd hwn yn gostwng i 5 y cant o HRPs a'u partner/priod rhwng 25 oed a than oedran pensiwn. 6 y cant o HRPs gwrywaidd a'u partneriaid/gwragedd a 4 y cant o HRPs benywaidd a'u partneriaid/gwŷr oedd yn derbyn 'budd-dal analluedd'. 16 y cant o aelwydydd 'person sengl' lle'r oedd y preswylydd o dan oedran pensiwn oedd yn derbyn 'budd-dal analluedd'.

Dywedodd chwarter (24 y cant) yr holl HRPs a'u partner/priod eu bod yn derbyn 'taliadau tanwydd gaeaf' a gyflwynwyd yn ystod gaeaf 1997/98. O'r HRPs a phartner /priod oedran pensiwn, roedd 71 y cant yn derbyn 'taliadau tanwydd gaeaf'. Wrth edrych ar wahanol fathau o aelwydydd, roedd 76 y cant o aelwydydd 'pensiynwyr sengl' yn derbyn 'taliadau tanwydd gaeaf' o gymharu â 70 y cant o aelwydydd 'parau priod ar eu pensiwn'.

Fel y gwelir o'r detholiad o fudd-daliadau a lwfansau yn Nhabl 11.1, roedd cyfran fwyaf yr HRPs a'u partner/priod a oedd yn derbyn unrhyw fudd-daliadau neu lwfansau yn byw mewn tai cymdeithasol yn hytrach na chartrefi rhent preifat neu berchen-feddiant. Dywedodd 48 y cant o HRPs a'u partner/priod a oedd yn byw mewn cartrefi rhent preifat nad oeddynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau neu lwfansau o gymharu â 40 y cant a oedd yn berchen-feddianwyr a 18 y cant mewn tai cymdeithasol.

Tabl 11.1: HRPs a'u partner/priod a ddywedodd eu bod yn derbyn budd-daliadau neu lwfansau gwladol penodol, yn ôl deiliadaeth

	Tai cymdeithasol	Rhent preifat	Perchen-feddiant
Cymorth incwm	23%	10%	1%
Budd-dâl analluedd	12%	5%	4%
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) symudedd	14%	6%	5%
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) gofal	20%	4%	3%
Dim budd-daliadau	18%	48%	40%

Cyfanswm a bwysolwyd: 2,035,800 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Mae HRPs a'u partner/ priod mewn aelwydydd lle nad oedd ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi gwybodaeth am eu budd-daliadau wedi'u hepgor o'r siart

Wrth edrych ar aelwydydd 'sy'n gweithio' ac aelwydydd 'di-waith', roedd 59 y cant o HRPs a'u partner/priod oedd yn byw mewn aelwydydd 'sy'n gweithio' yn dweud nad oeddynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau neu lwfansau gwladol. Mae hyn yn cymharu â 19 y cant o HRPs a'u partner/priod oedd yn byw mewn aelwydydd 'di-waith' a 6 y cant o HRPs a'u partner/priod mewn aelwydydd 'heb fod o oedran gweithio'.

Siart 11.7: HRPs a'u partner/priod a ddywedodd eu bod yn derbyn 'cymorth incwm' a 'budd-daliadau analluedd' yn ôl pa un a oeddynt yn byw mewn aelwydydd 'di-waith' neu 'pob aelwyd'

Mae HRPs a'u partner/ priod mewn aelwydydd lle nad oedd ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi gwybodaeth am eu budd-daliadau wedi'u hepgor o'r siart

Mae siart 11.7 yn dangos fod traean (32 y cant) o HRPs a oedd yn byw mewn aelwydydd 'di-waith' wedi dweud eu bod yn derbyn 'cymorth incwm'; y ffigwr ar gyfer 'pob aelwyd' yw 7 y cant. Dywedodd ychydig dros un o bob pump (23 y cant) o HRPs mewn 'aelwydydd di-waith' eu bod yn derbyn 'budd-daliadau analluedd' o gymharu â 5 y cant o 'bob aelwyd'.

Dim ond dwy ran o dair (62 y cant) o'r aelwydydd gyda rhywun â salwch cyfyngus hirdymor, person llesg neu anabl oedd yn hawlio 'budd-dâl analluedd'. Roedd traean (36 y cant) o'r aelwydydd hyn yn derbyn 'Lwfans Byw i'r Anabl tuag at symudedd' a 27 y cant yn derbyn 'Lwfans Byw i'r Anabl tuag at ofal'. Roedd 7 y cant o aelwydydd gyda rhywun â salwch cyfyngus hirdymor, person llesg neu anabl yn derbyn 'lwfans anabledd difrifol.'

Gofynnodd yr arolwg i'r HRP a'u partner /priod a oedd yn derbyn budd-daliadau neu lwfansau gwladol beth oedd cyfanswm wythnosol y lwfansau a'r budd-daliadau gwladol a dderbynient.

Tabl 11.2: O'r HRPs a'u partner/priod a dderbyniai fudd-daliadau neu lwfansau gwladol, faint a dderbynient yn wythnosol

Swm a dderbynnir bob wythnos	
Hyd at £49	27%
O £50 i £99	30%
O £100 i £149	27%
O £150 i £199	10%
£200 a throsodd	6%
Cyfanswm	100%

Cyfanswm a bwysolwyd: 824,000 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Mae HRPs a'u partner/ priod mewn aelwydydd lle nad oedd yr ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi gwybodaeth am eu budd-daliadau wedi'u hepgor o'r siart

O'r HRPs a'u partner/priod a oedd yn derbyn budd-daliadau neu lwfansau gwladol, mae tabl 11.2 yn dangos fod bron eu hanner (43 y cant) yn derbyn £100 neu fwy yr wythnos. Roedd 58 y cant o'r HRPs a'u partner/priod oedran pensiwn yn derbyn budd-daliadau a lwfansau gwladol o £100 neu fwy yr wythnos. Mae hyn yn cymharu â 40 y cant o HRPs a'u partner/priod rhwng 16 a 24 oed a 30 y cant o HRPs a'u partner/ priod rhwng 25 oed a than oedran pensiwn a dderbyniai hynny.

Roedd bron i bedwar o bob pump (77 y cant) o aelwydydd 'pensiynwyr sengl' yn derbyn £100 neu fwy yr wythnos mewn budd-daliadau a lwfansau gwladol a dwy ran o dair (68 y cant) o 'aelwydydd un rhiant â phlentyn dibynnol' yn derbyn y swm yma. Wrth gymharu aelwydydd 'oedran gweithio', roedd dros hanner (51 y cant) yr HRPs a'u partner/priod a oedd yn byw mewn aelwydydd 'di-waith' yn derbyn £100 neu fwy mewn budd-daliadau neu lwfansau, sydd dros ddwbl cyfran yr HRPs a'u partner/priod mewn aelwydydd 'sy'n gweithio' (23 y cant) a dderbyniai hynny.

Siart 11.8: O'r HRPs a'u partner/priod sy'n derbyn budd-daliadau neu lwfansau gwladol, y rhai sy'n derbyn £100 neu fwy yr wythnos mewn budd-daliadau a lwfansau gwladol, yn ôl statws gweithio

Mae HRPs a'u partner/ priod lle nad oedd yr ymatebwyr yn gwybod neu'n gwrthod rhoi gwybodaeth am eu budd-daliadau wedi'u hepgor o'r siart

O'r HRPs a'u partner/priod a oedd mewn gwaith 'llawn amser' mae siart 11.8 yn dangos fod llai nag un o bob pump (18 y cant) wedi dweud eu bod yn derbyn £100 neu fwy mewn budd-daliadau neu lwfansau bob wythnos. Codai hyn i 29 y cant o HRPs a'u partner/priod sy'n derbyn £100 neu fwy mewn budd-daliadau neu lwfansau bob wythnos a

ddywedodd eu bod yn gweithio'n 'rhan amser'. Dywedodd dros hanner (52 y cant) yr HRPs a'u partner/priod y dynodwyd eu bod â 'salwch hirdymor neu anabledd' eu bod yn derbyn £100 neu fwy o fudd-daliadau neu lwfansau yr wythnos. Mae hyn yn cymharu â 57 y cant o HRPs a'u partner/priod a ddywedodd eu bod 'wedi ymddeol yn gyfan gwbl'.

Dywedodd 44 y cant o HRPs a'u partneriaid/priod sy'n byw mewn aelwyd 'agored i niwed' eu bod yn derbyn £100 neu fwy mewn budd-daliadau neu lwfansau yn wythnosol. Mae hyn bron bedair gwaith yr HRPs a'u partner/priod a oedd yn byw mewn aelwydydd nad oeddynt wedi'u dynodi'n rhai agored i niwed (12 y cant) a dderbyniai hynny.

Cynilion

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt hwy neu eu partner/priod gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi ac os oedd, faint oedd ganddynt. Dangoswyd rhestr ar gerdyn i'r ymatebydd o fandiau cynilo (a llythyren i bob un) a dim ond dweud pa lythyren a gyfatebai i'w band cynilo oedd rhaid ei wneud yn hytrach na datgan yr union swm. Dywedodd bron i 3 o bob 5 ymatebydd a phartner/priod nad oedd ganddynt unrhyw gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi (57 y cant). Gwrthododd 12 y cant o ymatebwyr a'u partner/priod ateb y cwestiwn a dywedodd 6 y cant arall o'r ymatebwyr a'u partner/priod nad oeddynt yn gwybod faint o arian oedd ganddynt wedi'i gynilo neu'i fuddsoddi.

O'r rhai a atebodd y cwestiwn ynglŷn â chynilion, dywedodd 94 y cant o ymatebwyr a'u partner/priod rhwng 16 a 24 oed nad oedd dim cynilion na buddsoddiadau ganddynt. Mae hyn yn cymharu â 80 y cant o ymatebwyr a'u partneriaid/ priod rhwng 25 oed a than oedran pensiwn a 77 y cant o ymatebwyr a'u partner/priod oedran pensiwn a ddywedodd hynny. Nid oedd gan 78 y cant o ymatebwyr gwrywaidd a phartner/gwraig a 83 y cant o ymatebwyr benywaidd a phartner/gŵr unrhyw gynilion nac arian wedi'i fuddsoddi.

Nid oedd unrhyw gynilion nac arian wedi'i fuddsoddi gan 96 y cant o ymatebwyr a'u partner/priod a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol, 90 y cant o ymatebwyr a'u partner/priod a oedd yn byw mewn cartrefi rhent preifat a thri chwarter (75 y cant) yr ymatebwyr a'u partner/priod a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain.

Dywedodd bron bob un o'r 'aelwydydd un rhiant a phlentyn dibynnol' (97 y cant) nad oedd cynilion nac arian wedi'i fuddsoddi ganddynt. Nid oedd cynilion gan bedwar o bob pump o'r aelwydydd 'pensiynwr sengl' ac roedd llai na £5,000 o gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi gan 11 y cant arall o'r grŵp yma.

Dim ond 1 y cant o'r holl ymatebwyr a'u partner/ priod oedd â £20,000 neu fwy o gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi. Codai hyn i 2 y cant o ymatebwyr a'u partner/priod oedran pensiwn. Roedd gan un o bob deg ymatebydd a'u partner/priod oedran pensiwn rhwng £5,000 a £19,999 o gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi. O'r ymatebwyr a'u partner/priod oedd yn byw mewn ardal 'wledig', roedd rhwng £5,000 a £19,999 mewn cynilion neu arian wedi'i fuddsoddi gan 10 y cant ohonynt o gymharu â 8 y cant mewn ardaloedd 'trefol' a ddywedodd hynny.

Siart 11.9: O'r ymatebwyr a'u partner/priod a ddywedodd fod ganddynt gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi, y rhai sydd â rhwng £5,000 a £19,999 o gynilion, yn ôl cyrhaeddiad addysgol uchaf (lefel FfCC) yr ymatebwyr

Mae ymatebwyr nad oedd yn gwybod neu'n gwrthod rhoi gwybodaeth am gynilion wedi'u hepgor o'r siart

Yn 2008, am y tro cyntaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu cyrhaeddiad addysgol uchaf a gwelir cydberthyniad cadarnhaol wrth ddadansoddi cyflawniad addysgol yr HRPs a'u partner/priod yn ôl cyfanswm cynilion neu arian a fuddsoddwyd. Roedd gan 13 y cant o'r ymatebwyr a'u partner/priod a gyrhaeddodd rhwng lefel 4 ac 8 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol rhwng £5,000 a £19,999 o gynilion. Roedd hyn yn cymharu â 9 y cant a gyrhaeddodd lefel 3, 8 y cant a gyrhaeddodd lefel 2 a 5 y cant a gyrhaeddodd o dan lefel 2 (siart 11.9). Mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir am yr ymatebwyr a'u partner/priod heb gynilion nac arian wedi'i fuddsoddi. Nid oedd cynilion gan 69 y cant o ymatebwyr a gyrhaeddodd lefel 4 i 8, o gymharu â 78 y cant a gyrhaeddodd lefel 3, 80 y cant a gyrhaeddodd lefel 2 ac 89 y cant a gyrhaeddodd o dan lefel 2.

Roedd cysylltiad rhwng dosbarthiad dadansoddol NS-SEC a'r tebygolrwydd fod gan ymatebydd gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi. Dywedodd 15 y cant o ymatebwyr mewn swyddi 'rheoli a phroffesiynol uwch' fod ganddynt rhwng £5,000 a £19,999 o gynilion. Roedd hyn yn cymharu â dim ond 4 y cant o ymatebwyr mewn swyddi 'lled-gyffredin' a 3 y cant mewn 'swyddi cyffredin'.

Cwestiynau economi aelwydydd

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd am economi aelwydydd yn yr arolwg Byw yng Nghymru:

- *O'r ffynonellau amrywiol posibl hyn, allwch chi ddweud wrtha i pa fathau o incwm rydych chi/eich partner yn ei dderbyn yn bersonol? Peidiwch â chynnwys eich incwm chi/incwm eich partner/priod nac incwm unrhyw aelodau eraill o'r aelwyd.*

  [] Enillion o hunangyflogaeth
  [] Enillion o brif swydd (fel gweithiwr cyflogedig)
  [] Enillion o gynllun Llywodraeth
  [] Enillion o waith arall
  [] Pensiwn galwedigaethol
  []Pensiwn preifat neu flwydd-daliadau
  [] Unrhyw fudd-dal neu lwfans y wladwriaeth
  [] Arall
  [] Dim incwm
  [] Ddim yn gwybod
  [] Gwrthod ateb

- *Ydych chi (neu eich partner/priod) yn derbyn unrhyw rai o'r budd-daliadau neu lwfansau gwladol a ddangosir ar y cerdyn?*

  [] Cymorth incwm
  [] Lwfans ceiswyr gwaith
  [] Pensiwn ymddeol Yswiriant Gwladol neu bensiwn henoed
  [] Budd-dâl analluedd
  [] Budd-dâl plant
  [] Credyd treth plant
  [] Credyd treth gweithio
  [] Credyd pensiwn
  [] Dim un o'r rhain
  [] Ddim yn gwybod
  [] Gwrthod ateb

- *Ydych chi (neu eich partner/priod) yn derbyn unrhyw rai o'r budd-daliadau neu lwfansau gwladol a ddangosir ar y cerdyn?*

  [] Lwfans mamolaeth
  [] Pensiwn gwraig weddw
  [] Pensiwn anabledd rhyfel
  [] Lwfans anabledd difrifol
  [] Budd-dâl anabledd anafiadau diwydiannol
  [] Lwfans gweini
  [] Lwfans gofal analluedd
  [] Lwfans byw i'r anabl (DLA) – symudedd
  [] Lwfans byw i'r anabl (DLA) – gofal
  [] Tâl salwch statudol
  [] Premiwm anabledd gydag IS neu HB
  [] Tâl tanwydd gaeaf
  [] Unrhyw fudd-dal arall yn ymwneud ag anabledd
  [] Dim un o'r rhain
  [] Ddim yn gwybod
  [] Gwrthod ateb

- *A gaf i ofyn beth yw cyfanswm y budd-daliadau gwladol a dderbyniwch chi (a'ch partner/priod) bob wythnos?*

- *A ydych chi (a'ch partner/priod) yn derbyn taliadau rheolaidd o'ch/o'u gwaith hunangyflogedig yn debyg i'r hyn a fyddech yn ei gael pe baech chi'n gyflogedig?*

- *O'r cerdyn, allwch chi ddweud wrtha i ym mha fand mae eich CYFANSWM INCWM GROS chi (a'ch partner/priod) o bob ffynhonnell – hynny yw, pob incwm o waith ac unrhyw ffynhonnell arall fel budd-daliadau a phensiynau, CYN tynnu unrhyw dreth nac yswiriant gwladol? Rhowch y llythyren yn unig.*

- *Gan feddwl am eich aelwyd gyfan, a chynnwys pob aelod sy'n oedolyn, pa grŵp ar y cerdyn sy'n cynrychioli'r cyfanswm INCWM GROS o bob ffynhonnell – hynny yw, pob incwm o waith ac unrhyw ffynhonnell arall fel budd-daliadau a phensiynau, CYN tynnu unrhyw dreth nac yswiriant gwladol? Noder: Dylech gynnwys pob aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn.*

- *A oes gennych chi (a'ch partner/priod) unrhyw gynilion neu arian wedi'i fuddsoddi ar hyn o bryd?*

- *O'r cerdyn, beth yw cyfanswm y cynilion neu'r arian a fuddsoddwyd gennych chi (a'ch partner/priod)?*

Pobl a Thai

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddiad o ddata Byw yng Nghymru 2008 ar ddeiliadaeth aelwydydd.

Gofynnodd yr arolwg gyfres o gwestiynau i ymatebwyr ynglŷn â pherchenogaeth eu heiddo. Mae'n gofyn a ydynt yn berchen ar eu cartref neu'n ei rentu, ac os ydynt yn berchen arno, a gafodd ei brynu drwy gynllun rhanberchenogaeth neu gynllun 'hawl i brynu'. Os roeddent yn dweud nad oeddent yn berchen ar yr eiddo, gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt ynglŷn â phwy oedd yn berchen ar yr eiddo. Yna, defnyddiwyd y cwestiynau hyn i olrhain deiliadaeth yr aelwyd.

Mae union eiriad y cwestiynau a ofynnwyd am berchnogaeth a deiliadaeth yn arolwg Byw yng Nghymru i'w weld ar ddiwedd y bennod.

Mae cwestiynau ynghylch deiliadaeth wedi'u cynnwys yn arolwg Byw yng Nghymru ers 2004, felly bydd hi'n bosibl edrych ar y tueddiadau mewn deiliadaeth a ddigwyddodd ers 2004. Bydd y bennod yn canolbwyntio ar yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn 2008 ac yn cyfeirio at flynyddoedd blaenorol lle bydd hynny o ddiddordeb.

Deiliadaeth

Mae siart 12.1 yn dangos fod bron i dri chwarter yr aelwydydd (73 y cant) yng Nghymru yn berchen-feddiannwyr, 11 y cant o aelwydydd yn byw mewn cartrefi rhent preifat, 9 y cant mewn tai 'awdurdod lleol' a 6 y cant mewn cartrefi 'cymdeithas dai'.

Mae canran yr aelwydydd perchen-feddiant a rhent preifat wedi aros yn gyson ers 2004. Fodd bynnag, mae cyfran yr aelwydydd sy'n byw mewn tai 'awdurdod lleol' wedi gostwng o 13 y cant yn 2004 i 9 y cant yn 2008, tra mae cyfrannau'r aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi 'cymdeithas dai' wedi codi ychydig o 5 y cant yn 2004 i 6 y cant yn 2008. Deillia hyn yn rhannol o'r ffaith fod awdurdodau lleol wedi bod yn trosglwyddo eu stoc tai i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (enw arall ar gymdeithasau tai). Dangosir y duedd hon yn siart 12.2.

Siart 12.1: Deiliadaeth aelwydydd

Siart 12.2: Aelwydydd mewn cartrefi 'awdurdod lleol' a 'chymdeithas dai' yn ôl blwyddyn

Mae deiliadaeth aelwydydd yn amrywio yn ôl oedran y Person cyswllt yr Aelwyd (HRP – gweler y 'termau a diffiniadau' am ddiffiniad.) Roedd HRP iau yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain na HRP hŷn. Fel y dangosir yn siart 12.3, roedd HRP rhwng 16 a 29 oed yn fwy tebygol o fod yn rhentu eu cartref gan landlord preifat (38 y cant) na bod yn berchen ar eu cartref eu hunain (35 y cant). Cynyddai cyfran yr HRP a oedd yn berchen ar eu cartrefi eu hunain yn raddol gydag oedran nes bod yr HRP yn 70 oed. Gwelwyd yr effaith gyferbyniol ymhlith pobl oedd yn rhentu eu cartref gan landlord preifat; nes bod yr HRP yn 70 oed, roedd cyfran yr HRP a oedd yn rhentu'n breifat yn gostwng yn raddol gydag oedran.

Siart 12.3: Deiliadaeth aelwydydd yn ôl oedran yr HRP

Roedd pobl o grwpiau ethnig 'heb fod yn wyn' yn llai tebygol o fod yn byw mewn cartref perchen-feddiant ac yn fwy tebygol o fod yn byw mewn eiddo rhent preifat na phobl o grŵp ethnig 'gwyn'. Roedd 58 y cant o bobl o grŵp ethnig 'heb fod yn wyn' yn byw mewn cartrefi perchen-feddiant o gymharu â 75 y cant o bobl o grŵp ethnig 'gwyn'. Roedd 33 y cant o bobl o grŵp ethnig 'heb fod yn wyn' yn byw mewn tai rhent preifat o'i gymharu â 10 y cant o bobl o grŵp ethnig 'gwyn'.

Aelwydydd a gategoreiddiwyd fel 'parau priod ar eu pensiwn' oedd fwyaf tebygol o fod yn berchen-feddiannwyr (90 y cant), gydag aelwydydd lle'r oedd 'dau oedolyn â phlant' yn dilyn (82 y cant). Y math o aelwyd a oedd leiaf tebygol o fod yn berchen-feddiannwyr oedd 'aelwyd un rhiant' gyda dim ond 47 y cant yn byw mewn cartrefi perchen-feddiant.

Siart 12.4: Deiliadaeth yn ôl math o aelwyd

Mae mathau o aelwydydd a gategoreiddiwyd fel 'arall' wedi'u hepgor o'r siart

Siart 12.5: Deiliadaeth yn ôl pa un a yw'r aelwyd yn gweithio neu'n ddi-waith

Mae aelwydydd nad ydynt o oedran gweithio ac 'aelwydydd o oedran gweithio o statws gwaith anhysbys' wedi'u hepgor o'r siart

Mae siart 12.5 uchod yn dangos fod aelwydydd 'sy'n gweithio' yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain nag aelwydydd 'di-waith' (gweler tudalen y 'termau a diffiniadau' am ddiffiniad); roedd 81 y cant o aelwydydd 'sy'n gweithio' yn berchen ar eu cartrefi eu hunain o gymharu â 41 y cant o aelwydydd 'di-waith'. Roedd aelwydydd 'di-waith' yn fwy tebygol nag aelwydydd eraill o fod yn byw mewn tai 'awdurdod lleol' (22 y cant), 'cymdeithas dai' (15 y cant) neu'n rhentu gan landlord preifat (21 y cant).

Roedd aelwydydd oedd yn cynnwys o leiaf un person â salwch hirdymor 'cyfyngus' yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai 'awdurdod lleol'; roedd tua 15 y cant o'r aelwydydd hyn mewn tai 'awdurdod lleol o'i gymharu â 6 y cant o aelwydydd nad oedd yn cynnwys unrhyw un â salwch hirdymor 'cyfyngus'.

Roedd aelwydydd ag incwm uchel yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain nag aelwydydd ar incwm is. Fel y dangosir yn siart 12.6, roedd 91 y cant o aelwydydd a enillai £31,200 neu fwy' yn byw mewn cartrefi perchen-feddiant a 7 y cant yn byw mewn cartrefi rhent preifat.

Siart 12.6: Deiliadaeth yn ôl incwm aelwydydd

Mae aelwydydd ag incwm aelwyd 'anhysbys' wedi'u hepgor o'r siart

Roedd nifer yr aelwydydd a enillai '£31,200 neu fwy' ac a oedd yn byw mewn eiddo 'awdurdod lleol' neu 'gymdeithas dai' yn rhy isel i fod yn ystadegol ddibynadwy. Roedd llai na hanner yr aelwydydd a enillai 'lai na £15,599' yn berchen-feddiannwyr. Roedd 20 y cant yn byw mewn tai 'awdurdod lleol', 15 y cant yn byw mewn eiddo 'cymdeithas dai' a 16 y cant yn byw mewn cartrefi rhent preifat.

Roedd aelwydydd lle'r oedd yr HRP o ddosbarth cymdeithasol uwch yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain na phobl o ddosbarthiadau cymdeithasol is. Roedd 88 y cant o aelwydydd lle mae'r HRP wedi'i ddisgrifio fel un sy'n gweithio mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' yn berchen ar eu cartrefi eu hunain o'i gymharu â dim ond 60 y cant o aelwydydd lle mae'r HRP wedi'i ddisgrifio fel un sy'n gweithio mewn 'swyddi lled-gyffredin' neu 'swyddi cyffredin'.

Mae deiliadaeth aelwydydd yn amrywio yn ôl lleoliad yr eiddo. Mae siart 12.7 yn dangos yr amrywiaeth mewn deiliadaeth rhwng ardaloedd 'trefol' a 'gwledig'.

Siart 12.7: Deiliadaeth yn ôl dosbarthiad 'trefol/gwledig'

Roedd aelwydydd mewn ardaloedd 'gwledig' yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi neu'n rhentu'n breifat nag aelwydydd mewn ardaloedd 'trefol'. Roedd 83 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd 'gwledig' a ddisgrifiwyd fel 'pentrefan ac anheddau ynysig' yn berchen ar eu cartrefi a 14 y cant yn rhentu'n breifat. Roedd hyn yn cymharu â 71 y cant ac 11 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd a ddisgrifiwyd fel ardaloedd 'trefol'.

Rhan-berchenogaeth

Gofynnodd yr arolwg Byw yng Nghymru i ymatebwyr mewn cartrefi perchen-feddiant a oeddent yn berchen ar eu cartref drwy gynllun rhanberchenogaeth neu gynllun 'hawl i brynu'.

Mewn cynllun rhanberchenogaeth, mae'r eiddo wedi'i brynu'n rhannol a'n rhannol ar rent. Ond nid yw hyn yr un fath â bod dau berson yn berchen ar eiddo gyda'i gilydd, na bod un person yn berchen ar eiddo ac yn derbyn rhent gan berson arall.

Cynllun gan y llywodraeth yw 'hawl i brynu' sy'n caniatáu i denantiaid awdurdod lleol brynu eu cartrefi am brisiau gostyngol. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer tenantiaid cyhoeddus hirsefydlog, gyda'r gostyngiad yn cynyddu yn ôl nifer y blynyddoedd y buont yn talu rhent.

Siart 12.8: Cartrefi perchen-feddiant a brynwyd drwy gynllun rhanberchenogaeth neu 'hawl i brynu', yn ôl blwyddyn

Dim ond 1 y cant o gartrefi perchen-feddiant a gafodd eu prynu drwy gynllun rhanberchenogaeth, tra roedd 4 y cant wedi'u prynu drwy gynllun 'hawl i brynu'.

Dim ond yn 2007 a 2008 y gofynnwyd y cwestiynau hyn yn y ffordd neilltuol hon. Er bod cyfran y cartrefi perchen-feddiant a brynwyd drwy ranberchenogaeth wedi gostwng ychydig, mae siart 12.8 yn dangos fod cyfran y cartrefi perchen-feddiant a brynwyd drwy'r cynllun 'hawl i brynu' wedi cynyddu ychydig.

Cwestiynau deiliadaeth

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd yn arolwg Byw yng Nghymru 2008 i bennu'r amrywiadau mewn deiliadaeth:

- *Ydych chi/a yw (enw'r HRP), neu rywun arall ar yr aelwyd, yn (yn unigol neu ar y cyd) berchen ar y cartref hwn?*

- *Gaf i wneud yn siŵr, a ydych chi neu a oes rhywun arall ar yr aelwyd hon wedi prynu'r cartref hwn dan gynllun rhanberchenogaeth, Cymorth Prynu neu Hawl i Brynu? (Mae rhanberchenogaeth yn golygu eich bod chi'n rhannol berchen ar eich cartref ac yn ei rentu'n rhannol).*

- *Gaf i wneud yn siŵr, a yw'r (tŷ/fflat) hwn yn eiddo i, neu'n cael ei brynu gan rywun sy'n byw yma'n barhaol, neu gan rywun sy'n byw yn rhywle arall?*

  [] Yma
  [] Rhywle arall

- *Pwy sydd berchen ar y (tŷ/fflat) ac sy'n byw yma?*

- *Beth yw eich perthynas chi/perthynas (enw'r HRP) â pherchennog y (tŷ/fflat) yma?*
  Perchennog yn berthynas:
  [] Partner, priod neu bartner sifil
  [] Mab neu ferch
  [] Brawd neu chwaer
  [] Mam neu dad
  [] Perthynas arall
  Perchennog, ddim yn berthynas
  [] Ffrind
  [] Partner busnes
  []Cyflogwr
  []Landlord
  []Arall (nodwch)

- *Pa un o'r rhain sy'n gymwys i chi/eich aelwyd mewn perthynas â'r cartref hwn?*
  [] Tenant – Rwyf i/rydym ni yn ei rentu
  [] Tenant – rydym yn byw yma'n ddi-rent (yn cynnwys yn ddi-rent mewn eiddo perthynas/ffrind, ac eithrio sgwatio)
  [] Sgwatio

- *Pwy yw perchennog yr eiddo hwn?*
  [] Awdurdod lleol neu gyngor
  [] Cymdeithas dai, cwmni cydweithredol neu ymddiriedolaeth elusennol
  [] Arall (nodwch)
  [] Ddim yn gwybod

- *Pa un o' rhain sy'n disgrifio orau i bwy rydych chi/eich aelwyd yn talu rhent?*
  Sefydliad:
  [] Awdurdod lleol neu gyngor
  [] Cymdeithas dai, cwmni cydweithredol neu ymddiriedolaeth elusennol
  [] Cwmni eiddo
  [] Cyflogwr rhywun ar yr aelwyd hon
  [] Sefydliad arall
  Unigolyn:
  [] Perthynas i rywun ar yr aelwyd hon
  [] Rhywun a oedd eisoes yn ffrind cyn i'r aelwyd fyw yma
  [] Cyflogwr rhywun ar yr aelwyd
  [] Landlord preifat unigol arall
  [] Ddim yn gwybod

Cyflwyniad

Mae arolwg Byw yng Nghymru yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo'r gwaith o asesu i ba raddau y mae aelwydydd yn 'orlawn'. Gwneir hyn trwy'r mesur safon ystafelloedd gwely.

Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau arolwg 2008; fodd bynnag cafodd safon ystafelloedd gwely ei chyfrifo yn arolygon 2004 a 2007 hefyd, felly bydd hi'n bosibl edrych ar y gwahaniaethau rhwng y tair blynedd hyn.

Diffiniad o'r mesur safon ystafelloedd gwely

Mae'r mesur safon ystafelloedd gwely yn fesur sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i nodi a yw aelwydydd yn 'orlawn'.

Mae'n cymryd yn ganiataol bod yna ystafell wely ar wahân ar gyfer pob un o'r canlynol:

- cwpwl sy'n cyd-fyw (priod neu ddi-briod);
- unrhyw un 21 oed neu hŷn;
- pob pâr o bobl ifanc rhwng 10 ac 20 oed o'r un rhyw;
- pob pâr o blant dan 10 oed (waeth beth yw eu rhyw); ac
- unigolyn ifanc rhwng 10 ac 20 oed sydd wedi'i baru gyda phlentyn dan 10 oed o'r un rhyw.

Yn syml, gellir ystyried mai'r diffiniad o 'dai gorlawn' yw: a oes digon o ystafelloedd gwely ar gyfer pob unigolyn neu bob pâr (fel y rhestrir uchod) i gael eu hystafell wely eu hunain?

Os oes, yna mae'r aelwyd wedi 'llwyddo' i gyrraedd y safon ystafelloedd gwely ac nid yw'r tŷ yn 'orlawn'.

Os nad oes, yna mae'r aelwyd wedi 'methu' â chyrraedd y safon ystafelloedd gwely ac felly'n 'orlawn'.

Problemau sy'n gysylltiedig â 'thai gorlawn'

Yn 2003, comisiynodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog adroddiad i nodi effeithiau hysbys byw mewn aelwydydd 'gorlawn' ar iechyd ac addysg pobl.

Cyflwynodd yr adroddiad ganfyddiadau yn seiliedig ar adolygu'r holl dystiolaeth ymchwil oedd ar gael; gellir gweld copi o'r adroddiad a chrynodeb o'r holl ganfyddiadau yma[1].

Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad yn amlygu rhywfaint o gysylltiad rhwng 'tai gorlawn' ac agweddau ar iechyd plant ac oedolion. Hefyd, mae yna dystiolaeth i awgrymu bod byw ar aelwyd 'orlawn' yn ystod plentyndod yn effeithio ar agweddau ar iechyd oedolion.

Ffynonellau eraill o fesur 'tai gorlawn'

Cyfrifiad 2001

Mae'r dangosydd 'tai gorlawn' a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2001[2] yn darparu mesur o 'dan-ddeiliadaeth' a 'gorlawn'. Mae'r raddfa ddeiliadaeth yn cymryd yn ganiataol bod angen i bob aelwyd, gan gynnwys aelwydydd un unigolyn, gael dwy ystafell gyffredin (heb gynnwys ystafelloedd ymolchi). Er enghraifft, mae gwerth o -1 yn awgrymu bod un ystafell yn eisiau a bod yr aelwyd yn orlawn[2].

Mae'r 'gyfradd ddeiliadaeth' wedi'i chreu oherwydd nid yw'r Cyfrifiad yn casglu nifer yr ystafelloedd gwely mewn tŷ. Felly, nid yw'n amlwg yn union faint o'r diffiniad hwn sy'n ymwneud â'r safon ystafelloedd gwely, ond yn amlwg mae llawer mwy o aelwydydd islaw'r safon hon nag sydd o dan y safon ystafelloedd gwely.

---

[1] www.communities.gov.uk/documents/housing/pdf/140627.pdf

[2] Mae gwybodaeth am Gyfrifiad 2001 ar gael trwy ddilyn y ddolen isod o wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol: www.statistics.gov/censu2001/census2001.asp

Arolwg Aelwydydd Cyffredinol

Mae'r Arolwg Aelwydydd Cyffredinol hefyd yn darparu dangosydd 'tai gorlawn' gan ddefnyddio'r safon ystafelloedd gwely. Fodd bynnag, mae maint sampl yr arolwg yn rhy fach o gymharu ag arolwg Byw yng Nghymru.

Mae'r ffigurau diweddaraf o Arolwg Aelwydydd Cyffredinol yn dangos bod 'tai gorlawn' Cymru ar yr un lefel yn gyffredinol â Phrydain; methodd 2 y cant o holl aelwydydd Prydain y safon ystafelloedd gwely[3], sy'n gyson â chanfyddiadau adolwg Byw yng Nghymru 2008.

Nifer yr aelwydydd 'gorlawn' yng Nghymru

Yn 2008, methodd 2.1 y cant (26,100) o holl aelwydydd Cymru y safon ystafelloedd gwely. Mae hyn wedi cynyddu o 1.9 y cant o aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely yn 2007.

Mae hyn yn golygu bod 4.3 y cant (130,500) o holl bobl Cymru yn byw ar aelwyd 'orlawn' yn 2008. Mae hyn wedi cynyddu o 4.1 y cant o bobl a oedd yn byw dan amodau 'gorlawn' yn 2007, ac o 3.7 y cant o bobl a oedd yn byw dan amodau 'gorlawn' yn 2004.

Nifer y bobl sy'n byw ar aelwyd yn amlwg sy'n diffinio a yw aelwyd yn 'orlawn' ai peidio. Nifer y bobl ar gyfartaledd a oedd yn byw ar bob aelwyd yn 2008 oedd 2.39, fodd bynnag , mae nifer y bobl ar gyfartaledd sy'n byw ar aelwyd yn amlwg yn is ar yr aelwydydd hynny a lwyddodd i gyrraedd y safon ystafelloedd gwely o gymharu â'r aelwydydd a fethodd y safon.

Mae siart 13.1 yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y bobl ar gyfartaledd a lwyddodd neu a fethodd y safon ystafelloedd gwely.

Siart 13.1: Nifer y bobl ar gyfartaledd sy'n byw ar aelwyd yn ôl a wnaeth yr aelwyd lwyddo neu fethu i gyrraedd y safon ystafelloedd gwely, fesul blwyddyn

Mae aelwydydd nad oedd hi'n bosibl mesur y safon ystafelloedd gwely wedi'u heithrio o'r siart. Nid oes unrhyw ddata Byw yng Nghymru ar gael ar gyfer y mesur safon ystafelloedd gwely yn 2005 na 2006.

Yn 2008, nifer y bobl ar gyfartaledd a oedd yn byw ar aelwyd 'orlawn' oedd 5.0, sy'n fwy na dwywaith y nifer o bobl ar gyfartaledd a oedd yn byw ar aelwyd a lwyddodd i gyrraedd y safon ystafelloedd gwely (2.3). Mae'r siart yn dangos na fu llawer o newid yn y ffigurau hyn ers 2004.

Mae'n amlwg o'r union ddiffiniad o'r safon ystafelloedd gwely bod aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely yn fwy tebygol o gael llai o ystafelloedd gwely. Mae siart 13.2 yn dangos y berthynas rhwng nifer y bobl ar aelwyd a nifer yr ystafelloedd ar aelwydydd sy'n llwyddo a methu'r safon ystafelloedd gwely. Er enghraifft mae'n dangos bod pedwar o bobl a oedd yn byw ar aelwyd 'orlawn' yn gorfod rhannu ychydig dros 2 ystafell wely ar gyfartaledd. Roedd yn rhaid i chwech o bobl a oedd yn byw dan amodau 'gorlawn' rannu ychydig dan hanner ystafell wely yr un ar gyfartaledd.

[3] Gellir gweld y ffigyrau hyn ar-lein trwy ddilyn y ddolen isod o wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a dewis tabl 4.16: www.statistics.gov.uk/downloads/theme_compendia/GHS07/GHS07chapter4-HousingAndcd.xls

Siart 13.2: Nifer y bobl fesul aelwyd yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely ar gyfartaledd ac yn ôl a oedd yr aelwyd wedi llwyddo neu fethu'r safon ystafelloedd gwely

Mae aelwydydd nad oedd hi'n bosibl mesur y safon ystafelloedd gwely wedi'u heithrio o'r siart.

'Tai gorlawn' yn ôl daliadaeth

Aelwydydd a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol oedd fwyaf tebygol o fethu'r safon ystafelloedd gwely (5 y cant) yn 2008. Mae hyn gyfwerth â 12 y cant o'r holl bobl mewn tai cymdeithasol sy'n byw dan amodau 'gorlawn'. Mae tai cymdeithasol yn cael eu diffinio fel aelwydydd sy'n cael eu rhentu gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai.

Yn 2004 hefyd, yr holl aelwydydd a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol oedd fwyaf tebygol o fod yn 'orlawn'.

Dim ond 1 y cant o aelwydydd 'perchen-feddiant' a fethodd y safon ystafelloedd gwely; mae hyn wedi cynyddu ychydig bach yn unig ers 2004 (gweler siart 13.3).

Siart 13.3: Cyfran yr aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely yn ôl daliadaeth

Mae aelwydydd nad oedd hi'n bosibl mesur y safon ystafelloedd gwely wedi'u heithrio o'r siart.

Aelwydydd agored i niwed 'gorlawn'

Yn gyffredinol, methodd 2.4 y cant o aelwydydd agored i niwed y safon ystafelloedd gwely yn 2008. Mae hyn wedi cynyddu o 2.2 y cant o aelwydydd agored i niwed a fethodd y safon ystafelloedd gwely yn 2007. Gweler y 'termau a diffiniadau' am ddiffiniad o aelwyd agored i niwed.

'Tai gorlawn' yn ôl aelwydydd di-waith

Roedd 'aelwydydd a oedd yn cynnwys aelodau a oedd yn gweithio ac aelodau di-waith ' ddwywaith yn fwy tebygol o fyw dan amodau 'gorlawn' o gymharu ag 'aelwydydd di-waith'. Mae cyfran y bobl a oedd yn byw ar 'aelwyd yn cynnwys aelodau a oedd yn gweithio ac aelodau di-waith ' ac a oedd wedi methu'r safon ystafelloedd gwely wedi cynyddu o 8 y cant yn 2007, i 10 y cant yn 2008.

Dim ond 1 y cant o 'aelwydydd gweithio' a fethodd y safon ystafelloedd gwely; mae hyn wedi parhau yn gyson ers 2004. Gweler y termau a diffiniadau' am ddiffiniad o aelwyd 'weithio' a 'di-waith'.

'Tai gorlawn' yn ôl anabledd

Ar draws pob oedran, roedd 2 y cant o bobl oedd â salwch 'cyfyngus' hirdymor neu anabledd yn byw ar aelwyd a fethodd y safon ystafelloedd gwely, er gan fod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael salwch cyfyngus hirdymor neu anabledd a hefyd yn fwy tebygol o fyw ar eu pen eu hunain roeddynt yn dod o aelwyd sy'n llwyddo i gyrraedd y safon ystafelloedd gwely.

Wrth ddadansoddi yn ôl oedran, gellir gweld bod cyfran uwch o bobl iau â salwch hirdymor neu anabledd yn byw ar aelwyd 'orlawn'; roedd 5 y cant o bobl dan 50 oed ac â salwch hirdymor neu anabledd yn byw ar aelwyd a fethodd y safon ystafelloedd. Y ffigur cyfwerth ar gyfer pobl hŷn oedd 1 y cant , hynny yw ar gyfer pobl 50 oed a hŷn â salwch hirdymor neu anabledd a oedd yn byw ar aelwyd 'orlawn'.

'Tai gorlawn' yn ôl lefel uchaf addysg

Mae siart 13.4 yn edrych ar lefel uchaf addysg ymatebwyr a oedd yn byw ar aelwyd 'orlawn', yn ôl oed yr ymatebydd. Gweler 'termau a diffiniadau' am restr o gymwysterau sy'n dod o dan bob lefel Fframwaith Cymhwyster Cenedlaethol.

Dangoswyd rhestr o wahanol gymwysterau i ymatebwyr o'r 'uchaf' i lawr i'r 'isaf' a gofynnwyd iddynt ddewis y cymhwyster uchaf oedd ganddynt. Noder bod y categorïau 'dim o'r cymwysterau a restrir ' a 'cymwysterau eraill' yn cynnwys pobl heb unrhyw gymwysterau a gallant fod wedi cynnwys pobl â chymwysterau nad oeddent wedi'u cynnwys yn benodol mewn grwpiau eraill.

Mae'r siart yn dangos bod 8 y cant o'r ymatebwyr iau rhwng 16 a 49 oed yn y grŵp cymwysterau 'Dim o'r rhain' yn byw ar aelwyd 'orlawn'. Mae hyn yn cymharu â dim ond 2% o'r holl ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau a oedd yn byw ar aelwyd 'orlawn'.

Mae siart 13.4 yn edrych ar y rhai rhwng 16 a 49 oed yn erbyn pob oedran gan fod oedran yn effeithio ar y cymwysterau sydd gan ymatebwyr yn ogystal â'r posibilrwydd eu bod yn 'orlawn'. Roedd cyfran uchel o ymatebwyr hŷn heb unrhyw gymwysterau ond yn byw ar aelwydydd a oedd wedi llwyddo i gyrraedd y safon ystafelloedd gwely.

Siart 13.4: Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn byw ar aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely, yn ôl lefel uchaf addysg ac oed ymatebwyr

Mae aelwydydd nad oedd hi'n bosibl mesur y safon ystafelloedd gwely wedi'u heithrio o'r siart.
Mae'r ymatebwyr hynny yr oedd eu lefel uchaf o addysg naill ai'n 'ddim yn gwybod' neu 'arall' wedi'u heithrio o'r siart.

Roedd 6 y cant o'r holl ymatebwyr rhwng 16 a 49 oed oedd â lefel uchaf addysg is na Lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yn byw ar aelwyd 'orlawn'.

Plant yn byw dan amodau 'gorlawn'

Mae siart 13.5 yn amlygu cyfran yr holl bobl yng Nghymru sy'n byw dan amodau 'gorlawn' yn ôl grŵp oedran.

Roedd 8 y cant o blant rhwng 0 a 15 oed yn byw ar aelwyd a fethodd y safon ystafelloedd gwely - mae hyn gyfwerth â 47,000 o blant a oedd yn byw dan amodau 'gorlawn' yng Nghymru yn 2008.

Siart 13.5: Cyfran y bobl yn byw ar aelwyd a fethodd y safon ystafelloedd gwely, yn ôl oedran

Mae aelwydydd nad oedd hi'n bosibl mesur y safon ystafelloedd gwely wedi'u heithrio o'r siart.

Mae siart 13.6 yn dangos cyfran yr aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely yn ôl nifer y plant dibynnol a oedd yn byw yn y tŷ. Gweler 'termau a diffiniadau' am ddiffiniad o blentyn dibynnol.

Mae'n amlwg ei bod hi'n haws methu'r safon ystafelloedd gwely gyda mwy o blant yn byw ar yr aelwyd. Methodd 4 y cant o aelwydydd yn cynnwys 1 neu 2 o blant dibynnol y safon ystafelloedd gwely o gymharu â 14 y cant o aelwydydd yn cynnwys 3 neu fwy o blant dibynnol.

Siart 13.6: Cyfran yr aelwydydd a fethodd y safon ystafelloedd gwely, yn ôl nifer y plant dibynnol ar yr aelwyd

Mae aelwydydd nad oedd hi'n bosibl mesur y safon ystafelloedd gwely wedi'u heithrio o'r siart.

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddi data Byw yng Nghymru 2008 ar elfennau yn ymwneud ag amwynderau aelwydydd.

Roedd yr arolwg yn gofyn i ymatebwyr am yr amwynderau sylfaenol sydd ar gael i aelwyd, y dull a'r arferion gwresogi yn y cartref, y math o inswleiddio sydd wedi'i osod a sut mae aelwydydd yn talu am eu hynni.

Gellir gweld union eiriad y cwestiynau am amwynderau yn yr arolwg Byw yng Nghymru ar ddiwedd y bennod.

Roedd cwestiynau newydd a ychwanegwyd yn 2008 yn canolbwyntio ar y drefn wresogi a sut mae cartrefi'n talu am eu hynni. Gofynnwyd y cwestiynau eraill i gyd yn arolwg 2004 ac felly mae'n bosibl edrych ar dueddiadau rhwng y ddwy flynedd.

Amwynderau Sylfaenol

Roedd yr arolwg yn gofyn a oedd gan yr aelwyd ddefnydd neilltuedig, a oedd yn rhannu defnydd neu ddim yn gallu defnyddio nifer o amwynderau gwahanol, a oedd yn cynnwys y pum amwynder sylfaenol:

- toiled sy'n fflysio yn y tŷ;
- bath neu gawod wedi'i osod;
- basn ymolchi sydd wedi'i gysylltu â chyflenwad dŵr;
- sinc cegin sydd wedi'i gysylltu â chyflenwad dŵr; a
- system dŵr poeth ac oer ar gyfer bath/cawod, basn ymolchi a sinc.

Roedd darparu amwynderau sylfaenol yn flaenoriaeth yn y gwaith adnewyddu drwy'r 1970au a'r 1980au. Mae'r tabl hanesyddol (tabl 14.1) yn dangos bod tua 31 y cant o aelwydydd heb o leiaf un o'r pum amwynder sylfaenol yn 1968. Erbyn 2008, roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 0.6 y cant o aelwydydd.

Tabl 14.1: Aelwydydd heb o leiaf un o'r pum amwynder sylfaenol

Blwyddyn arolwg	Miloedd	Y cant
1968	274.7	31.2%
1973	205.9	20.9%
1981	83.6	8.1%
1992	36.9	3.3%
1997	12.3	1.1%
2004	10.8	0.9%
2008	7.1	0.6%

Ffynhonnell: Arolygon Cyflwr Tai Cymru yn y blynyddoedd dan sylw, Byw yng Nghymru 2004 a 2008

Roedd gan 99 y cant o aelwydydd yn 2008 ddefnydd neilltuedig o doiled sy'n fflysio yn y tŷ; roedd 0.4 y cant arall yn rhannu toiled sy'n fflysio yn y tŷ. Nid oedd gan 8 y cant ddefnydd o fath ac nid oedd gan 19 y cant ddefnydd o gawod.

Dim ond 1 y cant o aelwydydd a ddywedodd nad oeddynt yn cael dŵr o'r prif gyflenwad. Mae'n debygol bod yr aelwydydd hyn yn gallu cael dŵr o gyflenwadau 'dŵr daear' neu 'ddŵr wyneb', sy'n cynnwys afonydd, nentydd, tarddelli, tyllau turio neu ffynhonnau.

Dull gwresogi

Roedd yr arolwg Byw yng Nghymru yn gofyn i aelwydydd am y prif ddull a ddefnyddir i wresogi eu hystafelloedd yn y gaeaf a pha mor effeithiol oedd y system wresogi yn eu cartref. Roedd gan 90 y cant o aelwydydd system gwres canolog. Roedd y ganran hon yn amrywio yn ôl deiliadaeth. Roedd gan 92 y cant o 'berchen-feddianwyr' system gwres canolog, o gymharu ag 81 y cant o 'r rhai sy'n 'rhentu'n breifat'.

Roedd gan 93 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd 'trefol' system gwres canolog, o gymharu ag 82% o aelwydydd mewn ardaloedd 'gwledig'. Dywedodd 7 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd 'gwledig' mai'r prif ddull o wresogi eu hystafelloedd yn y gaeaf oedd 'tân agored neu stôf', o gymharu â'r cyfartaledd 'pob aelwyd' o 2 y cant.

Dywedodd 92 y cant o ymatebwyr fod y system wresogi yn eu cartref yn 'effeithiol iawn' neu'n 'eithaf effeithiol' yn eu barn nhw. Mae'r ganran hon yn amrywio yn ôl deiliadaeth, gyda 95 y cant o'r ymatebwyr sy'n 'berchen-feddianwyr' yn dweud bod y system wresogi yn eu cartref yn effeithiol. Roedd hyn yn cymharu â 85 y cant o ymatebwyr mewn 'tai cymdeithasol' a 83 y cant o'r ymatebwyr sydd mewn llety 'rhentu preifat'.

Mae siart 14.1 yn dangos mai dim ond un o bob ugain (5 y cant) o'r ymatebwyr mewn aelwydydd 'perchen-feddianwyr' a ddywedodd fod eu system wresogi 'ddim yn effeithiol iawn' neu 'ddim yn effeithiol o gwbl', o gymharu â bron i un o bob pump (17 y cant) o'r ymatebwyr mewn llety 'rhentu preifat'.

Siart 14.1: Barn ymatebwyr ar ba mor effeithiol yw eu system wresogi yn y gaeaf yn ôl deiliadaeth

Mae 'effeithiol' yn cynnwys pobl a ddywedodd 'effeithiol iawn' ac 'eithaf effeithiol' ac mae 'ddim yn effeithiol' yn cynnwys y rhai a ddywedodd 'ddim yn effeithiol iawn' a 'ddim yn effeithiol o gwbl'. Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oedd eu system wresogi yn effeithiol yn y gaeaf wedi'u hepgor o'r siart.

Arferion gwresogi

Gofynnodd yr arolwg Byw yng Nghymru ar ba amseroedd o'r dydd y byddai rhywun gartref yn ystod y gaeaf. Bwriad hyn oedd canfod trefn wresogi'r aelwyd h.y. pryd mae'r angen mwyaf am wres ym mhob aelwyd. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb.

Dywedodd 42 y cant o ymatebwyr fod rhywun gartref 'drwy'r dydd/drwy'r amser', dywedodd 37 y cant bod rhywun gartref 'gyda'r nos yn ystod yr wythnos' a dywedodd 34 y cant fod rhywun gartref 'gyda'r nos ar benwythnosau'.

Dywedodd 66 y cant o aelwydydd 'nad ydynt o oedran gwaith' a 61 y cant o aelwydydd 'di-waith' fod rhywun gartref 'drwy'r dydd/drwy'r amser' o gymharu â 16 y cant o aelwydydd sy'n gweithio. Dywedodd 58 y cant o aelwydydd mewn 'tai cymdeithasol' fod rhywun gartref 'drwy'r dydd/drwy'r amser' o gymharu â 40 y cant mewn aelwydydd 'perchen-feddianwyr' a 33 y cant mewn llety 'rhentu preifat'.

Taliadau am ynni

Roedd yr arolwg yn gofyn i ymatebwyr sut roeddent yn talu am nwy a thrydan. Atebodd bron o bob pump (19 y cant) 'ddim yn berthnasol' i'r cwestiwn am sut roeddent yn talu am nwy'r prif gyflenwad. Efallai fod hyn am nad oeddent wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad neu am mai trydan sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer holl ofynion ynni'r aelwyd.

Ar gyfer gweddill y dadansoddiad yn y rhan hon, nid yw'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod sut roeddent yn talu na'r ymatebwyr nad oedd ganddynt nwy neu drydan wedi eu cynnwys.

Dywedodd dros hanner yr aelwydydd eu bod yn talu am eu nwy (55 y cant) a thrydan (53 y cant) trwy 'ddebyd uniongyrchol' (siart 14.2). Mae chwarter yr aelwydydd yn talu am eu nwy a'u trydan trwy dderbyn 'biliau misol/chwarterol' (24 y cant). Roedd llai na 7 y cant o aelwydydd yn defnyddio dull gwahanol o dalu am eu nwy a thrydan na'r tri phrif

ddull: 'debyd uniongyrchol', 'biliau misol/chwarterol' a 'mesurydd talu ymlaen llaw'.

Siart 14.2: Dull o dalu biliau nwy a thrydan aelwydydd

Mae dulliau talu sy'n cael eu defnyddio gan lai na 3 y cant o aelwydydd wedi'u hepgor o'r siart.

Ar y cyfan, 'debyd uniongyrchol' yw'r ffordd rataf o dalu am eich ynni, wedi'i ddilyn gan 'filiau misol neu chwarterol'. Yn gyffredinol, 'mesurydd talu ymlaen llaw', boed yn un allwedd, cerdyn neu dalebau, yw'r ffordd ddrutaf o dalu am eich ynni. Roedd dau draean o ymatebwyr mewn aelwydydd 'perchen-feddianwyr' yn talu am eu nwy (66 y cant) a thrydan (63 y cant) trwy 'ddebyd uniongyrchol', o gymharu â thraean o ymatebwyr (32 y cant ar gyfer nwy a 31 y cant ar gyfer trydan) mewn llety 'rhentu preifat' ac un o bob pum ymatebydd mewn 'tai cymdeithasol' (21 y cant ar gyfer nwy a 20 y cant ar gyfer trydan).

Ar gyfer y tariff drutaf ('mesurydd talu ymlaen llaw'), roedd bron i hanner yr ymatebwyr mewn 'tai cymdeithasol' yn talu am eu nwy a thrydan fel hyn (51 y cant ar gyfer nwy a 46 y cant ar gyfer trydan). Fodd bynnag, yn achos ymatebwyr sy'n 'berchen-feddianwyr', dim ond 6 y cant oedd yn defnyddio 'mesurydd talu ymlaen llaw' ar gyfer nwy ac 8 y cant ar gyfer trydan.

Mae siart 14.3 yn dangos sut mae talu trwy ddebyd uniongyrchol yn amrywio gyda chyfanswm incwm gros aelwydydd. Ar gyfer ymatebwyr mewn aelwydydd sy'n ennill £40,000 neu fwy, roedd 78 y cant yn talu am eu nwy trwy 'ddebyd uniongyrchol', o gymharu â 30 y cant o ymatebwyr mewn aelwydydd sy'n ennill llai na £10,400. Mae'r un peth yn wir am drydan; 75 y cant i'r rheini sy'n ennill £40,000 neu fwy i lawr i 29 y cant i'r rheini sy'n ennill llai na £10, 400.

Siart 14.3: Taliadau 'debyd uniongyrchol' ar gyfer biliau nwy a thrydan, yn ôl cyfanswm incwm gros aelwydydd

Inswleiddio ac arbed ynni

Roedd yr arolwg Byw yng Nghymru yn gofyn i ymatebwyr a oedd y camau inswleiddio hyn wedi'u rhoi ar waith yn eu heiddo:

- inswleiddio'r to/atig;
- inswleiddio waliau ceudod;
- ffenestri gwydr dwbl (gan gynnwys gwydr eilaidd);
- atal drafftiau trwy ddrysau/ffenestri; a
- inswleiddio'r tanc dŵr poeth.

Roedd yr holl gamau inswleiddio posibl wedi'u cymryd mewn 27 y cant o aelwydydd; ac roedd rhai ohonynt wedi'u rhoi ar waith mewn 48 y cant arall. Nid oedd 22 y cant o ymatebwyr yn gwybod a oedd rhai neu bob un o'r camau inswleiddio wedi'u cymryd.

Roedd pob cam inswleiddio wedi'u cymryd mewn 26 y cant o'r aelwydydd mewn ardaloedd 'trefol', o gymharu â 32 y cant mewn ardaloedd 'gwledig'. Dim ond 14 y cant o'r aelwydydd mewn llety 'rhentu preifat' ddywedodd bod pob cam inswleiddio posibl wedi'u cymryd yn eu cartref, o gymharu â 23 y cant o aelwydydd mewn 'tai cymdeithasol' a 30 y cant mewn aelwydydd 'perchen-feddianwyr'.

Hefyd, dywedodd 7 y cant o ymatebwyr mewn llety 'rhentu preifat' nad oedd unrhyw gamau inswleiddio posibl wedi'u cymryd, o gymharu â chyfartaledd o 2 y cant ar gyfer 'pob aelwyd'.

Siart 14.4: Aelwydydd â phob cam inswleiddio posibl wedi'u cymryd, yn ôl deiliadaeth

Cwestiynau amwynderau

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd am amwynderau yn yr arolwg Byw yng Nghymru:

- *A oes gan yr aelwyd ddefnydd o:*
  - *Sinc cegin wedi'i gysylltu â chyflenwad dŵr*
  - *Basn ymolchi wedi'i gysylltu â chyflenwad dŵr*
  - *Bath wedi'i osod*
  - *Cawod wedi'i gosod*
  - *Cyflenwad dŵr poeth ac oer i bob un o'r tri canlynol (h.y. sinc, basn, bath/cawod)*
  - *Cyflenwad dŵr gan Awdurdod Dŵr*
  - *Toiled sy'n fflysio gyda mynedfa y tu mewn i'r adeilad*
  - *Toiled sy'n fflysio gyda mynedfa y tu allan i'r adeilad*
  - *Carthbwll/tanc septig*

    [] Oes, defnydd neilltuedig
    [] Oes, rhannu defnydd
    [] Nac oes

- *Beth yw'r prif ddull o wresogi'ch ystafelloedd yn y gaeaf?*

  [] Gwres Canolog
  [] Gwresogydd/ion storio nos
  [] Gwresogydd/tân wedi'i osod yn yr ystafell: Nwy
  []Gwresogydd/tân wedi'i osod yn yr ystafell: Trydan
  [] Tân/tanau agored a stof/iau (tanwydd solet)
  [] Gwresogyddion symudol: Trydan
  []Gwresogyddion symudol: Nwy potel/paraffin
  []Gwresogyddion symudol: Olew
  [] Arall
  [] Dim/ dim yn berthnasol
  [] Ddim yn gwybod

- *Pa mor effeithiol yw'r system wresogi yn eich cartref yn eich barn chi?*

  [] Effeithiol iawn
  [] Eithaf effeithiol
  [] Ddim yn effeithiol iawn
  [] Ddim yn effeithiol o gwbl
  [] Ddim yn gwybod

- *Hyd y gwyddoch, ydy'r camau hyn wedi'u rhoi ar waith yn eich aelwyd:*
  - *Inswleiddio'r to/atig*
  - *Inswleiddio waliau ceudod*
  - *Ffenestri gwydr dwbl (gan gynnwys gwydr eilaidd)*
  - *Atal drafftiau trwy ddrysau/ffenestri*
  - *Inswleiddio tanc dŵr poeth*

    [] Ddim yn berthnasol
    [] Ydynt –pob un ohonynt
    [] Ydynt –rhai ohonynt
    [] Nac ydynt
    [] Ddim yn gwybod

- *Ar wahân i'r gegin, ydych chi'n defnyddio bylbiau golau ynni isel yn rhai neu bob un o'r goleuadau yn eich cartref?*

  [] Ydw –pob un ohonynt
  [] Ydw –rhai ohonynt
  [] Nac ydw
  [] Ddim yn gwybod

- *Er mwyn helpu i weld faint rydych chi'n ei ddefnyddio ar eich system wresogi, yn ystod y gaeaf pan mae mwy o angen gwres, ar ba rai o'r adegau hyn ydych chi neu rywun arall yn eich aelwyd gartref yn rheolaidd?*

  [] Drwy'r dydd/drwy'r amser
  [] Boreau yn ystod yr wythnos (9am-12pm)
  [] Amser cinio yn ystod yr wythnos (12pm-2pm)
  [] Yn y prynhawn yn ystod yr wythnos (2pm-5pm)
  [] Gyda'r nos yn ystod yr wythnos
  [] Yn ystod y dydd ar benwythnosau
  [] Gyda'r nos ar benwythnosau
  [] Amrywio llawer
  [] Ddim yn gwybod

- *Pa un o'r dulliau hyn rydych chi'n ei ddefnyddio i dalu am eich trydan?*
- *A pha un o'r dulliau hyn rydych chi'n ei ddefnyddio i dalu am eich nwy prif gyflenwad?*

  [] Debyd uniongyrchol
  [] Gorchymyn sefydlog
  [] Bil misol/chwarterol
  [] Mesuryddion talu ymlaen llaw (allwedd, cerdyn neu dalebau)
  [] Wedi'i gynnwys yn y rhent
  [] Dull talu ag arian parod yn aml (h.y. yn amlach na unwaith y mis)
  [] Tanwydd uniongyrchol/uniongyrchol o fudd-daliadau
  [] Bil blynyddol sefydlog (pa faint bynnag o nwy/trydan a ddefnyddir) e.e. StayWarm
  [] Arall
  []Ddim yn berthnasol
  [] Ddim yn gwybod

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddiad o ddata arolwg Byw yng Nghymru 2008 ar dân a diogelwch tân. Mae'r arolwg yn casglu data ar danau damweiniol neu wedi'u cynnau'n fwriadol y mae aelwydydd wedi'u dioddef dros y 12 mis diwethaf ac a alwyd y Frigâd Dân i'w diffodd. Mae hefyd yn gofyn a oes larymau mwg gan aelwydydd, a ydynt wedi'u profi, ac am fesurau eraill sydd gan ymatebwyr yn eu cartrefi i'w diogelu rhag tanau.

Gofynnwyd y cwestiynau sy'n ymwneud â thân a diogelwch tân yn yr arolwg Byw yng Nghymru yn 2004, 2005 a 2008. Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau arolwg 2008. Gan fod nifer yr achosion o danau yn isel, wrth eu dadansoddi yn ôl newidynnau cydraddoldeb bydd nifer yr ymatebion mewn llawer o'r categorïau yn gyfyngedig.

Mae union eiriad y cwestiynau a ofynnwyd am danau a diogelwch tân yn arolwg Byw yng Nghymru 2008 i'w weld ar ddiwedd y bennod. Roedd mwyafrif y cwestiynau a ofynnwyd yn y modiwl tân yr un fath â'r rhai a ofynnwyd yn 2004 a 2005, ar wahân i un cwestiwn a ychwanegwyd yn 2008 ynglŷn â mesurau ychwanegol i atal tân a gyflwynwyd yn lle cwestiwn blaenorol ynglŷn â'r math o danau a gafwyd.

Ffynonellau data eraill ar danau

Daw cyfraddau'r achosion a gofnodwyd ac ystadegau gweithrediadau o adroddiadau a gyflwynwyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r rhain i'w cael ar StatsCymru[1] ond dim ond yn cynnwys manylion tanau a ddiffoddwyd gan y Frigâd Dân (tua 64 y cant o'r holl danau domestig yn 2008). Mae'r data a gasglwyd o'r arolwg Byw yng Nghymru yn ychwanegu at yr ystadegau swyddogol hyn drwy roi manylion ynghylch pob tân domestig a nodi'r aelwydydd sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef tân.

[1] www.statscymru.cymru.gov.uk

Mae'r diffiniad o dân domestig yn arolwg Byw yng Nghymru yn cyd-fynd ag amryw o categorïau a nodwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub, sef: prif danau mewn anheddau, tanau simnai, prif danau mewn garejys preifat a siediau a phrif danau mewn gerddi; ynghyd â chyfran ychwanegol o achosion o categorïau eilaidd sbwriel, cerbydau a strwythurau allanol.

Cynhyrchwyd Datganiad Ystadegol a Bwletin Ystadegol gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n trafod ac yn cymharu'r prif ganfyddiadau ynglŷn ag atal tân a chyfraddau achosion o arolygon Byw yng Nghymru 2004, 2005 a 2008. Mae'r cyhoeddiadau'n defnyddio methodoleg ychydig yn wahanol wrth ymdrin ag ymatebion 'ddim yn gwybod' wrth gyfrif cyfrannau, gan olygu bod gwahaniaethau bychan rhyngddynt a'r canlyniadau a nodir isod.

Achosion tân

Mae'r arolwg Byw yng Nghymru'n gofyn i ymatebwyr a fu tân damweiniol neu un wedi'i gynnau'n fwriadol yn eu cartref yn ystod y 12 mis diwethaf ac os bu, a alwyd y gwasanaeth tân ac achub mewn cysylltiad â'r tân. Gofynnwyd i ymatebwyr gynnwys tanau mewn ceir os digwyddodd ar eu safle neu ar y ffordd y tu allan i'w cartref.

Dengys arolwg Byw yng Nghymru fod 1.2 y cant o'r holl aelwydydd wedi dioddef tân damweiniol ar eu safle yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae cyfran yr aelwydydd a effeithiwyd gan dân domestig wedi aros yn sefydlog ers arolygon 2004 a 2005, sy'n golygu fod oddeutu 15,000 o aelwydydd yn dioddef tân bob blwyddyn yng Nghymru. Er mwyn gweld pa gartrefi sydd fwyaf mewn perygl, mae'r bennod hon yn edrych ar ddeiliadaeth, lefelau incwm a chyfansoddiad ethnig aelwydydd; yn ogystal ag oedran a statws anabledd yr ymatebydd, sef y person cyswllt yr aelwyd (HRP) neu eu priod fel rheol.

Mae oedran yr ymatebydd yn effeithio ar risg tân. Mae siart 15.1 yn dangos fod risg uwch i ymatebwyr iau: roedd 1.6 y cant o ymatebwyr 16-39 oed wedi dioddef tân damweiniol ar eu safle o fewn y 12 mis diwethaf o gymharu â 1.4 y cant o bobl 40-59 oed a 0.7 y cant o bobl 60 oed neu

drosodd. Fodd bynnag, mae data'r Gwasanaeth Tân yn dangos fod pensiynwyr a effeithir gan dân yn fwy tebygol o ddioddef yn fwy difrifol.

Siart 15.1: Aelwydydd a ddioddefodd dân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl oedran yr ymatebydd

(a) Gall niferoedd bychan fod yn ystadegol annibynadwy

Mae cysylltiad hefyd rhwng y math o aelwyd a risg o dân. Mae siart 15.2 yn dangos fod aelwydydd pensiynwyr yn unig tua hanner mor debygol ag aelwydydd eraill o ddioddef tân. Aelwydydd â phlant dibynnol oedd â'r risg mwyaf (1.5 y cant).

Preswylwyr tai cymdeithasol oedd fwyaf tebygol o fod wedi dioddef tân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf; dywedodd 2 y cant o'r ymatebwyr hyn iddynt gael eu heffeithio, o gymharu â 1.7 y cant ar aelwydydd rhent preifat a 0.9 y cant mewn cartrefi perchen-feddiant.

Siart 15.2: Aelwydydd a ddioddefodd dân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl math o aelwyd

(a) Gall niferoedd bychan fod yn ystadegol annibynadwy.

Siart 15.3: Aelwydydd a ddioddefodd dân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl deiliadaeth

(a) Gall niferoedd bychan fod yn ystadegol annibynadwy

Mae siart 15.4 yn dangos y berthynas rhwng nifer yr aelwydydd a oedd wedi dioddef tân damweiniol neu fwriadol yn ystod y 12 mis diwethaf ag incwm eu haelwyd. Roedd aelwydydd ar incwm is yn fwy tebygol o fod wedi dioddef tân yn ystod y 12 mis diwethaf nag aelwydydd ar incwm uwch.

Siart 15.4: Aelwydydd a ddioddefodd dân damweiniol neu fwriadol ar eu safle yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl incwm gros aelwydydd

(a) Gall niferoedd bychan fod yn ystadegol annibynadwy

Mae dwy ffactor cydraddoldeb arall sy'n dylanwadu ar nifer achosion tân: roedd aelwydydd lle'r oedd yr ymatebydd yn dioddef o salwch hirdymor cyfyngus, yn llesg neu'n anabl ychydig yn fwy tebygol nag aelwydydd eraill o fod wedi dioddef tân damweiniol neu fwriadol yn ystod y 12 mis diwethaf - 1.4 y cant o gymharu â 1.1 y cant o aelwydydd eraill. Noder fodd bynnag fod y rhifau'n fychan a gallant fod yn ystadegol annibynadwy.

Roedd aelwydydd lle'r oedd yr ymatebydd o gefndir ethnig heb fod yn wyn yn fwy tebygol o ddioddef tân (3.1 y cant) nag aelwydydd lle'r oedd yr ymatebydd yn wyn (1.2 y cant). Unwaith eto, noder fod y rhifau'n fychan a gallant fod yn ystadegol annibynadwy.

Defnydd o'r Gwasanaeth Tân ac Achub

Wedyn gofynnwyd i aelwydydd a ddywedodd eu bod wedi dioddef tân yn ystod y 12 mis diwethaf a oeddynt hwy neu rywun arall wedi galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn cysylltiad â'r tân.
Dywedwyd bod y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi'u galw i 64 y cant o'r holl aelwydydd a oedd wedi dioddef tân yn 2008 o gymharu â 54 y cant yn 2004. Noder fodd bynnag fod y dadansoddiad canlynol o'r 'gyfradd galw allan' yn seiliedig ar niferoedd bychan o achosion a gallai fod yn ystadegol annibynadwy.

Ymatebwyr canol oed oedd â'r cyfraddau 'galw allan' uchaf gyda 75 y cant o bobl 40-59 oed a ddioddefodd dân yn ystod y 12 mis diwethaf yn dweud eu bod wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn cysylltiad â'r digwyddiad. Roedd cyfraddau galw allan grwpiau oedrannau eraill yn is: 56 y cant o bobl rhwng 16-39 a 52 y cant o bobl 60 oed a throsodd ddywedodd eu bod wedi galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Siart 15.5: O'r aelwydydd a ddioddefodd dân yn ystod y 12 mis diwethaf, a alwyd y Gwasanaeth Tân ac Achub ai peidio, yn ôl oedran yr ymatebydd

(a) Gall niferoedd bychan fod yn ystadegol annibynadwy

Mae siart 15.6 yn dangos fod y cyfraddau galw allan yn ôl mathau o aelwydydd yn amrywio rhwng 60 y cant a 70 y cant yn 2008. Aelwydydd heb bensiynwyr a heb blant dibynnol oedd fwyaf tebygol o wneud defnydd o'r gwasanaeth gyda 67 y cant o'r aelwydydd hynny'n cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Siart 15.6: O'r aelwydydd a ddioddefodd dân yn ystod y 12 mis diwethaf, a alwyd y Gwasanaeth Tân ac Achub ai peidio, yn ôl math o aelwyd

(a) Gall niferoedd bychan fod yn ystadegol annibynadwy

Preswylwyr tai cymdeithasol oedd fwyaf tebygol o alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn 2008. Galwyd y Gwasanaeth Tân ac Achub i 74 y cant o danau yn y math yma o ddeiliadaeth, o gymharu â 63 y cant i danau mewn cartrefi perchen-feddiant a 52 y cant o dai rhent preifat.

Siart 15.7: O'r aelwydydd a ddioddefodd dân yn ystod y 12 mis diwethaf, a alwyd y Gwasanaeth Tân ac Achub ai peidio, yn ôl deiliadaeth

(a) Gall niferoedd bychan fod yn ystadegol annibynadwy

Atal tân

Gofynnodd arolwg Byw yng Nghymru i'r ymatebwyr faint o larymau mwg a weithiai'n iawn oedd wedi'u gosod yn eu cartref. Os oedd o leiaf un larwm mwg wedi'i osod yn y cartref, yna gofynnwyd iddynt ai o'r prif gyflenwad neu ar fatri y gweithiai; hefyd gofynnwyd iddynt pryd y cafodd ei brofi ddiwethaf.
Yn 2008, gofynnodd yr arolwg am fesurau atal tân eraill.

Yn gryno, larymau mwg oedd y mesur atal tân mwyaf cyffredin gyda'r arolwg yn dangos fod 90 y cant o aelwydydd yng Nghymru ag o leiaf un larwm mwg a weithiai'n iawn. O fewn y cyfanswm hwn, roedd 28 y cant o aelwydydd ag un larwm tân, 45 y cant â dau ac 16 y cant â thri neu fwy. Mae siart 15.8 yn dangos pa mor gyffredin oedd larymau mwg a mesurau atal tân cyffredin eraill.

Siart 15.8: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau (a)

(a) Mae'r ganran yn fwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un mesur atal tân

Yn ogystal â larymau mwg, mae siart 15.8 yn dangos fod mesurau atal tân cyffredin yn cynnwys ffenestri a agorai'n llydan (43 y cant) i alluogi pobl i ddianc yn haws os oes tân; roedd diffoddwyr tân (18 y cant) a blancedi tân yn boblogaidd hefyd. Dim ond 5 y cant o aelwydydd a ddywedodd nad oeddynt wedi rhoi unrhyw fesurau ar waith i ddiogelu eu hunain rhag tân yn 2008.

Mae'r mesurau mwyaf poblogaidd (larymau mwg, ffenestri sy'n agor yn llydan, diffoddwyr tân a blancedi tân) yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r newidynnau cydraddoldeb isod. Mae siart 15.9 yn dangos fod aelwydydd ag ymatebwyr iau ychydig n fwy tebygol o fod â larymau mwg, ond aelwydydd canol oed oedd fwyaf tebygol o fod â'r mesurau atal tân eraill. Aelwydydd lle'r oedd yr ymatebydd dros 60 oed oedd â'r lefelau isaf o'r pedwar math o gyfarpar diogelwch tân.

Siart 15.9: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau, yn ôl oedran yr ymatebydd (a)

(a) Mae'r ganran yn fwy na 100% gan fod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un mesur atal tân

Siart 15.10: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau, yn ôl mathau o aelwyd (a)

(a) Mae'r ganran yn fwy na 100% gan fod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un mesur atal tân

Gan gadarnhau'r canfyddiad fod aelwydydd ag ymatebwyr hŷn yn llai tebygol o fod â chyfarpar diogelwch tân yn eu meddiant, mae siart 15.10 yn dangos fod aelwydydd pensiynwyr yn unig yn llai tebygol o fod â'r pedwar mesur atal tân yn eu meddiant. Aelwydydd â phlant dibynnol oedd yn fwyaf tebygol o fod â ffenestri sy'n agor yn llydan, ac roedd aelwydydd heb blant dibynnol yn fwy tebygol o fod â diffoddwyr tân a blancedi tân yn eu meddiant.

Roedd y mesurau atal tân yn amrywio yn ôl deiliadaeth yr aelwyd. Larymau mwg a ddefnyddid fwyaf mewn tai cymdeithasol; ffenestri sy'n agor yn llydan oedd fwyaf poblogaidd mewn tai perchen-feddiant; a diffoddwyr tân a blancedi tân mewn cartrefi rhent preifat.

Siart 15.11: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau, yn ôl deiliadaeth (a)

(a) Mae'r ganran yn fwy na 100% gan fod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un mesur atal tân

Fel y dangosir yn siart 15.12, roedd aelwydydd lle'r oedd yr ymatebydd o gefndir ethnig gwyn yn fwy tebygol o fod â larymau mwg, ffenestri sy'n agor yn llydan a diffoddwyr tân nag aelwydydd lle'r oedd yr ymatebydd o gefndir ethnig heb fod yn wyn; ond roeddynt yn llai tebygol o fod â blanced tân yn eu meddiant.

Siart 15.12: Beth sydd gan aelwydydd yn eu cartrefi ar hyn o bryd i ddiogelu eu haelwydydd rhag tanau, yn ôl grŵp ethnig yr ymatebydd (a)

(a) Mae'r ganran yn fwy na 100% gan fod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un mesur atal tân
(b) Gall niferoedd bychan fod yn ystadegol annibynadwy.

Mae dwy ffactor cydraddoldeb arall sy'n dylanwadu ar nifer achosion tân: roedd aelwydydd ag incwm blynyddol uwch yn fwy tebygol o fod â'r cyfarpar atal tân nag aelwydydd ar incwm is. Gwelwyd bod mwy o ymatebwyr â salwch hirdymor cyfyngus, sy'n llesg neu'n anabl yn meddu ar larymau tân, ond roedd ffenestri sy'n agor yn llydan, diffoddwyr tân a blancedi tân gan lai ohonynt na'r holl aelwydydd eraill.

Larymau mwg: math o bŵer a phrofi

Mae rheoliadau adeiladu cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i osod larwm sy'n gweithio oddi ar y prif gyflenwad ym mhob tŷ newydd. O'r herwydd, bu cynnydd graddol yng nghyfran y larymau sy'n rhedeg oddi ar y prif gyflenwad. Cododd canran yr holl larymau sy'n gweithio oddi ar y prif gyflenwad o 26 y cant o aelwydydd yn 2004 i 28 y cant yn 2008. Hefyd, mae'n bolisi gan Lywodraeth y Cynulliad i osod larymau mwg sy'n gweithio oddi ar y prif gyflenwad mewn anheddau awdurdod lleol a chymdeithas dai.

Roedd ymatebwyr hŷn yn llai tebygol o fod â larymau tân yn gweithio oddi ar y prif gyflenwad. Roedd 33 y cant o larymau mwg lle'r oedd yr ymatebydd rhwng 16-39 oed yn gweithio oddi ar y prif gyflenwad yn 2008. Gwelwyd gostyngiad graddol yng nghyfran y larymau a weithiai oddi ar y prif gyflenwad yn ôl pob grŵp oedran, gan ostwng i 24 y cant o larymau ymhlith ymatebwyr 60 oed neu drosodd.

Siart 15.13: Cyfran yr aelwydydd sydd â larwm mwg yn gweithio oddi ar y prif gyflenwad, yn ôl oedran yr ymatebydd

Mae pobl nad oeddynt yn gwybod beth oedd ffynhonnell bŵer eu larwm wedi'u hepgor o'r siart.

Mae siart 15.14 yn dangos fod bron i 60 y cant o larymau'n gweithio oddi ar y prif gyflenwad mewn tai cymdeithasol. Roedd hyn oddeutu dwywaith y gyfran a oedd yn gweithio oddi ar y prif gyflenwad mewn aelwydydd rhent preifat, a theirgwaith yr aelwydydd perchen-feddiant.

Siart 15.14: Cyfran yr aelwydydd sydd â larwm mwg yn gweithio oddi ar y prif gyflenwad, yn ôl deiliadaeth

Mae pobl nad oeddynt yn gwybod beth oedd ffynhonnell bŵer eu larwm wedi'u hepgor o'r siart.

Hefyd gofynnodd arolwg Byw yng Nghymru i ymatebwyr a oeddynt wedi profi eu larymau mwg yn ystod y mis diwethaf, neu, os nad oeddynt, a oeddynt wedi eu profi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (noder y bydd larymau mwg yn cael eu hystyried wedi'u profi os oes o leiaf un larwm ar safle'r aelwyd wedi'i brofi neu'i osod yn ystod y cyfnodau hyn). Dangosodd hyn fod 66 y cant o aelwydydd wedi profi pob un o'u larymau o fewn y mis diwethaf a 92 y cant wedi profi o leiaf rai o'u larymau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd lefel profi'n gyson ar draws gwahanol fandiau oedran, mathau o aelwydydd, lefelau incwm, categorïau deiliadaeth a statws anabledd yr ymatebydd.

Yr unig wyriad bychan o'r patrwm a gafwyd oedd yn ôl ethnigrwydd, lle'r oedd aelwydydd gydag ymatebwyr a alwai eu hunain yn 'wyn' o ran ethnigrwydd yn fwy tebygol o fod wedi profi eu larymau o fewn y mis diwethaf (70 y cant) a'r flwyddyn ddiwethaf (92 y cant) nag aelwydydd eraill gydag ymatebwyr o gefndiroedd ethnig eraill (64 y cant a 86 y cant).

Llwybr dianc

Gofynnodd yr arolwg Byw yng Nghymru a fyddent yn gallu cyrraedd drws allanol mewn argyfwng heb fynd drwy ystafell arall pe baent yn unrhyw un o'r ystafelloedd gwely yn eu cartref.

Roedd 80 y cant o ymatebwyr yn gallu cyrraedd drws allanol o'u hystafell wely mewn argyfwng heb fynd drwy ystafell arall.

Siart 15.15: Cyfran yr aelwydydd lle NAD yw'n bosibl mynd allan mewn argyfwng o ystafell wely heb fynd drwy ystafelloedd eraill, yn ôl deiliadaeth (a)

(a) Mae ymatebwyr nad oeddynt yn gwybod a allent gyrraedd drws allanol mewn argyfwng heb fynd drwy ystafell arall os oeddynt yn unrhyw un o ystafelloedd gwely eu cartref wedi'u hepgor o'r siart

Ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartref rhent preifat oedd leiaf tebygol o allu cyrraedd drws allanol o ystafell wely mewn argyfwng heb fynd drwy ystafell arall. Dangosir hyn yn siart 15.15. Roedd 25 y cant o bobl mewn cartrefi rhent preifat yn methu gwneud hyn o gymharu â 20 y cant o bobl mewn cartrefi perchen-feddiant.

Cwestiynau ynglŷn â thân a diogelwch tân

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd ynglŷn â thân a diogelwch tân yn arolwg Byw yng Nghymru 2008:

- *Faint, os o gwbl, o larymau tân sy'n gweithio'n iawn sydd gennych yn eich cartref?*
  - *[ ]Un*
  - *[ ] Dau*
  - *[ ] Tri neu fwy*
  - *[ ] Dim un*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

- *A yw'n/ydynt yn gweithio oddi ar y prif gyflenwad neu ar fatri?*
  - *[ ] Prif gyflenwad*
  - *[ ] Ar fatri*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

- *Ac yn ystod y mis diwethaf, a ydych chi neu unrhyw un arall wedi profi'r larymau tân i weld a ydynt yn dal i weithio'n iawn?*
  - *[ ] Do – pob un*
  - *[ ] Do – rhai*
  - *[ ] Wedi'u gosod yn ystod y mis diwethaf*
  - *[ ] Naddo*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

- *A ydych chi, neu unrhyw un arall wedi eu profi yn ystod y 12 mis diwethaf?*
  - *[ ] Do – pob un*
  - *[ ] Do – rhai*
  - *[ ] Wedi'u gosod yn ystod y 12 mis diwethaf*
  - *[ ] Naddo*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

- *Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol sydd gennych ar hyn o bryd yn eich cartref i ddiogelu eich aelwyd rhag tanau?*
  - *[ ] Larwm (larymau) mwg*
  - *[ ] Diffoddwr(wyr) tân*
  - *[ ] Blanced(i) tân*
  - *[ ]Drws (drysau) tân*
  - *[ ]Ysgol/rhaff(au)*
  - *[ ] Dihangfa (diangfeydd) tân*
  - *[ ] Ffenestr(i) sy'n agor yn llydan*
  - *[ ] Synhwyrydd (ion) gwres*
  - *[ ] Taenellwr(wyr) dŵr*
  - *[ ] Arall (nodwch)*
  - *[ ] Dim un o'r uchod*

- *Allwch chi ddweud wrtha i a fu tân damweiniol neu fwriadol ar y safle hwn yn ystod y 12 mis diwethaf? Mae hyn yn cynnwys tanau mewn car os oedd ar eich safle neu ar y ffordd y tu allan i'ch cartref.*
  - *[ ] Do*
  - *[ ] Naddo*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

- *A wnaethoch chi neu rywun arall alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn cysylltiad â'r tân?*
  - *[ ] Do*
  - *[ ] Naddo*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

- *Pe baech chi yn un o ystafelloedd gwely eich cartref, a fyddech chi'n gallu cyrraedd drws allanol mewn argyfwng heb fynd drwy ystafell arall?*
  - *[ ] Byddwn*
  - *[ ] Na fyddwn*
  - *[ ] Ddim yn gwybod*

Cyflwyniad

Mae'r Arolwg Byw yng Nghymru'n casglu data ar sawl maes cyllid tai. Gofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr i bennu a oeddent yn berchen ar eu cartref presennol neu'n ei rentu. Yna, gofynnwyd cwestiynau dilynol i bob set o ymatebwyr am eu cyllid tai eu hunain, ar faterion fel morgeisi, ad-daliadau, rhent misol a bandiau y dreth gyngor.

Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau arolwg 2008, ond gofynnwyd cwestiynau am gyllid tai yn yr arolwg Byw yng Nghymru ers 2004, felly bydd hi'n bosibl edrych ar dueddiadau rhwng 2004 a 2008. Mae union eiriad y cwestiynau a ofynnwyd yn adran cyllid tai yr arolwg Byw yng Nghymru i'w weld ar ddiwedd y bennod.

Deiliadaeth

Roedd bron i dri chwarter yr holl aelwydydd yn eiddo perchen-feddiant. Roedd cyfran uchaf personau cyswllt aelwydydd (HRPs) a oedd yn berchen-feddianwyr yn dod o'r grŵp oedran 60 i 69 mlwydd oed.

Tabl 16.1: Oedran person cyswllt yr aelwyd yn ôl deiliadaeth

Grŵp oedran	Perchen-feddiant	Rhentu gan awdurdod lleol	Rhentu gan gymdeithas dai	Rhentu preifat	Cyfanswm
16-29	35%	14%	12%	38%	100%
30-39	65%	10%	8%	17%	100%
40-49	76%	8%	6%	11%	100%
50-59	82%	7%	5%	7%	100%
60-69	84%	8%	4%	4%	100%
70 oed a hŷn	78%	11%	6%	5%	100%
Pob oedran	73%	9%	6%	11%	100%

Cyfanswm a bwysolwyd: 1,268,400 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Roedd HRP iau yn llawer llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain. Yn wir, roedd mwy o HRP rhwng 16 a 29 oed yn rhentu eu cartrefi gan landlord preifat nag a oedd wedi prynu eu cartrefi eu hunain. Dim ond 15 y cant o'r holl HRP oedd yn byw mewn tai cymdeithasol (tai ar rent gan yr awdurdod lleol neu gymdeithas dai).

Perchen-feddianwyr

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau pellach i'r 73 y cant o aelwydydd a oedd yn berchen ar eu cartrefi eu hunain ynglŷn â threfniadau prynu eu heiddo, yn cynnwys math, hyd a swm unrhyw forgais cychwynnol a godwyd gan yr aelwyd.

Prynodd y mwyafrif o'r aelwydydd eu cartrefi eu hunain drwy gymorth morgais, gyda thri chwarter y perchen-feddianwyr yn gwneud hynny. Roedd bron i un o bob pump o'r perchen-feddianwyr yn ddigon ffodus i allu prynu a thalu am eu cartrefi yn gyfan gwbl gydag arian heb orfod cael morgais, ac roedd y 5 y cant oedd yn weddill wedi etifeddu eu cartref. Mae'n amlwg o siart 16.1 fod dull perchen-feddianwyr o brynu tŷ yn uniongyrchol gysylltiedig ag oedran.

Siart 16.1: O'r aelwydydd hynny sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, y dull o brynu tŷ, yn ôl oedran person cyswllt yr aelwyd

Roedd aelwydydd â HRP ifanc yn fwy tebygol o fod wedi prynu eu cartref drwy ddefnyddio morgais, ac roedd aelwydydd â HRP hŷn yn fwy tebygol o fod wedi prynu eu cartref gydag arian yn gyfan gwbl.

Tabl 16.2: O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, y flwyddyn y codwyd y morgais gwreiddiol a ddefnyddiwyd i brynu'r eiddo

Blwyddyn codi'r morgais gwreiddiol	
Cyn 1980	2%
1980 i 1989	14%
1990 i 1999	29%
2000 neu hwyrach	55%
Cyfanswm	100%

Cyfanswm a bwysolwyd: 392,200 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Mae tabl 16.2 yn dangos fod mwyafrif y morgeisi wedi'u codi gan aelwydydd ers dechrau 2000 (55 y cant).

Siart 16.2: O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfnod y morgeisi a godwyd ers dechrau 2000

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod beth oedd hyd cyfnod eu morgais wedi'u hepgor

Roedd 16 y cant o'r morgeisi a godwyd ers dechrau 2000 gan aelwydydd â HRP rhwng 16 a 29 oed. Mae hyn yn rhoi syniad cymaint o HRP ifanc sydd wedi prynu eiddo am y tro cyntaf ers 2000.

Y cyfnod morgais mwyaf cyffredin oedd 25 mlynedd; roedd dwy ran o dair o forgeisi'n para am y cyfnod yma. O'r holl forgeisi a godwyd ers dechrau 2000, mae siart 16.2 yn dangos fod 9 y cant yn forgeisi sy'n para am fwy na 25 mlynedd. Mae'r cynnydd yn y defnydd o gyfnodau morgais hwy yn amlwg wrth edrych ar y newid ers 2004, pan mai ond 1 y cant o'r holl aelwydydd oedd â morgais dros fwy na 25 mlynedd.

Mae maint morgais cychwynnol aelwydydd yn dibynnu'n helaeth ar bryd y codwyd y morgais ganddynt.

Mae siart 16.3 yn pwysleisio cymaint y mae cost morgais cychwynnol wedi cynyddu i aelwydydd sydd wedi codi morgais ers 1990.

Siart 16.3: O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, maint y morgais cychwynnol a godwyd rhwng 1990 a 1999, ac o 2000 ymlaen

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod faint o forgais cychwynnol oedd ganddynt wedi'u hepgor

Dim ond 10 y cant o'r holl forgeisi cychwynnol a godwyd rhwng 1990 a 1999 oedd yn £75,000 neu fwy. Golygodd chwyddiant a'r cynnydd mawr mewn prisiau tai ar ddechrau'r 2000au fod cost morgais cychwynnol wedi gorfod codi mewn blynyddoedd diweddar; felly, ers dechrau 2000, mae dros hanner y morgeisi cychwynnol a godwyd yn £75,000 neu'n fwy. Yn gyffredinol, roedd traean o'r holl forgeisi cychwynnol yn £75,000 neu'n fwy.

Yr aelwydydd sydd â HRP ifanc sydd â'r morgeisi drutaf; roedd 59 y cant o aelwydydd oedd â HRP rhwng 16 a 29 oed wedi codi morgais o £75,000 neu fwy, o gymharu â 28 y cant o HRP rhwng 40 a 49 oed a 18 y cant o HRP rhwng 50 a 59 oed.

Siart 16.4: O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfanswm incwm gros aelwydydd a gododd forgais cychwynnol o £75,000 neu fwy

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod beth oedd cyfanswm incwm gros eu haelwyd wedi'u hepgor

Mae siart 16.4 yn cysylltu incwm aelwydydd yn 2008 â'r is-grŵp o berchnogion tai â morgais gwreiddiol o £75,000 neu fwy.

Roedd gan mwyafrif yr aelwydydd a gododd forgais cychwynnol o £75,000 neu fwy gyfanswm incwm gros hysbys o £50,000 neu uwch. Fodd bynnag, roedd 9 y cant o ymatebwyr yn byw ar aelwydydd â morgais gwreiddiol o £75,000 neu fwy ac incwm gros cyfredol hysbys o lai na £20,799.

Nid oedd gan y mwyafrif o aelwydydd a gododd forgais cychwynnol o £75,000 neu fwy unrhyw gynilion (54 y cant).

Mae ychydig dros hanner yr holl aelwydydd a brynodd eu cartref â morgais wedi llwyddo i dalu eu morgais yn llawn. Mae siart 16.5 yn dangos fod aelwydydd â HRP hŷn yn llawer mwy tebygol o fod wedi talu eu morgais yn llawn o gymharu ag aelwydydd â HRP iau.

Er bod 97 y cant o aelwydydd â HRP 70 oed a hŷn wedi talu eu morgeisi'n llawn, dim ond 8 y cant o aelwydydd â HRP rhwng 16 a 29 oedd wedi talu eu morgeisi'n llawn.

Siart 16.5: O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfran y morgeisi sy'n dal yn ddyledus neu wedi'u talu'n llawn, yn ôl oedran person cyswllt yr aelwyd

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oedd y morgais cychwynnol a ddefnyddiwyd i brynu eu cartref yn dal yn ddyledus wedi'u hepgor

Roedd 37 y cant o aelwydydd wedi benthyg mwy o arian ers codi eu morgais gwreiddiol; roedd gan chwarter yr aelwydydd hyn fenthyciadau ychwanegol o lai na £5,000 i gyd, ac roedd gan chwarter yr aelwydydd fenthyciadau ychwanegol rhwng £5,000 a £14,999 i gyd. Dim ond un benthyciad oedd mwyafrif yr aelwydydd a fenthyciodd fwy o arian (66 y cant) wedi'i gymryd, a'r swm mwyaf cyffredin a fenthyciwyd oedd rhwng £5,000 a £14,999 i gyd (30 y cant).

Dynododd 78 y cant o ymatebwyr mai diben y benthyg ychwanegol oedd trwsio neu wella'r cartref a nododd 31 y cant o ymatebwyr mai diben arall anhysbys oedd i'r benthyciad ychwanegol (gallai ymatebwyr roi mwy nag un rheswm dros eu benthyg ychwanegol).

Dim ond 11 y cant o aelwydydd a brynodd eu tai â morgais oedd wedi ad-dalu drwy gyfandaliad neu ordaliadau rheolaidd tuag at eu morgeisi dyledus. Nid yw'n syndod fod cyfanswm incwm gros hysbys o £50,000 neu uwch gan draean o'r aelwydydd a wnaeth gyfandaliad neu ordaliadau rheolaidd.

Siart 16.6: O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfanswm y benthyciadau/morgeisi sy'n ddyledus

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod beth oedd cyfanswm y benthyciad/morgais sy'n ddyledus wedi'u hepgor

Mae siart 16.6 yn dangos cyfanswm yr holl fenthyciadau neu forgeisi sy'n ddyledus gan aelwydydd. 43 y cant o aelwydydd oedd â dyledion llai na £5,000. Fodd bynnag, roedd yr arian a oedd yn ddyledus yn amrywio yn ôl oedran. Roedd 56 y cant o aelwydydd â HRP 60 oed a hŷn â dyledion o lai na £5,000. Roedd dyledion aelwydydd â HRP rhwng 16 a 29 oed lawer yn uwch, ac roedd gan y mwyafrif gyfanswm benthyciadau neu forgeisi o dros £75,000 yn ddyledus (43 y cant).

Mae siart 16.7 yn tynnu sylw at gyfanswm yr ad-daliadau misol ar bob benthyciad a morgais sy'n ddyledus. Roedd mwyafrif yr aelwydydd yn wynebu ad-daliadau o rhwng £250 a £499 y mis.

Siart 16.7: O'r aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, cyfanswm ad-daliadau misol ar bob benthyciad/morgais sy'n ddyledus

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod beth oedd cyfanswm yr ad-daliad misol ar bob benthyciad/morgais sy'n ddyledus wedi'u hepgor

Mae cyfartaledd cyfanswm yr ad-daliad ar bob benthyciad a morgais sy'n ddyledus yn uwch i aelwydydd â HRP ifanc. Mae aelwydydd â HRP rhwng 16 a 29 oed yn wynebu ad-daliadau o £550 y mis, £222 y mis yn fwy nag aelwydydd â HRP 60 oed a hŷn.

Mae'n bosibl mai'r rheswm dros y gwahaniaeth yw effaith bod â morgais; roedd HRP rhwng 16 a 29 oed yn fwy tebygol o fod â thaliad morgais yn rhan o gyfanswm eu had-daliad o gymharu â HRP 60 oed a hŷn a oedd yn fwy tebygol o fod wedi ad-dalu eu morgais yn llawn.

Pobl sy'n Rhentu

Roedd ychydig dros chwarter yr holl aelwydydd yn rhentu eu cartrefi. Mae tabl 16.3 yn dangos fod y cyfartaledd rhent yn £352 y mis ar gyfer yr holl aelwydydd a oedd yn rhentu eu cartrefi.

Tabl 16.3: O'r aelwydydd a oedd yn rhentu eu cartrefi eu hunain, cyfartaledd y rhent misol yn ôl math o landlord

Math o landlord	£ y mis
Awdurdod lleol neu gyngor	263
Cymdeithas dai, cwmni cydweithredol neu ymddiriedolaeth elusennol	291
Landlord preifat	469
Pob rhent	352

Cyfanswm a bwysolwyd: 337,000 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Roedd y cyfartaledd rhent isaf am eiddo ar rent gan awdurdod lleol neu gyngor, sef £263 y mis. Roedd rhent aelwydydd a oedd yn rhentu gan landlord preifat yn llawer uwch, sef £469 y mis.

Gwelwyd eisoes fod HRP iau yn llawer mwy tebygol o fod yn byw mewn llety rhent preifat. Mae siart 16.8 yn dangos fod cost gymharol byw mewn llety rhent preifat yn uwch i aelwydydd lle mae'r penteulu yn y grŵp oedran 16 i 29. Roedd y grŵp yma yn talu rhent misol uwch o gymharu â'r holl grwpiau oedran eraill.

Siart 16.8: O'r aelwydydd a oedd yn rhentu eu cartrefi eu hunain, cyfartaledd rhent misol yn ôl oedran yr HRP

Y cyfartaledd rhent i HRP mewn gwaith llawn amser neu ran-amser oedd £384 y mis, a'r cyfartaledd rhent i HRP wedi'u cofrestru'n ddi-waith oedd £332 y mis.

Hefyd, roedd cyfartaledd rhent yn uniongyrchol gysylltiedig â dosbarth dadansoddol Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yr HRP; po uchaf y dosbarth dadansoddol NS-SEC, uchaf i gyd fyddai'r cyfartaledd rhent misol. Roedd HRP a weithiai mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch' yn talu £459 y mis o gymharu â HRP a weithiai mewn 'swyddi cyffredin', a dalai £309 o rent y mis.

Mae siart 16.9 yn dangos sut roedd y cyfartaledd rhent misol yn amrywio yn ôl band y dreth gyngor ar gyfer eiddo yng Nghymru. Y cyfartaledd rhent am eiddo ym mand treth cyngor A oedd £284 y mis, £93 y mis yn is nag eiddo ym mand treth cyngor D.

Mae'r siart hefyd yn tynnu sylw at faint yn ddrutach oedd rhentu eiddo yn y bandiau treth cyngor uwch; y cyfartaledd rhent am eiddo mewn band treth cyngor uwch na band D oedd £544.

Siart 16.9: O'r aelwydydd oedd yn rhentu eu cartrefi eu hunain, cyfartaledd rhent misol yn ôl band treth cyngor yr eiddo

Mae bandiau treth cyngor E, F, G, H ac I wedi'u grwpio gyda'i gilydd gan mai niferoedd bach oedd ym mhob band.

Roedd mwyafrif yr aelwydydd (84 y cant) yn rhentu llety a ddarparwyd heb ei ddodrefnu. Roedd 98 y cant o aelwydydd a oedd yn rhentu eu llety gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai wedi'i gael heb ei ddodrefnu, tra dim ond ychydig dros un o bob pump o'r aelwydydd a oedd yn rhentu llety gan landlord preifat oedd yn ei gael heb ei ddodrefnu. Cyfartaledd rhent am lety heb ei ddodrefnu oedd £323 y mis, o'i gymharu â £557 y mis am lety wedi'i ddodrefnu.

Ar gyfartaledd, roedd hi'n costio £140 y mis yn fwy i rentu llety wedi'i ddodrefnu gan landlord preifat nag a gostiai i'w rentu heb ei ddodrefnu. Roedd 60 y cant o aelwydydd myfyrwyr yn rhentu eu llety wedi'i ddodrefnu, ac felly'n talu'r cyfartaledd rhent misol uwch.

Mae siart 16.10 yn dangos y cynnydd yn y cyfartaledd rhent misol am lety wedi'i ddodrefnu a heb ei ddodrefnu ers 2004. Mae'r cyfartaledd rhent ar gyfer llety wedi'i ddodrefnu a heb ei ddodrefnu wedi codi 25 y cant ers 2004.

Siart 16.10: O'r aelwydydd a oedd yn rhentu eu cartrefi eu hunain, cyfartaledd rhent misol am lety wedi'i ddodrefnu a heb ei ddodrefnu, yn ôl blwyddyn

Roedd 56 y cant o'r holl aelwydydd a oedd yn rhentu eu cartref yn derbyn budd-dal tai, ac o'r rhai hynny roedd dwy ran o dair yn derbyn budd-dal tai a dalai eu rhent i gyd. Roedd dwywaith cymaint o aelwydydd sy'n rhentu eu heiddo gan awdurdod lleol yn derbyn budd-dal tai (72 y cant) ag a oedd o aelwydydd sy'n rhentu gan landlord preifat (36 y cant).

Roedd y cyfartaledd rhent a delid yn llawn gan fudd-dal tai yn amrywio o £263 y mis am eiddo ar rent gan awdurdod lleol i £373 y mis am eiddo ar rent gan landlord preifat.

Y Dreth Gyngor

Ni roddodd traean o'r ymatebwyr ateb i'r cwestiwn 'ym mha fand treth cyngor y mae eich cartref?' Roedd ymatebwyr a oedd yn berchen-feddianwyr yn llawer mwy tebygol o fod wedi ateb; rhoddodd 75 y cant amcangyfrif o fand treth cyngor eu heiddo. Fodd bynnag, ni roddodd dros hanner yr ymatebwyr a oedd yn byw mewn eiddo rhent ateb i'r cwestiwn.

Siart 16.11: Amcangyfrif ymatebwyr o fand treth cyngor yr eiddo

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod beth oedd band treth cyngor eu heiddo wedi'u hepgor

Roedd hi'n anorfod na fyddai pob ymatebydd a roddodd ateb yn berffaith siŵr ym mha fand treth cyngor oedd eu heiddo, felly bydd yr ymatebion yn yr adran hon yn seiliedig ar ryw radd o amcangyfrif ar ran yr ymatebydd.

O'r ymatebwyr a roddodd ateb, y band treth cyngor mwyaf cyffredin oedd D, ar 25 y cant. Mae siart 16.11 yn dangos y dosraniad llawn. Roedd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr ym mand treth cyngor E neu uwch.

Roedd ymatebwyr iau rhwng 16 a 29 oed yn fwy na dwywaith mor debygol o fod yn byw mewn eiddo ym mand treth cyngor A o gymharu â phob grŵp oedran arall. Eiddo awdurdod lleol oedd y gyfran fwyaf ym mandiau A a B gyda 70 y cant o'r eiddo yn y bandiau hynny; y sector perchen-feddiant oedd â'r gyfran isaf - dim ond 21 y cant.

Roedd traean yr holl aelwydydd oedd yn cynnwys person â salwch hirdymor, person llesg neu anabl ym mandiau treth cyngor A a B, o gymharu â chwarter yr holl aelwydydd nad oeddent yn cynnwys person o'r categori hwn.

Fel y disgwyl, mae cysylltiad amlwg rhwng band treth cyngor eiddo a dosbarth dadansoddol NS-SEC person cyswllt yr aelwyd (HRP). Po uchaf oedd dosbarth dadansoddol NS-SEC yr HRP, y mwyaf tebygol oedd yr eiddo o fod mewn band treth cyngor uwch. Roedd cyfrannau'r eiddo ym mandiau treth cyngor A a B yn amrywio o 44 y cant o aelwydydd lle'r oedd yr HRP yn gweithio mewn 'swyddi cyffredin' i lawr i 13 y cant o aelwydydd lle'r oedd yr HRP yn gweithio mewn 'swyddi rheoli a phroffesiynol uwch'.

Mae siart 16.12 eto'n dangos dosbarthiad aelwydydd ym mhob band treth cyngor (dim ond band treth cyngor ymatebwyr a roddodd ateb y mae'r ffigurau hyn yn ei ddangos). Yn y siart hefyd, mae gwir ddosbarthiad bandiau treth cyngor yng Nghymru (allan o'r Datganiad Cyntaf[1] ar dreth cyngor Anheddau yng Nghymru 2009-2010 a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad).

[1] www.statscymru.cymru.gov.uk

Siart 16.12: Amcangyfrif ymatebwyr o fandiau treth cyngor eiddo o gymharu â gwir fandiau treth cyngor eiddo yng Nghymru

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod beth oedd band treth cyngor eu heiddo wedi'u hepgor o'r siart

Fel y gwelir o'r siart, nid yw cyfrannau'r ymatebwyr a wyddai'n gywir pa fand treth cyngor roedd eu cartref ynddo wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y bandiau treth cyngor i gyd. Mae'r siart yn dangos mai dim ond 16 y cant o eiddo yng Nghymru sydd mewn gwirionedd ym mand D er bod 25 y cant o ymatebwyr yn meddwl fod eu heiddo ym mand D. Awgrymir fod yr ymatebwyr hyn yn camgymryd bod eu heiddo ym mand D, a'i fod yn fwy tebygol o fod ym mand A-C mewn gwirionedd.

Roedd 20 y cant o aelwydydd yn derbyn budd-dal treth cyngor (tabl 16.4). Roedd cyfran yr aelwydydd a dderbyniai fudd-dal treth cyngor ym mand A yn llawer uwch na'r gyfran a dderbyniai fudd-dal treth cyngor o'r bandiau treth cyngor eraill.

Tabl 16.4: Aelwydydd oedd yn derbyn budd-dal treth cyngor, yn ôl amcangyfrif ymatebwyr o fand treth cyngor

Band Treth Cyngor	Yn derbyn	Ddim yn derbyn	Cyfanswm
A	35%	65%	100%
B	24%	77%	100%
C	16%	84%	100%
D	10%	90%	100%
E	6%	94%	100%
F, G, H, I	5%	95%	100%
Ddim yn gwybod	31%	69%	100%
Pob band	20%	80%	100%

Cyfanswm a bwysolwyd: 847,300 Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

(a) Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent yn derbyn budd-dal treth cyngor wedi'u hepgor o'r siart

(b) Mae bandiau treth cyngor F, G, H ac I wedi'u grwpio gyda'i gilydd gan mai niferoedd bach oedd ym mhob band.

Mae'n ddiddorol nodi fod bron i draean o'r holl aelwydydd na roddodd ateb i'r cwestiwn 'ym mha fand treth cyngor y mae eich cartref?' hefyd yn hawlio budd-dal treth cyngor.

Mae siart 16.13 yn dangos fod aelwydydd â HRP ar begwn uchaf a phegwn isaf y raddfa oedran (h.y. iau na 30 neu hŷn na 69) yn llawer mwy tebygol o fod yn derbyn budd-dal treth cyngor na phob grŵp oedran arall.

Siart 16.13: Ymatebwyr oedd yn derbyn budd-dal treth cyngor, yn ôl oedran HRP

Mae ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent yn derbyn budd-dal treth cyngor wedi'u hepgor o'r siart

Roedd 60 y cant o'r aelwydydd oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn hawlio budd-dal treth cyngor o gymharu â dim ond 10 y cant o'r aelwydydd a oedd yn berchen-feddianwyr. Roedd ychydig dros hanner yr holl aelwydydd un rhiant â phlant dibynnol ganddynt yn derbyn budd-dal treth cyngor.

Byw yng Nghymru 2008

Cwestiynau cyllid tai

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd am gyllid tai yn yr arolwg Byw yng Nghymru:

Cwestiynau i berchen-feddianwyr:

- *Sut (wnaethoch chi/ nhw/chi a'ch partner/eich aelwyd) brynu (eich/eu) rhan o'r eiddo hwn? [3 chwestiwn pellach i sicrhau eglurder ynghylch perchenogaeth]*
- *Beth ydych chi'n feddwl yw gwerth y (tŷ/fflat) yma ar y farchnad ar hyn o bryd?*
- *Beth oedd cyfanswm pris prynu (eich/eu) rhan o'r cartref hwn, pryd (brynoch chi/brynon nhw/brynoch chi a'ch partner/brynodd eich aelwyd) yr eiddo? [ynghyd â 13 chwestiwn pellach i sicrhau eglurder ynghylch trefniadau prynu, morgais a benthyciadau eraill sy'n gysylltiedig â'r tŷ]*
- *A beth yw cyfanswm yr ad-daliadau misol am yr holl forgeisi/benthyciadau, yn cynnwys unrhyw daliadau gwaddol, ISA neu PEP ac eithrio unrhyw gostau yswiriant? [ynghyd â 2 gwestiwn pellach i sicrhau eglurder ynghylch ad-daliadau]*

Cwestiynau i bobl sy'n rhentu:

- *Pwy yw perchennog yr eiddo hwn? Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau i bwy rydych chi/eich aelwyd yn talu eich rhent? OS YN DDI-RENT: pwy sy'n darparu'r llety? [14 cwestiwn pellach ar landlordiaid ac ati]*
- *A yw'r llety a ddarperir wedi'i ddodrefnu, wedi'i ddodrefnu'n rhannol neu heb ei ddodrefnu?*
- *A yw'r llety'n dod gyda swydd unrhyw un ar yr aelwyd? OS YDY: A yw eich aelwyd yn talu rhent am y llety, neu a yw'n ddi-rent?*
- *A oes adeiladau busnes wedi'u cynnwys yn y rhent am y llety hwn?*
- *Faint yw'r rhent am y llety hwn (cyn tynnu budd-dal tai, ac eithrio trethi dŵr)? YCHWANEGWCH AR GYFER RHAI SY'N RHANNU: Hynny yw, y rhent llawn am y llety hwn, nid dim ond y rhan a dalwch chi/eich y llety yn bersonol/ [Ac 1 cwestiwn arall i sicrhau eglurder ynghylch y rhent]*
- *A yw eich aelwyd ar hyn o bryd yn derbyn unrhyw fudd-dal tai, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei fod yn cael ei dalu i'ch landlord gan y cyngor? (OS YDY, GOFYNNWCH: a yw'r budd-dal tai yn talu'r rhent i gyd (llawn) neu ddim ond rhan ohono (rhannol)? [ynghyd â 3 chwestiwn pellach i sicrhau eglurder ynghylch y rhent a budd-dal tai]*
- *A yw rhent eich aelwyd yn cynnwys unrhyw gostau gwresogi/gwasanaethau neu gynnal a chadw?*
- *A yw eich aelwyd yn talu costau gwasanaeth neu gynnal a chadw ar wahân yn ychwanegol i'ch rhent?*

Cwestiynau treth cyngor:

- *Ym mha fand treth cyngor y mae eich cartref?*
- *Ar wahân i ostyngiad person sengl, a ydych chi/eich aelwyd yn derbyn unrhyw fudd-dal treth cyngor?*

Gwybodaeth Cyffredinol

Gwybodaeth gyffredinol

Mae'r holl benodau a'r pynciau yn y crynodeb hwn wedi'u dadansoddi gan ddefnyddio cyfres o 'newidynnau dosbarthiadol cyffredinol', y rhan fwyaf ohonynt wedi'u dosbarthu fel newidynnau 'cydraddoldeb' hefyd.

Bydd y bennod hon yn rhoi crynodeb o ganlyniadau newidynnau 'cyffredinol' arolwg Byw yng Nghymru 2008 a dadansoddiad o bob newidyn ar lefel Cymru gyfan. Nid yw rhai newidynnau 'cydraddoldeb/cyffredinol' a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi ym mhob pennod wedi'u cynnwys yn yr amlinelliad bras hwn; mae gan y newidynnau hyn eu pennod a'u dadansoddiad manwl eu hunain, er enghraifft, anabledd a salwch hirdymor pobl a deiliadaeth aelwydydd.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad arolwg Byw yng Nghymru fydd y brif ffynhonnell ar gyfer cael y math hwn o wybodaeth bob tro. Pan fo ffynonellau eraill yn bodoli byddwn yn cyfeirio atynt yn y bennod hon.

Poblogaeth – Dadansoddiad fesul oedran a rhyw

Nid yw arolwg Byw yng Nghymru wedi'i gynllunio'n arbennig i gael amcangyfrif o boblogaeth Cymru. Ond mae proses bwysoli'r arolwg yn rhoi poblogaeth o tua thair miliwn i ni. Mae hyn ychydig yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn sy'n cael eu rhyddhau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yr amcangyfrifon canol blwyddyn hyn yw'r brif ffynhonnell ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth[1].

Yn arolwg Byw yng Nghymru 2008 roedd yna ychydig mwy o fenywod (51 y cant) na dynion (49 y cant), sy'n gyson â'r amcangyfrifon canol blwyddyn diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yn ôl arolwg Byw yng Nghymru 2008 roedd yna 1.27 miliwn o aelwydydd yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 1.28 miliwn yn 2007 yn ôl amcangyfrifon aelwydydd diweddaraf Cymru[1].

Mae yna sawl ffordd wahanol o gyfrifo grwpiau oedran o ddata arolwg Byw yng Nghymru. Mae siart 17.1 yn dangos y grwpiau oedran a ddefnyddir fwyaf i ddadansoddi pynciau yn yr arolwg. Defnyddir y grwpiau oedran hyn gan fod yna gyfran debyg o bobl ym mhob grŵp.

Siart 17.1: Cyfran y bobl ym mhob grŵp oedran

Dadansoddwyd rhai pynciau yn y crynodeb yn ôl pobl o oedran gweithio (rhwng 16 a 59 oed i fenywod, a rhwng 16 a 64 oed i ddynion) ac yn ôl pobl o oedran pensiwn (60 oed neu drosodd i fenywod, a 65 oed neu drosodd i ddynion) (gweler siart 17.2).

Mae'n werth nodi bod rhaid i ymatebwyr arolwg Byw yng Nghymru fod yn 16 oed neu drosodd. Gan fod cyfran yr ymatebwyr rhwng 16 ac 19 oed yn fach, maent wedi'u cynnwys yn yr un grŵp oedran ag ymatebwyr rhwng 20 a 29 oed.

[1] I gael yr amcangyfrifon poblogaeth a'r amcangyfrifon aelwydydd diweddaraf am Gymru gweler:
www.cymru.gov.uk/ystadegau

Siart 17.2: Pobl yn ôl a ydynt o dan 16 oed, o oedran gweithio neu oedran pensiwn

Grŵp ethnig

Yn ôl y disgwyl gyda sampl bach, mae wedi bod yn anodd iawn dadansoddi'r pynciau yn y crynodeb yn ôl ethnigrwydd. Fodd bynnag, roedd hi'n bosibl cyfuno'r pymtheg cefndir ethnig gwahanol yn bedwar grŵp ethnig cyffredinol; mae hyn wedi rhoi nifer digonol o bobl i ni allu dadansoddi rhywfaint ar y pynciau yn ôl grŵp ethnig.

Gweler y 'Termau a'r diffiniadau' i weld pa gefndiroedd ethnig sydd wedi'u cynnwys ym mhob grŵp. Byddai Cyfrifiad 2001 yn ffynhonnell wybodaeth fwy priodol ar gyfer dadansoddiad manylach o ethnigrwydd yng Nghymru.

Mae tabl 17.1 yn dangos cyfran y bobl yng Nghymru yn y pedwar grŵp ethnig cyffredinol.

Tabl 17.1: Pobl yn ôl grŵp ethnig

Grŵp ethnig	Nifer	Y cant
Gwyn	2,939,700	97.1%
Cymysg	14,200	0.5%
Asiaidd	58,800	1.9%
Du	13,500	0.4%
Cyfanswm	3,026,300	100.0%

Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Mae pobl a atebodd 'anhysbys' neu 'arall' ar gyfer eu grŵp ethnig wedi'u hepgor o'r tabl hwn.

Crefydd

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi crefydd pob person a oedd yn byw yn eu cartref. 'Cristnogaeth' oedd crefydd mwyafrif o bobl Cymru (70 y cant). Dywedodd ychydig dros chwarter holl bobl Cymru nad oedd ganddynt grefydd o gwbl, a dim ond 0.1 y cant o ymatebwyr a wrthododd nodi crefydd pobl a oedd yn byw yn eu cartref.

Gan fod nifer y bobl o grefydd heblaw 'Cristnogaeth' yn fach, mae wedi bod yn anodd dadansoddi pynciau yn y crynodeb yn ôl crefydd.

Tabl 17.2: Pobl yn ôl math o grefydd

Crefydd	Nifer	Y cant
Dim	805,200	26.6%
Cristnogaeth	2,119,100	70.0%
Mwslimaidd	40,600	1.3%
Hindwaidd	16,600	0.5%
Crefydd arall	21,100	0.7%
Ddim yn gwybod	25,400	0.8%
Cyfanswm	3,028,000	100.0%

Ffynhonnell: Byw yng Nghymru 2008

Mae pobl yr oedd ymatebwyr wedi gwrthod nodi beth oedd eu crefydd wedi'u hepgor o'r tabl hwn.

Statws gweithio

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi statws gweithio pob person 16 oed a throsodd yn eu cartref (gweler siart 17.3).

Siart 17.3: Pobl 16 oed a throsodd yn ôl statws gweithio

Mae pobl 16 oed a throsodd oedd â statws cyflogaeth 'Cynllun Hyfforddi'r Llywodraeth', 'anhysbys', 'arall' neu wedi gwrthod ei ddarparu wedi'u hepgor o'r siart.

Roedd ychydig dros hanner yr holl bobl 16 oed a throsodd yng Nghymru yn gweithio naill ai mewn swyddi 'llawn amser' neu 'ran-amser'. Roedd 5 y cant yn bobl 'sâl neu anabl hirdymor' a dim ond 2 y cant oedd wedi'u cofrestru fel pobl 'ddi-waith'. Y brif ffynhonnell i gael gwybodaeth am statws gweithio pobl yng Nghymru yw'r Arolwg o'r Llafurlu.

Dosbarth dadansoddol Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC)

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr am eu swydd bresennol a chwestiynau am swydd bresennol eu partner/priod. Os oedd yr ymatebydd neu ei bartner/priod yn ddi-waith neu wedi ymddeol, roedd y cwestiynau'n ymwneud â'u swydd ddiwethaf.

Roedd y wybodaeth fanwl am alwedigaethau a gasglwyd yn golygu ei bod hi'n bosibl creu statws Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol i bob ymatebydd a'i bartner/priod. Dyma'r prif ddosbarthiad cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig a grëwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae dosbarth dadansoddol NS-SEC yn cynnwys wyth categori ac, i sicrhau sylw llawn, mae'r tri chategori; 'myfyrwyr', 'galwedigaethau na ddatganwyd neu a ddisgrifiwyd yn annigonol', a 'ni ellir eu dosbarthu am resymau eraill' yn cael eu cyfuno fel 'heb ddosbarth'. Ar gyfer arolwg Byw yng Nghymru, mae'r dosbarth dadansoddol 'erioed wedi gweithio a di-waith hirdymor' yn cael ei gynnwys yn 'heb ddosbarth' hefyd.

Siart 17.4: Person cyswllt y cartref a'i bartner/priod yn ôl dosbarth dadansoddol NS-SEC

Mae pob person cyswllt y cartref a'i bartner/briod nad oedd â dosbarth dadansoddol NS-SEC wedi'i ddosbarthu ar eu cyfer wedi'u hepgor o'r siart.

Er bod y categorïau dosbarth dadansoddol yn darparu hierarchaeth a dosbarth cymdeithasol i ryw raddau, nid yw'n adlewyrchu'r ffaith fod

ffactorau yn annibynnol ar ei gilydd o safbwynt bandiau incwm neu feini prawf eraill.

Gellir gweld saith dosbarth dadansoddol NS-SEC pob ymatebydd a phartner/priod yng Nghymru yn siart 17.4. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio mewn swyddi oedd wedi'u dosbarthu fel 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol is' (24 y cant).

Roedd 9 y cant o bob person cyswllt y cartref a phartner/priod yng Nghymru yn gweithio mewn swyddi oedd wedi'u dosbarthu fel 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch', sef y dosbarth dadansoddol NS-SEC a gysylltir gan amlaf â dosbarth cymdeithasol uwch.

Math o aelwyd

Mae'r newidyn 'math o aelwyd' yn edrych ar gyfansoddiad aelwydydd yng Nghymru, i ffurfio categorïau sy'n disgrifio'r gwahanol grwpiau o unigolion sy'n byw o dan yr un to.

Mae arolwg Byw yng Nghymru'n cynnwys un deg tri o grwpiau gwahanol, ond at ddibenion dadansoddi mae'r rhain wedi'u cyfuno i ffurfio chwe chategori cyffredinol.

Siart 17.5: Aelwydydd yn ôl math o aelwyd

Mae aelwydydd a oedd wedi'u nodi fel rhai 'eraill' wedi'u hepgor o'r siart.

Roedd dros chwarter yr holl aelwydydd yng Nghymru'n cynnwys 'dau oedolyn a phlant'. Roedd 28 y cant arall o'r aelwydydd yn rhai 'pensiynwr sengl' a 'cwpl priod ar eu pensiwn'. Roedd dros un o bob deg aelwyd yng Nghymru yn rhai 'rhiant sengl'.

Aelwydydd sy'n gweithio a chartrefi di-waith

Mae arolwg Byw yng Nghymru wedi gallu creu newidyn 'aelwydydd di-waith' gan ddefnyddio'r diffiniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r newidyn yn cynnwys pedwar categori cyffredinol. Mae siart 17.6 yn dangos dadansoddiad o'r aelwydydd yn ôl y pedwar categori hwn.

'Aelwydydd sy'n gweithio' yw rhai lle mae'r holl oedolion 16 oed a throsodd yn gweithio.

'Aelwydydd di-waith' felly yw rhai lle nad yw'r oedolion 16 oed a throsodd yn gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys aelwydydd lle mae'r holl oedolion yn ddi-waith; y rhai lle mae'r holl oedolion yn economaidd anweithgar; a'r rhai sy'n cynnwys oedolion di-waith ac anweithgar.

Yn y trydydd categori, 'aelwydydd sy'n cynnwys aelodau sy'n gweithio ac aelodau di-waith', mae yna rai oedolion 16 oed a throsodd yn gweithio, a rhai yn ddi-waith.

Mae'r pedwerydd categori, 'aelwydydd nad ydynt o oedran gweithio' yn cynnwys pobl o oedran pensiwn.

Siart 17.6: Aelwydydd yn ôl statws 'aelwydydd di-waith'

Mae aelwydydd nad yw eu statws gwaith yn hysbys wedi'u hepgor o'r siart.

Mae'r siart yn dangos fod dros ddau o bob pump aelwyd yng Nghymru yn 'aelwydydd sy'n gweithio'. Mae 15 y cant o aelwydydd yng Nghymru yn 'aelwydydd di-waith'. Mae 28 y cant o gartrefi yng Nghymru yn cynnwys oedolion o oedran pensiwn yn unig.

Y brif ffynhonnell ar gyfer cael gwybodaeth am aelwydydd di-waith yng Nghymru yw'r Arolwg o'r Llafurlu.

Aelwydydd agored i niwed

Roedd yr arolwg Byw yng Nghymru'n creu newidyn a oedd yn edrych ar yr aelwydydd sy'n cynnwys pobl 'agored i niwed'.

Siart 17.7: Aelwydydd yn ôl a ydynt wedi'u dosbarthu fel aelwydydd 'agored i niwed' ai peidio

Y diffiniad o 'aelwyd agored i niwed' yw un sy'n cynnwys plentyn o dan 16 oed, oedolyn dros 59 oed, neu berson â salwch cyfyngus hirdymor, llesgedd neu anabledd.

Mae siart 17.7 yn dangos bod chwarter o holl aelwydydd Cymru yn cynnwys o leiaf un person 'agored i niwed'.

Dosbarthiad trefol/gwledig

Mae newidyn daearyddol a ddefnyddir yn aml gydol y crynodeb hwn yn edrych ar leoliad aelwydydd yng Nghymru, ac a yw'r aelwyd wedi'i lleoli

mewn ardal 'drefol' neu 'wledig'. Mae siart 17.8 yn dangos y pedwar math o leoliad y mae aelwydydd yng Nghymru yn perthyn iddynt.

Siart 17.8: Aelwydydd yn ôl dosbarthiad 'trefol/gwledig'

Roedd mwyafrif o aelwydydd Cymru wedi'u lleoli mewn ardaloedd 'trefol' (63 y cant). Diffinnir ardal 'drefol' fel ardal sydd â phoblogaeth o dros 10,000 o bobl.

Mae peth gwaith dadansoddi ar bynciau yn y crynodeb hwn yn cyfuno categorïau i greu rhaniad cyffredinol rhwng 'trefol' a 'gwledig'. Ar gyfer y math hwn o ddadansoddiad, mae 'trefol' yn cynnwys aelwydydd sy'n perthyn i gategorïau 'trefol' a 'tref a'r cyrion', a 'gwledig' yn cynnwys aelwydydd sy'n perthyn i'r categorïau 'pentref' a 'pentrefan ac anheddau ynysig'.

Hunaniaeth genedlaethol

Gofynnwyd i ymatebwyr beth oedd eu hunaniaeth genedlaethol yn eu barn hwy. Yna, gofynnwyd iddynt nodi hunaniaeth genedlaethol pob person sy'n byw yn eu cartref. Roedd ymatebwyr yn gallu nodi mwy nag un hunaniaeth genedlaethol ar gyfer pob person. Mae siart 17.9 yn dangos fod dau draean o'r boblogaeth wedi nodi eu hunaniaeth fel 'Cymreig'.

Siart 17.9: Pobl yn ôl eu hunaniaeth genedlaethol

Mae pobl gyda hunaniaeth genedlaethol 'anhysbys' wedi'u hepgor o'r siart.

Roedd ychydig o dan chwarter o bobl Cymru yn nodi eu bod yn 'Prydeinig'. Roedd 93 y cant o bobl wedi nodi un 'hunaniaeth genedlaethol'. O'r rhai a ddewisodd ddau, y cyfuniad mwyaf cyffredin oedd 'Prydeinig' a 'Cymreig' gyda 5 y cant o bobl yn dewis hyn. Gan mai dim ond rhoi eu barn bersonol ar eu hunaniaeth genedlaethol roedd ymatebwyr yn gallu ei wneud, dim ond yr atebion a roddwyd gan ymatebwyr am eu hunaniaeth genedlaethol eu hunain gafodd eu dadansoddi. Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y canrannau; roedd ychydig llai o ymatebwyr wedi nodi 'Cymreig' (64 y cant) fel hunaniaeth genedlaethol o gymharu â'r bobl i gyd.

Y brif ffynhonnell wybodaeth am hunaniaeth genedlaethol yw'r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Bydd gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol yn cael ei chasglu yng Nghyfrifiad 2011 am y tro cyntaf.

Gwybodaeth Ansawdd Allweddol

Arolwg o aelwydydd yw'r arolwg Byw yng Nghymru, ac un person o bob aelwyd sy'n cael ei gyfweld. Person Cyswllt y Cartref (HRP) neu ei gymar/partner fydd hwn fel arfer (ond nid bob amser). Mae mwyafrif y cwestiynau yn yr arolwg naill ai'n adlewyrchu profiad y sawl sy'n cael ei gyfweld neu safbwynt yr aelwyd yn ei chyfanrwydd. Felly nid yw'r cwestiynau hyn yn adlewyrchu profiadau pob oedolyn ar yr aelwyd dan sylw. Mae'n bosibl felly y bydd yr atebion i'r cwestiynau "i'r ymatebwyr" yn cael eu dylanwadu gan nodweddion yr ymatebwyr, yn yr ystyr y bydd y rhain yn wahanol i nodweddion yr oedolion i gyd.

Samplu a grosio

Lluniwyd sampl Byw yng Nghymru fel ei fod yn darparu o leiaf 300 o gyfweliadau llwyddiannus y flwyddyn ym mhob awdurdod lleol, 1,000 dros 3 blynedd, ac oddeutu 7,500 o gyfweliadau llwyddiannus trwy Gymru gyfan bob blwyddyn. I greu'r sampl targed, dewiswyd dros 12,500 o gyfeiriadau ar hap trwy PAF (Postcode Address File) er mwyn ystyried yr holl resymau posibl dros beidio ag ymateb. Cymerwyd samplau haenedig fesul awdurdod lleol ar gyfer yr arolwg Byw yng Nghymru, gan na ellid darparu digon o gyfeiriadau dros gyfnod o dair blynedd yn ardaloedd yr awdurdodau lleol llai i allu dadansoddi data'r arolwg trwy ddewis samplau cwbl ar hap o blith pob cyfeiriad yng Nghymru. Aethpwyd ati i fonitro'r arolygon na dderbyniwyd ymateb iddynt, er mwyn gweld a oedd rhai mathau o eiddo ar goll o'r arolwg a gweld beth oedd rhesymau pobl dros beidio ag ymateb. Roedd y cyfraddau nad ymatebodd yn amrywio'n fawr, yn ôl y math o ddeiliadaeth ac yn ôl awdurdod lleol. Felly ychwanegwyd pwysoliad yn ystod y broses grosio, a chyfrifwyd hwn ar wahân ar gyfer pob awdurdod lleol. Cyfrifwyd y ffactorau grosio ar gyfer data'r arolwg gan GfK NOP dan gyfarwyddyd Ipsos MORI.

Cyfrifwyd pwysoliad grosio aelwydydd mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn cynnwys amcangyfrif nifer y cyfeiriadau cymwys, a chyfrifwyd y pwysoliadau grosio yng Ngham 2 gan ystyried: tebygolrwydd y byddai cyfeiriad yn cael ei ddewis; tebygolrwydd y byddai aelwydydd yn cael eu dewis o fewn cyfeiriadau; a'r gyfradd ymateb. Dylid nodi nad ailymwelwyd yn 2008 â chyfeiriadau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolygon blaenorol.

Canlyniadau

Sylwer bod cyfansymiau wedi'u pwysoli yn cael eu talgrynnu i'r mil agosaf; ac oni nodir fel arall, mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n dod i gyfanswm o 100 y cant oherwydd talgrynnu. Y cyfanswm wedi'i bwysoli a ddangosir yn y tablau yn y cyhoeddiad hwn yw cyfanswm nifer yr ymatebwyr, wedi'i bwysoli, ar gyfer pob cwestiwn penodol (pwysolwyd y cwestiynau i sicrhau eu bod yn gynrychiadol o aelwydydd Cymru) yn arolwg Byw yng Nghymru 2008.

Rhoddir cyfansymiau wedi'u pwysoli ar gyfer pob tabl. Os bydd y canrannau wedi'u lluosi â'r cyfansymiau wedi'u pwysoli yn llai na 5,000, gallai'r ffigurau fod yn annibynadwy yn ystadegol. Mae'r arolwg Byw yng Nghymru yn casglu gwybodaeth am yr ymatebwr a'r aelwyd ar nifer o bynciau, a chasglwyd peth gwybodaeth gyffredinol at ddibenion dosbarthu hefyd, er mwyn gallu dadansoddi'r wybodaeth hon ymhellach. Mae'r wybodaeth 'gyffredinol' hon yn cynnwys newidynnau sy'n ymwneud â phob unigolyn yng Nghymru, er enghraifft oedran, rhyw, tras ethnig, hunaniaeth genedlaethol a statws o ran gwaith. Mae newidynnau eraill yn benodol i bob aelwyd, er enghraifft y math o aelwyd ac a yw'r aelwyd yn un agored i niwed ai peidio.

Termau a diffiniadau

PAF – Y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post yw'r gronfa ddata o gyfeiriadau fwyaf cyfredol a chyflawn yn y DU. Defnyddir PAF i greu'r hapsampl ar gyfer yr arolwg ac mae'n helpu i leihau'r nifer o gyfeiriadau anghymwys y bydd cyfwelwyr yn ymweld â hwy.

Aelwyd/Cartref - caiff ei diffinio fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu rhyw agwedd ar y cartref – hynny yw, yn rhannu naill ai ystafell fyw neu ystafell eistedd neu o leiaf un pryd o fwyd y dydd.

HRP – Diffinnir Person Cyswllt y Cartref (HRP) fel y person y mae'r tŷ'n eiddo iddo o ran enw neu wedi'i rentu yn ei enw. Os oes mwy nag un person yn berchen arno neu'n ei rentu, yr HRP yw'r person sy'n ennill fwyaf. Os yw'r incymau'n gyfartal y person hynaf yw'r HRP.

Ardaloedd Fforymau Economaidd:

Gogledd Cymru:	Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd (ac eithrio Meirionnydd), Ynys Môn, Wrecsam
Canolbarth Cymru	Ceredigion, Gwynedd (Meirionnydd), Powys
De-orllewin Cymru	Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe
De-ddwyrain Cymru	Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg

Aelwydydd agored i niwed – Aelwydydd sy'n cynnwys plentyn o dan 16 oed neu oedolyn dros 59 oed neu oedolyn â salwch hirdymor cyfyngus

Plant Dibynnol – Personau rhwng 0 a 15 oed, a phersonau rhwng 16 a 18 oed sy'n sengl, mewn addysg lawn amser ac yn economaidd anweithgar

Oedolyn – Unrhyw berson nad yw'n blentyn dibynnol

Oedran pensiwn arferol – Gwryw dros 64 oed neu fenyw dros 59 oed.

Aelwyd oedran gweithio – aelwyd sy'n cynnwys o leiaf un gwryw 16-64 oed neu fenyw 16-59 oed.

Aelwyd sy'n gweithio – 'aelwyd oedran gweithio' lle mae pob aelod 16 oed a throsodd mewn gwaith neu'n 16-18 oed ac mewn addysg lawn amser.

Aelwyd ddi-waith – 'aelwyd oedran gweithio' lle nad oes unrhyw aelod 16 oed a throsodd mewn gwaith.

Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Cenedlaethol (NS-SEC) – Caiff yr NS-SEC ei seilio ar alwedigaeth yr ymatebydd. Yn arolwg Byw yng Nghymru, dim ond i'r HRP a'i briod y gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â chyflogaeth, felly ceir nifer fechan o ymatebwyr (nad oeddynt yn HRP nac yn briod i HRP) na dderbyniodd gategori NS-SEC.

Os nad yw ymatebwyr mewn gwaith cyflogedig ar hyn o bryd, maent wedi eu dosbarthu yn ôl eu prif waith cyflogedig diwethaf. Felly, i'r rhan fwyaf o ymatebwyr nad oeddynt yn gyflogedig (pobl a oedd yn ddi-waith, wedi ymddeol, yn edrych ar ôl y cartref, ar gynlluniau gwaith neu hyfforddiant y llywodraeth, yn sâl neu'n anabl ac ati), y drefn arferol yw eu dosbarthu yn ôl eu prif waith diwethaf. Y prif eithriad i'r rheol hon yw myfyrwyr llawn amser a phobl di-waith hirdymor a ddangosir fel 'heb eu dosbarthu'.

Am fwy o wybodaeth am Ddosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Cenedlaethol a sut y maent yn dosbarthu'r categorïau, ewch i wefan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)[1]

[1] www.ons.gov.uk/about-statistics/classifications/current/ns-sec/cats-and-classes/category-descriptions/index.html

Byw yng Nghymru 2008

Tai Cymdeithasol – Cartrefi sy'n eiddo i'r awdurdod lleol neu gymdeithas dai.

Lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol:

Dan Lefel 2	NVQ lefel 1; Hyd at 4 lefel O, TGAU gradd D-G, TAU gradd 2-6 neu gyfwerth; 1 lefel UG; GNVQ, GSVQ sylfaen; BTEC; RSA arall; City and Guilds arall; YT, tystysgrif YTP; Cymhwyster sgiliau allweddol; Cymhwyster sgiliau sylfaenol
Lefel 2	NVQ lefel 2; Bagloriaeth Cymru Canolradd 1; 1 Safon Uwch, neu 2/3 lefel UG, neu gyfwerth; Prentisiaethau masnach; GNVQ canolradd, diploma RSA; City and Guilds crefft; BTEC; 5+ lefel O, TGAU gradd A*-C, TAU gradd 1 neu gyfwerth; Cymwysterau eraill
Lefel 3	NVQ lefel 3; Bagloriaeth Cymru Uwch 1; Y Fagloriaeth Rhyngwladol 1; GNVQ Uwch; 2+ Safon Uwch, 4+ lefel UG neu gyfwerth; diploma uwch RSA; OND, ONC, BTEC ac ati; City and Guilds cenedlaethol, crefft uwch; Cymhwyster Mynediad i AU 1; prentisiaethau masnach; Cymwysterau eraill
Lefel 4-8	NVQ lefel 4/5; Gradd gyntaf, Gradd uwch (e.e. MSc, MA, MBA, PhD), Gradd arall; Diploma mewn AU; HNC, HND, BTEC ac ati uwch; Dysgu (addysg bellach, uwchradd a chynradd, cyfnod sylfaen 1 a lefel heb ei datgan; nyrsio ac ati; diploma RSA uwch; cymhwyster addysg uwch arall o dan lefel gradd

Categorïau grwpiau ethnig:

Gwyn	Prydeinig Gwyddelig Unrhyw gefndir Gwyn arall
Cymysg	Gwyn a Du Gwyn ac Asiaidd Unrhyw gefndir cymysg arall
Asiaidd	Indiaidd Pacistanaidd Bangladeshaidd Tsieineaidd Unrhyw gefndir Asiaidd arall
Du	Caribïaidd Affricanaidd Unrhyw gefndir Du arall
Arall	Unrhyw grŵp ethnig arall
Anhysbys	Dim un o'r rhain Gwrthod ateb